# CYNLLLUN DATBLYGU LLEOL ERYRI

## 2016 – 2031

### Datganiad Ysgrifenedig











PARC CENEDLAETHOL ERYRI

SNOWDONIA NATIONAL PARK



Aber Abermaw ©Croeso Cymru

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ERYRI**
**2016 – 2031**

FERSIWN MABWYSIEDIG

Cynhyrchwyd gan
© Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF
☎ 01766 770274
Ffacs 01766 771211
Ebost polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru

Lluniau: ©Hawlfraint y Goron (Croeso Cymru)

# Rhagair

Yr wyf yn falch o gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLl) 2016-2031, sef dogfen sy'n amlinellu'r fframwaith cynllunio defnydd tir 15 mlynedd ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn tua 500-600 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn, a bydd y CDLl diwygiedig yn darparu'r sylfaen ar gyfer penderfynu pob cais cynllunio a dderbyniwn.

Mae rhagflaenydd y CDLl (CDLl Eryri 2007-2022) wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau, ac fe ystyriwyd bod ei Strategaeth yn effeithiol neu yn 'gadarn'. Yn wyneb hyn, ac yn dilyn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, penderfynodd yr Awdurdod fod 'adolygiad ar ffurf fer' yn briodol. Yn syml, mae hyn yn y bôn yn golygu mai newidiadau cyfyngedig sydd wedi eu cynnig ar gyfer y CDLl diwygiedig ac mae'r strategaeth gyffredinol ar gyfer CDLl diwygiedig 2016-2031 yn parhau i fod yr un fath â'r CDLl blaenorol.

Gwelwyd rhai newidiadau deddfwriaethol pwysig yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, wrth greu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi helpu i lunio cynnwys y CDLl diwygiedig hwn. Mae wedi helpu sut yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau tir ac adnoddau naturiol eraill – sy'n hanfodol i ni allu sicrhau llesiant Cymru gynaliadwy.

Mae Eryri yn lle arbennig - ac mae'n bwysig bod cynnwys y CDLl yn adlewyrchu hyn. Mae'n dirwedd o bwysigrwydd rhyngwladol, sy'n gyfoethog o ran ei threftadaeth ddiwylliannol a'i bywyd gwyllt. Nid syndod felly fod miliynau o bobl yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol bob blwyddyn i fwynhau'r golygfeydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored. Mae Eryri'n cefnogi cymunedau gwledig a'u dyfodol, a dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae'r economi cyflogau isel a chostau tai uchel a waethygir gan bwysau mudo i mewn ynghyd â phrinder o dai fforddiadwy yn gyrru pobl i ffwrdd o'u hardaloedd genedigol. Mae newid yn yr hinsawdd a'i oblygiadau ar gyfer ein cymunedau a bioamrywiaeth a'n hymateb i'r bygythiad hwn i gyd yn bwysig wrth reoli 'Rhinweddau Arbennig' Eryri.

Rydym yn gobeithio y bydd cynnwys y CDLl diwygiedig yn parhau i ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau gwneud penderfyniadau cynllunio cynaliadwy i'r dyfodol.



**Elwyn Edwards**

**Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad**





Betws-y-Coed ©Croeso Cymru

# Cynnwys

**1. CYFLWYNIAD ..... 10**

Darlun Gofodol o Barc Cenedlaethol Eryri ..... 12
Dylanwadau ar y Strategaeth Ofodol ..... 14
Prif Faterion, Heriau a Gyrwyr Newid ..... 19
Gweledigaeth Ofodol ac Amcanion ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri ..... 24

**2. Y STRATEGAETH DDATBLYGU ..... 30**

Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy (A) ..... 30
Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr (B) ..... 32
Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol (C) ..... 38
Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1) ..... 40
Polisi Strategol Ch: Isadeiledd cymdeithasol a ffisegol mewn datblygiadau newydd (Ch) ..... 41

**3. GWARCHOD, GWELLA A RHEOLI'R AMGYLCHEDD NATURIOL ..... 44**

Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D) ..... 46
Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd (2) ..... 50
Polisi Strategol Dd: Newid yn yr Hinsawdd (Dd) ..... 51
Polisi Datblygu 3: Ynni (3) ..... 53
Polisi Strategol E (1): Polisi Diogelu Mwynau (E(1)) ..... 55
Polisi Strategol E (2): Datblygiad Mwynau ar Raddfa Fawr (E(2)) ..... 55
Polisi Strategol E (3): Gwaredu Gwastraff Llechi a Chwareli Carreg Adeiladu (E(3)) ..... 56
Polisi Strategol F: Gwastraff (F) ..... 57
Polisi Datblygu 4:Safleoedd Graddfa - fach ar gyfer gwastraff tŷ a gwastraff anadweithiol (4) ..... 57
Polisi Datblygu 5: Mannau agored a Lletemau glas (5) ..... 57

**4. GWARCHOD A GWELLA YR AMGYLCHEDD DIWYLLIANNOL A HANESYDDOL ..... 60**

Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff) ..... 62
Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy(6) ..... 63
Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol (7) ..... 65
Polisi Datblygu 8: Diogelu safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi (8) ..... 66
Polisi Datblygu 9: Addasu a newid defnydd adeiladau gwledig (9) ..... 68
Polisi Datblygu 10: Hysbysebion ac Arwyddion (10) ..... 69

**5. HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH A CHYNALIADWY ..... 72**

Polisi Strategol G : Tai (G) ..... 79
Polisi Datblygu 30: Tai fforddiadwy (30) ..... 80
Polisi Datblygu 11: Tai fforddiadwy ar Safleoedd eithriedig (11) ..... 82
Polisi Datblygu 12: Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol (12) ..... 83
Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (13) ..... 84
Polisi Datblygu 14: Llety Rhandy (14) ..... 85
Polisi Datblygu 15: Estyniadau (15) ..... 85
Polisi Datblygu 16: Adleoli Aneddiadau Presennol (16) ..... 86
Polisi Datblygu 17: Tynnu Ymaith Amod Daliadaeth Amaethyddol a Llety Gwyliau (17) ..... 86
Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol (Ng) ..... 87
Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau (18) ..... 89



Llynnau Cregennen ©Croeso Cymru


**6. CEFNOGI ECONOMI WLEDIG GYNALIADWY ..... 92**

Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) ..... 93
Polisi Datblygu 19: Gwaith newydd a datblygu hyfforddiant (19) ..... 95
Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27) ..... 98
Polisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol (20) ..... 100
Polisi Strategol I: Twristiaeth (I) ..... 102
Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena (21) ..... 103
Polisi Datblygu 28 Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd (28) ..... 103
Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog (22) ..... 104
Polisi Datblygu 23: Safleoedd Carafanau Teithiol a Gwersylla (23) ..... 105
Polisi Datblygu 29 Llety Gwyliau Amgen (29) ..... 108
Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24) ..... 109

**7. HYRWYDDO HYGYRCHEDD A CHYNHWYSEDD ..... 112**

Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant (L) ..... 114
Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr (25) ..... 115
Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26) ..... 115

**8. ATODIADAU ..... 117**

Atodiad 1: Rhestr Termau ..... 118
Atodiad 2: Gweithredu a Monitro ..... 122
Atodiad 3: Sut all y Cynllun Datblygu Lleol ddarparu'r weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri ..... 139
Atodiad 4: Parthau Dylanwad ..... 143
Atodiad 5: Cyswllt Aneddiadau i Ganolfannau Gwasanaeth Lleol ..... 144
Atodiad 6: Strategaeth Aneddiadau ..... 145
Atodiad 7: Diagram Allweddol – Y Strategaeth Ofodol ..... 148
Atodiad 8: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 149
Atodiad 9: CDLl Eryri Cyflenwad Tir ar gyfer Tai 2016 - 2031 ..... 150
Atodiad 10: Dyraniadau ..... 152



Gwynant ©Croeso Cymru

# Pennod 1

# Cyflwyniad


Darlun Gofodol o Barc Cenedlaethol Eryri ........ 12

Dylanwadau ar y Strategaeth Ofodol ........ 14

Prif Faterion, Heriau a Gyrwyr Newid ........ 19

Gweledigaeth Ofodol ac Amcanion ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri ........ 24




# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn anelu at adlewyrchu goblygiadau defnydd tir Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol yn ogystal â darparu cyfle i gyflenwi elfennau gofodol cynlluniau a strategaethau eraill ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau strategol a pholisïau datblygu fydd yn cyflenwi'r weledigaeth ofodol hirdymor ar gyfer dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Fe ddaw'r Cynllun Datblygu Lleol law yn llaw â chyfres o Fapiau Cynigion a Mapiau Manwl. Mae rhestr termau sy'n gysylltiedig â phroses y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i chynnwys fel Atodiad 1. Mae ystod eang o randdeiliaid wedi helpu i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, a bydd eu cyfraniad parhaus yn y broses o weithredu a monitro yn bwysig.

### Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.2 Mae gofyn i'r holl Gynlluniau Datblygu Lleol helpu i gyflenwi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad cynaliadwy. Er mwyn sicrhau'r cydymffurfiad hwn, mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn destun proses brawf i sicrhau bod eu cyfeiriad strategol yn ogystal â'u polisïau'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd; dyma'r hyn y cyfeirir ato fel y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Ymgymerwyd â gwerthusiad o'r fath ar gyfer y Cynllun diwygiedig hwn ac fe'i cyhoeddwyd fel dogfen ar wahân.

1.3 At hynny, o dan Ddeddfwriaeth Ewropeaidd,[1] rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn destun prawf pellach i sicrhau nad yw'r cynnwys yn peri niwed sylweddol i'r amgylchedd. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a wnaed yn ystod cyfnod adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi dangos dim effeithiau negyddol ar amgylchedd Eryri, yn wir mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd. Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'i ymgorffori o fewn yr Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

### Asesiad Rheoli Cynefinoedd

1.4 Mae'r Cynllun diwygiedig hefyd wedi bod yn destun Asesiad Rheoli Cynefinoedd, sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Asesiad Rheoli Cynefinoedd. Datblygwyd y ddeddfwriaeth hon er mwyn sicrhau'r lefel uchaf bosibl o amddiffyniad i safleoedd dynodedig Ewropeaidd; sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig. Mae Adroddiad Asesiad Rheoli Cynefinoedd wedi'i gyhoeddi i gyd-fynd â'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn yr un modd â'r asesiadau a amlinellwyd uchod, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio gwella ansawdd yr holl safleoedd dynodedig a nodedig yn Eryri, yn hytrach na cheisio osgoi unrhyw effeithiau negyddol yn unig. Mae'r dull hwn yn cefnogi pwrpas cyntaf yr Awdurdod.


### Gweithredu a monitro

1.5 Bydd mynd ati i fonitro ac adolygu'n rheolaidd yn hanfodol i sicrhau perthnasedd ac effeithiolrwydd parhaus y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Bydd y Cynllun yn cael ei fonitro bob blwyddyn a bydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyhoeddi er mwyn sefydlu a yw'r polisïau'n cyflawni'r amcanion bwriedig neu a oes patrymau annisgwyl neu newidiadau sylweddol a allai olygu bod angen ymgymryd ag adolygiad cynnar neu rannol. Rhaid ymgymryd ag adolygiad sylweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol bedair blynedd ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Fe all fod ffactorau a all olygu bod angen ymgymryd ag adolygiad cyn pen pedair blynedd. Cynhwysir y mecanweithiau gweithredu a monitro ar gyfer y polisïau yn Atodiad 2. Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys cyfeiriad at sefydliadau eraill a chynlluniau a strategaethau eraill a allai gael dylanwad rhagweithiol ar weithrediad y polisïau. Bydd yr Awdurdod hefyd yn monitro Cynllun Rheolaeth y Parc ac yn ystyried unrhyw oblygiadau defnydd tir a all ardaro â'r Cynllun Datblygu Lleol.

1 Cyfarwyddyd Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC



Aberdyfi ©Croeso Cymru



**Defnyddio'r ddogfen hon**


1.6 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys polisïau i ddatblygu gweledigaeth, amcanion a strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r polisïau'n sefydlu'r dull cyffredinol i ymdrin â datblygiadau yn y Parc yn y dyfodol, **ac mae'n bwysig bod y cynllun yn cael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd**. Mae nifer o'r polisïau'n gydberthnasol a gall llawer o'r polisïau fod yn berthnasol i un cynnig i ddatblygu. Ni fyddai pennu'r holl bolisïau cysylltiedig yn ymarferol. Er mwyn cadw'r ddogfen yn gryno, ni fyddir yn croesgyfeirio oni bai fod polisi arall yn uniongyrchol berthnasol. Yn sgil hynny, fe ddylid ystyried yr holl bolisïau pan fyddant yn berthnasol i gais penodol i ddatblygu. Mae'r Cynllun yn cynnwys mapiau cynigion a map cyfyngiadau.

1.7 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau strategol a pholisïau datblygu. Y polisïau strategol sy'n cyflwyno'r dull cyffredinol o ddatblygu tra bo'r polisïau datblygu yn helpu i gyflenwi'r polisïau strategol trwy ddarparu cyfarwyddyd manwl pellach y gellir asesu ceisiadau cynllunio yn ei erbyn.

1.8 Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn ailadrodd polisi a chyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol er ei fod yn croesgyfeirio rhyw gymaint. Yn ychwanegol at y polisïau a gynhwysir yn y cynllun hwn, bydd polisi a chyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol hefyd yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd eisoes wedi'i baratoi neu'r rhai fydd yn cael eu cynhyrchu gan yr Awdurdod. Mae rhestr o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn Atodiad 8. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Bydd y dogfennau canllaw hyn yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdod wrth wneud penderfyniadau ac maent yn ystyriaeth berthnasol. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned mewn penderfyniadau cynllunio; Mae Cynlluniau Bro yn adleisio'r uchelgeisiau hyn. Dylai Cynlluniau Bro adlewyrchu dyheadau'r gymuned leol tra hefyd yn sicrhau synergedd gyda dyheadau'r awdurdod cynllunio lleol yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Llesiant, a byddant yn ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio drwy eu mabwysiadu fel dogfennau cynllunio atodol lle bo'n briodol.

## Darlun Gofodol o Barc Cenedlaethol Eryri

1.9 Dynodwyd yn Barc Cenedlaethol yn 1951, a Pharc Cenedlaethol Eryri yw'r mwyaf a'r cyntaf i gael ei ddynodi yng Nghymru. Mae ganddo arwynebedd o 213,200 hectar. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys rhannau o Wynedd a rhannau o Gonwy.




1.10 Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cymryd ei enw o fynyddoedd Eryri. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfoethog o ran tirwedd a threflun ac mae ganddo 60 cilomedr o arfordir. Yn ychwanegol at hyn, mae gan Eryri goetiroedd mawr gydag oddeutu 9,500ha yn cael ei ddosbarthu fel Coedlan Lled Naturiol Hynafol a dros 96,000 hectar o rostir. Mae'r dirwedd o fewn y Parc Cenedlaethol wedi'i ffurfio dros filiynau o flynyddoedd. Ers diwedd yr Oes Iâ diwethaf, 10,000 o flynyddoedd yn ôl, mae'r rhyngweithiad rhwng pobl a natur wedi ffurfio tirwedd y Parc Cenedlaethol ac mae cysylltiadau diwylliannol cryf rhwng y bobl a'r ardal. Mae cymeriad gwledig traddodiadol yr aneddiadau yn arbennig i'r Parc Cenedlaethol ac yn ffurfio rhan o'i gymeriad tirwedd hanesyddol.

1.11 Mae hanes a diwylliant ym mhob man yn Eryri. Mae'r siambrau claddu Neolithig 6000 mlwydd oed yn cofnodi mannau gorffwys cyndadol ffermwyr cyntaf Eryri. Mae aneddiadau niferus a systemau caeau yn dangos sut mae pobl wedi byw a newid y dirwedd o gynhanes ymlaen. Mae canolfannau grym ac awdurdod yn weladwy yn y dirwedd, gan gynnwys y caerau cynhanes a Rhufeinig, cestyll ac eglwysi canoloesol. Yn fwy diweddar mae gweithgaredd diwydiannol y chwareli llechi a mwyngloddio wedi gadael etifeddiaeth ddramatig ar y rhanbarth. Mae Castell Harlech wedi'i gynnwys yn y rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd ac mae 377 o safleoedd wedi'u gwarchod fel Henebion Rhestredig[2]. Mae pedair ar ddeg o drefi a phentrefi yn Eryri sy'n Ardaloedd Cadwraeth a thua 1,911 o adeiladau rhestredig, 13 yn rhai Gradd 1 a 119 o adeiladau yn Radd 2*, mae hefyd 21 o barciau a gerddi hanesyddol o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan sylfaenol o ddiwylliant yr ardal. Mae Cymraeg yn cael ei siarad gan 58.6% o boblogaeth Eryri, ac mewn rhai cymunedau mae'r ganran mor uchel ag 85%. Mae'r traddodiadau Cymreig o ganu gwerin a barddoniaeth wedi parhau'n gryf yn Eryri ers y dyddiau pan oedd beirdd yn rhoi adloniant yn llysoedd y Tywysogion. Mae fersiynau modern yn cynnwys digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau sydd wedi'u trefnu'n lleol lle mae bandiau Cymreig a Cheltaidd yn perfformio.

2 Ym mis Mai 2017

1.12 Mae Eryri yn gyfoethog iawn yn nhermau bioamrywiaeth, nodwedd sydd, ynghyd â'i thirweddau trawiadol yn rhan annatod o'i statws fel Parc Cenedlaethol. Mae'r tywydd mwyn, llaith sy'n dod o'r Môr Iwerydd yn cynnal miloedd o rywogaethau a'u cynefinoedd, llawer ohonynt o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ni ellir canfod rhai ohonynt mewn unrhyw ran arall o'r byd. Mae 15 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a tri safle Ramsar wedi'i lleoli o fewn neu'n rhannol o fewn Eryri. Hefyd mae 107 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a 21 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn ogystal ag aber Afon Dyfi sy'n Safle Biosffer UNESCO y Byd. Nid oes, fodd bynnag, ond un dynodiad bach fel gwarchodfa natur leol. Mae afonydd, llynnoedd, y môr, coedydd, yn ogystal â dringo a chanolfannau dŵr gwyn a mynydda yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Mae 2,742 cilomedr o hawliau tramwy o fewn y Parc Cenedlaethol a 84,697 hectar o dir wedi'i ddiffinio fel cefn gwlad agored.

1.13 Mae gan Eryri economi cyflog cymharol isel, gyda thwristiaeth ac amaethyddiaeth yn brif sectorau cyflogaeth. Mae Amaethyddiaeth yn y Parc Cenedlaethol bron i gyd yn fugeiliol; ffermio cig eidion a defaid yn bennaf, ond gyda sector laeth fechan. Mae natur graddfa fach ac ucheldir y ffermio'n golygu bod incwm amaethyddol yn gyfyng. Mae amrywiaeth i feysydd megis twristiaeth fferm a mentrau bwyd lleol wedi chwarae rhan wrth gynyddu incymau fferm.

1.14 Dangosodd Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 25,702, gyda chynnydd o'i gymharu gyda 2001. Mae'r newidiadau cymharol fach hyn yn y cyfanswm poblogaeth yn cuddio newid strwythurol llawer mwy sylweddol mewn poblogaeth sef allfudiad pobl ifanc o'r ardal i chwilio am gyfleoedd addysg uwch a chyflogaeth. Mae poblogaeth Eryri yn ddaearyddol wasgaredig; dim ond dwy dref sydd gyda mwy na 1,500 mewn poblogaeth – Dolgellau a'r Bala. Mae lleoedd eraill megis Harlech, Aberdyfi, a Thrawsfynydd gyda rhwng 650 a 1250 o breswylwyr. Dangosodd Cyfrifiad 2011 gyfanswm o 11,944 o gartrefi gyda phreswylwyr parhaol o fewn y Parc. Mae prisiau tai uchel wedi'i gyfuno gydag incymau teuluol isel yn golygu fod mynediad at lety yn anodd i lawer o bobl.

1.15 Yr A470, sy'n rhedeg drwy ganol Parc Cenedlaethol ac sy'n cysylltu Llandudno, Betws y Coed, Trawsfynydd a Dolgellau, yw'r brif ffordd sy'n cysylltu Gogledd Cymru gyda Chaerdydd yn y De. Tua Gogledd y Parc mae'r A55 yn goridor trawsgludiad allweddol sy'n cysylltu economïau Iwerddon, Gogledd Ddwyrain Cymru a rhanbarth Gorllewin Swydd Gaer. Mae'r A487 yn rhoi mynediad i Aberystwyth tua'r de o'r Parc, ac yn ymylu ar ffin Gogledd Orllewin y Parc Cenedlaethol gan roi mynediad da i Borthmadog a Chaernarfon. Mae'r A5 yn rhedeg drwy Ogledd y Parc yn cysylltu Amwythig, Betws y Coed a Bangor. Mae gwasanaethau trên prif lein o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu darparu gan lein Arfordir y Cambrian gyda gwasanaethau uniongyrchol i Bwllheli a Chanolbarth Gorllewin Lloegr sy'n cysylltu â Aberystwyth a Llundain. Mae lein Dyffryn Conwy yn cysylltu ag Arfordir Gogledd Cymru, i Gaergybi ac i Crewe. Yn ychwanegol at hynny mae dwy reilffordd yn rhedeg trwy'r Parc Cenedlaethol, yn darparu gwasanaethau lleol h.y. Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffordd Ucheldir Cymru.



Yr Wyddfa

# Dylanwadau ar y Strategaeth Ofodol

### Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

1.16 Mae Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol[3] yn rhoi datganiad clir o gyfrifoldebau statudol a rôl Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Y rhain yw:
- I gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal,
- I hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.

1.17 Yn ychwanegol at y pwrpasau hyn, mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i ddatblygu'r pwrpasau hyn er mwyn
- Ceisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol.

1.18 Mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'i ddyletswydd cymdeithasol-economaidd, a gefnogir gan egwyddor Sandford[4] a phrawf Silkin[5] yn gosod fframwaith glir ar gyfer cynllunio datblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol.

### Cynlluniau a Strategaethau

1.19 Rhaid i'r Awdurdod ystyried y berthynas rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a chynlluniau a strategaethau perthnasol eraill ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfuno goblygiadau defnydd tir yr holl gynlluniau a strategaethau sy'n dylanwadu ar yr ardal. Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi dimensiwn gofodol i'r cynlluniau hyn fydd yn helpu yn eu gweithrediad. Mae'r rhan hon yn crynhoi pwyntiau allweddol y cynlluniau a strategaethau perthnasol.

### Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008)

1.20 Mae Parc Cenedlaethol Eryri o fewn dwy ardal cynllun gofodol h.y. ardal Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru ac ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru[6].

### Canolbarth Cymru

1.21 Mae'r blaenoriaethau yn yr ardal hon yng Nghynllun Gofodol Cymru'n cynnwys:
- Adeiladu ar y prif ganolfannau pwysig yn yr ardal, wrth wella cysylltiadau a lledaenu budd a thwf i'r cefn gwlad ehangach a'r cymunedau gwledig sy'n disgyn tu allan i'r mannau hynny, gwella atyniad yr ardal fel lle i bobl fyw a gweithio'n gynaliadwy, o safbwynt cadw eu talent eu hunain a denu newydd ddyfodiaid;
- Ymateb i anghenion ein cymunedau a chefn gwlad trwy alluogi twf a datblygiad priodol a grymuso cymunedau lleol i wella eu lefel o gynaliadwyedd;
- Cefnogi'r sectorau economaidd gwledig presennol yn cynnwys amaethyddiaeth, cynnyrchu bwyd a chynhyrch nad yw'n fwyd, i ddatblygu eu potensial a chreu cyfleoedd cynhyrchu gwerth uwch a fydd yn creu sail gynaliadwy ar gyfer dyfodol economi wedi ei seilio ar dir yr Ardal ac atgyfnerthu hyder mewn dyfodol gwledig;
- Ehangu'r sylfaen economaidd, gan adeiladu ar isadeiledd addysg uwch yr Ardal a chyflwyno cyfleoedd economaidd cynaliadwy yn cynnwys y sectorau economi gwybodaeth ar draws yr ardal wledig, gan facsimeiddio cyfleoedd ar gyfer twf ym mhob sector, am well swyddi â chyflogau uwch a chodi lefel menter a dyfir gartref a denu newydd ddyfodiaid creadigol mentrus;
- Gwireddu potensial lawn amgylchedd amrywiol yr Ardal a'i hunaniaeth ddiwylliannol unigryw fel ffordd o gynnal integredd wledig a naturiol y rhanbarth i adeiladu twristiaeth gynaliadwy gwerth uwch a gwella ei rôl mewn ymateb i effeithiau newid mewn hinsawdd;

3 Fel y diwygiwyd gan Ddeddf Amgylchedd 1995

4 Os yw'n ymddangos bod gwrthdaro na ellir moi ddatrys rhwng y pwrpasau statudol, rhoddir mwy o bwyslais ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth y Parc Cenedlaethol

5 Mae prawf Silkin ar gyfer datblygiad mawr yn gofyn 'a yw'r datblygiad wirioneddol yn angenrheidiol o ran budd cenedlaethol ac onid oes ateb, ffynhonnell neu gyflenwad arall?'

6 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfranogydd gweithredol yng Nghynllun Gofodol Cymru, ar y lefel genedlaethol ac ar Grwpiau Gogledd Orllewin Cymru ac Ardal Canolbarth Cymru.

- Cynyddu hygyrchedd mewnol ac allanol (gan gynnwys gwella cysylltiad band eang a thelegyfathrebu) adeiladu cydweithrediad traws-ffiniol effeithiol yng Nghymru a rhwng rhanbarthau cyfagos Lloegr ac Iwerddon, cynyddu mynediad at amrediad eang ac ansawdd o wasanaethau a gwella twf economaidd cyffredinol yr ardal tra'n ehangu cyfleoedd economaidd.

**Gogledd Orllewin Cymru - Eryri a Môn**

1.22 Mae partneriaid ar draws Ardal Cynllun Gofodol Gogledd Orllewin Cymru wedi cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer yr Ardal, yn gryno:

- Datblygiad gofodol priodol ac wedi ei gynllunio o'r Ardal yn cynnwys hybu ardal Menai gref, y rhwydwaith o aneddiadau cysylltiedig ar ddwy ochr Afon Menai yn ymestyn at Langefni, ardal ffocws Llandudno a datblygu ffocysau eilaidd penodol yng ngogledd a de'r rhanbarth, (h.y. Caergybi yn y gogledd a Phorthmadog – Pwllheli – Penrhyndeudraeth yn y de) gan gynnwys y mecanweithiau priodol i ledaenu buddiannau a hwyluso twf cynhenid mewn cymunedau gwledig allweddol a'r ardal wledig ehangach gan ymateb i'w hanghenion datblygu er mwyn creu mannau cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol;
- Datblygu'r prif sectorau, yn cynnwys amaeth, cynhyrchu a'u diwydiannau cysylltiedig, cefnogi eu trosglwyddiad o weithgaredd gwerth isel i uchel ac ehangu sylfaen economaidd yr Ardal drwy ragor o entrepreneuriaeth a hwylusir gan isadeiledd ffisegol a TGCh priodol;
- Datblygu economi seiliedig ar wybodaeth sy'n hyderus ac yn edrych tuag allan gyda phwyslais arbennig ar wyddoniaeth bio, gwyddoniaeth geo, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, gwyddoniaeth forol, technoleg feddygol, diwydiannau dadgomisiynu niwclear a diwydiannau creadigol, cydnabod rôl allweddol Prifysgol Bangor mewn cefnogi hyn a cheisio sicrhau fod y buddiannau'n deillio ar draws y rhanbarth;
- Macsimeiddio cyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a llwybr Rhwydwaith traws Ewropeaidd yr A55 ac E22 fel corridor trafnidiaeth allweddol, yn enwedig rhwng economiau ffyniannus Iwerddon, gogledd Ddwyrain Lloegr a thu draw. Sicrhau bod y cysylltiadau cludiant rhwng yr ardaloedd gweithredu a'r ardaloedd gwledig yn ddigonol i ddarparu mynediad at wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth a hamdden;
- Ymelwa ar amgylchedd trawiadol y rhanbarth, gan gynnwys yr arfordir, treftadaeth ecolegol a hanesyddol, a hunaniaeth ddiwylliannol gref i hyrwyddo a datblygu cymunedau iachach ac adeiladu twristiaeth gynaliadwy gwerth uwch. Mae'r olaf yn cynnwys datblygiad yr Ardal fel cyrchfan o ansawdd, yn cynnwys gwella'r stoc llety a gwireddu potensial gweithgareddau hamdden forol ac awyr agored.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru**

1.23 O dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n angenrheidiol i Weinidogion Cymru gynhyrchu a diweddaru Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Bydd hyn yn y pen draw, yn disodli Cynllun Gofodol presennol Cymru. Bydd y FfDC yn cyflawni nifer o swyddogaethau, gan gynnwys nodi blaenoriaethau defnydd tir Llywodraeth Cymru a darparu fframwaith defnydd tir cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Bydd y FfDC yn canolbwyntio ar faterion sydd a wnelo datblygu a defnyddio tir sy'n bwysig yn genedlaethol y gall y system gynllunio ddylanwadu a chyflawni. Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn unol â chynlluniau datblygu eraill, gyda cyfnod penodedig o amser pan fydd peidio a bod mewn grym fel cynllun datblygu.

**Strategaethau Cymunedol**

1.24 Un o amcanion y system Cynllun Datblygu Lleol yw ymgorffori nodweddion defnydd tir y Strategaethau Cymunedol. Mae Strategaethau Cymunedol sy'n ymdrin ac ardal y Parc Cenedlaethol yn cynnwys Strategaeth Gymunedol Gwynedd a Strategaeth Gymunedol Conwy.



**Cynllun Integredig Sengl Gwynedd a Môn**

1.25 Diben y Cynllun Integredig yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae tri chanlyniad allweddol wedi'u nodi er mwyn bodloni'r weledigaeth i gryfhau cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn, sef:

- Cymunedau ffynnianus
- Cymunedau iach
- Cymunedau diogel

**Strategaeth Gymunedol Conwy – Un Conwy – Gweithio Gyda'n Gilydd am Ddyfodol Gwell 2012-2025**

1.26 Mae Un Conwy yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer pob asiantaeth Gwasanaethau Cyhoeddus, i wella bywydau pobl Conwy. Mae yna hefyd awgrymiadau ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i helpu i wneud Bwrdeistref Sirol Conwy yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

1.27 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych yn cynrychioli Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r aelodau sy'n cynrychioli Conwy yn cynnwys y Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ac Achub, Coleg Llandrillo, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (sy'n cael eu cynrychioli ar hyn o bryd gan Cartrefi Conwy)

1.28 Mae Strategaeth Un Conwy yn seiliedig ar geisio cyflawni wyth o allbynnau lle bo pobl Conwy:

- yn cael eu haddysgu ac yn fedrus;
- yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- yn byw mewn tai diogel ac addas;
- yn iach ac yn annibynnol;
- yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus;
- yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy;
- yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu;
- yn cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad.

**Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol**

1.29 Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol sydd ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu yw'r ddogfen strategol drosfwaol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, yn cydlynu ac integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill. Mae'n dangos sut mae pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'r ddyletswydd gysylltiedig yn cael eu cyflenwi drwy ddatblygiad cynaliadwy. Mae'r Cynllun Rheolaeth nid yn unig yn gynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ond hefyd mae ar gyfer yr holl bobl a chyrff hynny sydd â dylanwad dros ddyfodol y Parc Cenedlaethol.

1.30 Mae Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol yn nodi'r chwe egwyddor arweiniol ganlynol;

- Cyflenwi datblygiad cynaliadwy
- Cadw a gwella 'Rhinweddau Arbennig' Eryri
- Cyfranogiad a chynhwysiad
- Ymyrraeth bositif
- Economi gynaliadwy a chymunedau ffyniannus
- Dull partneriaeth
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' Eryri




**‘Rhinweddau Arbennig’ y Parc Cenedlaethol**

1.31 Dylai dyfodol y Parc Cenedlaethol fod yn seiliedig ar ei arwyddocâd cenedlaethol, ar yr hyn sy’n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig ac yn unigryw - sef ei hunaniaeth leol, a’i ‘Rhinweddau Arbennig’. Cafodd y rhestr ganlynol o ‘Rinweddau Arbennig’ yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri ei llunio’n dilyn ymgysylltu ac ymgynghori mawr:

- Amrywiaeth o dirweddau ac ardaloedd arfordirol o ansawdd uchel o fewn ardal ddaearyddol fechan, yn amrywio o arfordir i fryniau ucheldir i’r mynyddoedd geirwon mae Eryri’n enwog amdanynt.
- Synnwyr cadarn o gydlyniad cymunedol, perthyn a bwrlwm sy’n cyfuno i roi ‘naws o le’ cryf.
- Hyfywedd parhaus yr iaith Gymraeg fel prif iaith llawer o gylchoedd cymdeithasol a phroffesiynol. Mae’r agwedd hon ym amlwg mewn enwau lleoedd lleol sy’n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal.
- Ardal sydd wedi ysbrydoli diwylliant, llên gwerin, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth fwyaf nodedig y genedl, sy’n parhau i ysbrydoli hyd heddiw.
- Y cyfle i bobl ddeall a mwynhau’r Parc Cenedlaethol yn actif, tra’n cynnal ardaloedd o lonyddwch ac unigedd, a thrwy hynny hyrwyddo agweddau o iechyd, lles a hunan fyfyrdod.
- Tirweddau a threfluniau sy’n dangos effaith ddynol dros y canrifoedd, o gyfnod Neolithig hyd at heddiw. Mae tystiolaeth o hyn i’w weld mewn olion archeolegol, enwau lleoedd a chaeau, hanes llafar ac ysgrifenedig ac ymarferion rheoli tir cyfredol. Gwelir treftadaeth bensaerniol Eryri yn nwysedd yr Adeiladau Rhestredig a’r amgylchedd adeiledig ehangach.
- Daeareg gymhleth, amrywiol a nodedig, fu’n hanfodol wrth ddylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol.
- Bioamrywiaeth amrywiol yn adlewyrchu tirweddau, daeareg, arferion rheoli tir a hinsawdd Eryri. Mae rhai rhywogaethau a cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol, er enghraifft rhywogaethau sy’n olion o Oes yr Ia ddiwethaf sy’n cynnig cipolwg o gynefinoedd rhannol-Arctig. Eryri yw’r pwynt mwyaf deheuol yn yr DU ar gyfer sawl rhywogaeth o’r fath.
- Cyfleoedd helaeth ar gyfer adloniant, hamdden a dysgu i bobl o bob oed a gallu, ynghyd ag ardaloedd o lonyddwch.

**Strategaethau rhanbarthol a lleol eraill**

1.32 Wrth ddatblygu’r Cynllun Datblygu Lleol rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i lawer o strategaethau rhanbarthol a lleol eraill hefyd. Gellir canfod manylion yr holl gynlluniau a ystyriwyd yn y Gwerthusiad Cynaliadwyedd a’r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Ardaloedd cymdogol**

1.33 Mae’n bwysig ystyried ardaloedd y tu allan i’r Parc Cenedlaethol a’u dylanwad ar Gymunedau’r Parc Cenedlaethol. Mae perthnasedd cryf rhwng yr aneddiadau mawr y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol a Chymunedau’r Parc Cenedlaethol wrth ddarparu llawer o’r gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol. Mae cyfleusterau twristiaeth a hamdden yn cael eu darparu o fewn y Parc Cenedlaethol ar gyfer canolfannau poblogaeth mawr sy’n byw tu allan i’r Parc Cenedlaethol. Mae’r dylanwadau hyn wedi cael eu hystyried yn natblygiad Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae’n bwysig sicrhau dull cyfunol i gynllunio ar gyfer aneddiadau hynny sydd ar ffin y Parc. Yn y mannau hynny lle adnabuwyd materion traws ffiniol, yr oedd angen defnyddio patrwm gweithredu ar y cyd gyda’r Awdurdodau Cynllunio Lleol perthnasol. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gydweithio ag awdurdodau cyfagos ar faterion a wynebir mewn aneddiadau a rennir gan weithio mewn partneriaeth ar unrhyw Gynlluniau Lle sy’n dod i’r amlwg.




Llwybr Mawddach ©Croeso Cymru

**Ymglymu ac ymgynghori**

1.34 Wrth baratoi'r cynllun hwn bu Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda chymunedau Eryri a phobl / sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn y Parc Cenedlaethol, ar amrediad eang o opsiynau ar gyfer y dyfodol. Y prif faterion y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr ymglymiad cyhoeddus oedd:

- Y dylai pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â'r egwyddorion cynaliadwyedd ffurfio sail y Cynllun Datblygu Lleol.
- Yr angen i reoli effeithiau Newid yn yr Hinsawdd drwy liniaru ac addasu.
- Yr angen i gyflenwi tai mwy fforddiadwy i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol.
- Yr angen i sicrhau strwythur boblogaeth gytbwys.
- Yr angen i ymelwa ar amgylchedd arbennig a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r ardal.
- Yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth graddfa fach i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

1.35 Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2011 cyflwynwyd nifer o ddarnau pwysig o ddeddfwriaeth. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd ymagwedd fwy cysylltiedig.

1.36 Mae'r Ddeddf yn sefydlu 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n golygu bod rhaid i gorff cyhoeddus diffiniedig weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

1.37 Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod er llesiant ar waith.

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



## Prif Faterion, Heriau a Gyrwyr Newid

1.38 Mae'r rhan hon yn dynodi'r prif faterion a'r heriau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio mynd i'r ymrafael â hwy. Hysbyswyd y materion a'r heriau allweddol hyn gan y cynlluniau a strategaethau a restrwyd yn y rhan ddiwethaf, a thrwy gyfrwng yr ymglymiad cymunedol. Mae'r rhan hon hefyd yn dynodi'r gyrwyr newid a allai ddylanwadu ar ddyfodol Eryri. Bydd Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol gyda'i gilydd, yn dynodi ffyrdd o ymateb, rheoli a ble fo'n bosib ymdrin â'r newidiadau hyn. Mewn rhai achosion mae'r materion ar raddfa ehangach na'r hyn sy'n bosib i'r Awdurdod a'i bartneriaid eu datrys, ac yn yr achos hwn, bydd yr Awdurdod yn dynodi'r hyn a ellir ei wneud i gyfrannu at reoli newid o'r fath.

1.39 Ar ddechrau pob is-adran mae cyfeiriad at ba un o'r saith nod llesiant, fel y'i nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr eir i'r afael â hwy

**Yr Amgylchedd Naturiol**

*Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang*
*Cymru gydnerth*
*Cymru iachach*
*Cymru sy'n fwy cyfartal*

1.40 Gall Newid yn yr Hinsawdd achosi newid dramatig i amgylchedd, cymunedau ac economi'r Parc Cenedlaethol. Gallai'r newidiadau hyn gynnwys colled o rai rhywogaethau a chynefinoedd, newidiadau mewn cynhyrchiad cnydau a chynhyrchedd da byw, codi lefel y môr a digwyddiadau o amgylchiadau tywydd eithriadol cynyddol, gyda chanlyniadau ar gyfer risg llifogydd ac erydiad pridd. Sgil effaith Newid yn yr Hinsawdd fydd y potensial am fudd economaidd o ddatblygu arbenigedd mewn nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. **Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol anelu at ostwng dibyniaeth ar danwydd na ellir eu hadnewyddu, a chyflawni cynhyrchiad a defnydd ynni cynaliadwy drwy:**

- **Ostwng yr angen i deithio, drwy leoliad cynaliadwy cymunedau, cartrefi a chyfleoedd cyflogaeth a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy,**
- **Darparu gwell cynaliadwyedd mewn cludiant a gwell integreiddiad o gludiant cyhoeddus,**
- **Gostwng allyriadau carbon a'r potensial o 'dlodi tanwydd' drwy well effeithlonrwydd mewn adeiladau newydd a phresennol,**
- **Darparu ynni adnewyddiadwy priodol ar gyfer aelwydydd a chymunedau.**

1.41 Mae fflora a ffawna yn ffynnu yng nghynefinoedd amrywiol Eryri. Mae nifer o rywogaethau sy'n cael eu cydnabod fel rhai o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol i fyd natur yn bodoli yma. Mae pwrpas statudol y Parc Cenedlaethol i gadw a gwella bywyd gwyllt yn gosod bioamrywiaeth yng nghalon y modd mae'r Awdurdod a sefydliadau partner yn cyflenwi yn Eryri. **Yr her fydd i gadw a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol yn wyneb y galw am ddatblygiad newydd**.

1.42 Oherwydd ei natur wledig a phoblogaeth isel, dim ond swm cymharol fach o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu bob blwyddyn yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff yn cael ei reoli yn safle Ffridd Rasus, ger Harlech. Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref ar waith yn y Bala a Dolgellau. Mae Treuliwr Anaerobig Llwyn Isaf, sydd y tu allan i ffin y Parc, yn derbyn gwastraff bwyd o Eryri ac mae'r bio-nwy canlyniadol yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan.

1.43 Mae Eryri yn chwarae ei rhan i sicrhau datblygiad rhwydwaith integredig a chynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff yn rhanbarth Gogledd Cymru[7]. **Yr her o hyd fydd lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir yn y Parc Cenedlaethol, optimeiddio ailgylchu a sicrhau bod gwastraff gweddilliol yn cael ei reoli yn y modd mwyaf cynaliadwy.**

1.44 Mae cyflenwad digonol o graig galed wedi'i ganiatáu wrth gefn yng Ngogledd Orllewin Cymru, fel y dangosir gan fanc tir o 30 mlynedd, i gwrdd â'r galw rhagweladwy felly nid oes unrhyw ysgogiad i agor chwareli newydd[8]. Mae craig adeiladu leol yn brin a charreg o du allan i'r ardal yn cael ei defnyddio'n aml ac yn gallu edrych allan o gymeriad. **Mae'n bosib bod sgôp i ailagor chwareli bach dros dro i gwrdd ag angen lleol penodol am garreg adeiladu leol.**

1.45 Mae nifer o aneddiadau ar hyd Arfordir Ardudwy mewn risg o gael eu cyfuno, a allai effeithio ar eu hintegriti a'u hunaniaeth. **Mae'r Cynllun Datblygu Lleol angen mecanwaith i sicrhau gwahaniad aneddiadau er mwyn atal datblygiad rhubanog, amddiffyn y mannau glas sydd rhyngddynt a gwarchod coridorau cysylltedd bywyd gwyllt.**

**Yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol**
*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.*

1.46 Mae gan Eryri dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, wedi'i sylfaenu ar berthynas gref rhwng pobl a thirwedd, sy'n cynnwys yr amgylchedd archeolegol a hanesyddol yn cynnwys henebion hanesyddol cofrestredig, tirweddau hanesyddol, parciau, gerddi, llwybrau a ffyrdd hynafol, safle treftadaeth y byd, ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig a thraddodiadol ac elfennau llai cyffyrddadwy, gan gynnwys crefydd, yr iaith Gymraeg, tafodieithoedd, dywediadau, straeon gwerin, arferion a thraddodiadau, celf, llenyddiaeth a cherddoriaeth. **Yr her fydd cadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol yn wyneb y galw am ddatblygiad newydd. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol sicrhau bod datblygiad newydd gydag ystyriaeth o'i gyd-destun, ac yn lleihau'r aflonyddiad neu niwed i'r amgylchedd hanesyddol wrth gynnwys yr egwyddorion o ddyluniad cynaliadwy da**. Wrth gadw amgylchedd a thirwedd hanesyddol Eryri mae'n bwysig cydnabod cyfraniad dyluniad ansawdd uchel arloesol newydd, yn defnyddio defnyddiau traddodiadol neu leol, i ddyfodol Eryri.

**Cymunedau Iach a Chynaliadwy**
*Cymru iachach*
*Cymru sy'n fwy cyfartal*
*Cymru o gymunedau cydlynus*
*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.*

1.47 Mae tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol wedi cael ei amlygu fel y prif faes pryder ar gyfer llawer o gymunedau o fewn y Parc. Mae incymau lleol yn isel yn gyffredinol a'r bwlch rhwng prisiau tai a'r hyn y gall pobl ei fforddio wedi ehangu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae mynediad at dai wedi gostwng, a hyn wedi'i waethygu gan leihad yn y ddarpariaeth o dai rhent cymdeithasol a thai fforddiadwy eraill. Mae angen mynd i'r afael â, a chywiro'r gydberthynas hon rhwng incwm isel, gostyngiad mewn argaeledd tai a chostau tai. Mae maint y teulu cyffredinol yn 2.1 sy'n is na chyfartaledd Cymru o 2.3, sy'n adlewyrchu tuedd gref wrth i fwy o bobl fyw ar ben eu hunain. Mae pwysau ymfudiad ac/neu alw am ail-gartrefi hefyd yn broblem sylweddol, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd y gymuned leol[9].

---

7 Papur Cefndirol Gwastraff (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2016)
8 Papur Cefndirol Mwynau (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2016)
9 Papur Cefndirol Tai (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2016)

1.48 Mewn blynyddoedd diweddar mae newid sylweddol wedi bod yn y strwythur poblogaeth, a allai fod â goblygiadau sylweddol i les economaidd a chymunedol yn y dyfodol. Ers cyfrifiad 1991 mae gostyngiad sylweddol wedi bod yng ngrŵp oed 20-29 o 12% yn 1991 i 9% yn 2011, yn amlygu allfudiad pobl ifanc o'r ardal i gael addysg uwch, cyfleoedd cyflogaeth ac oherwydd diffyg tai fforddiadwy. Gall prisiau tai uchel, y newid mewn strwythur cymdeithasol poblogaeth Eryri fygwth lles cymunedau a hyfywedd ysgolion lleol, busnesau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Er bod prisiau tai yn disgyn ar hyn o bryd, mae'r bwlch rhwng prisiau tai a fforddiadwyedd yn Eryri yn debygol o barhau'n un sylweddol. Ni all teuluoedd sydd newydd ffurfio fforddio byw yn yr ardal leol sy'n achosi i bobl symud i ffwrdd. Mae sicrhau poblogaeth gytbwys yn hanfodol ar gyfer dyfodol y Parc Cenedlaethol. **Rhaid rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol yn enwedig rhai pobl ifanc a'r henoed trwy gynyddu cyfoeth trigolion ochr yn ochr ag argaeledd tai a gostyngiadau mewn costau.**

1.49 Dynododd Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru y prif yrwyr effaith uchel canlynol yn y marchnadoedd tai lleol: cynnydd mewn cartrefi unigolyn sengl, strwythur poblogaeth sy'n heneiddio, cyfyngiadau cynhwysedd a chyflenwad, patrymau cymudo, gostyngiad mewn stoc tai cymdeithasol, enillion/colledion swyddi, a chymarebau prisiau tai ac incymau.

1.50 Mae iaith a diwylliant yn cyfrannu at gymeriad cymunedau o fewn y Parc. Mae 'Rhinweddau Arbennig' a nodedig Eryri yn cael eu hatgyfnerthu gan y ffaith bod y Gymraeg yn cael ei siarad â'i hysgrifennu gan 58.6% o bobl leol[10]. Heb iaith, heb gymuned, byddai Eryri yn lle llawer tlotach. Mae pwysau ar les ieithyddol cymunedau lleol ac **mae'n bwysig bod y cynllun yn anelu at amddiffyn a chryfhau cymeriad a hunaniaeth frodorol y cymunedau o fewn y Parc.**

1.51 Fel llawer o ardaloedd gwledig, mae gan Eryri boblogaeth sy'n heneiddio ac mae tueddiadau'n dangos y bydd disgwyliad oes yn cynyddu, gan achosi cynnydd yn y galw am gyfleusterau iechyd a gofal ac am dai sy'n gallu lletya neu gael eu haddasu i gwrdd ag anghenion yr henoed. Mae galw cynyddol wedi bod am hamdden awyr agored, mewn cysylltiad ag arddulliau byw iach a hirhoedledd uwch, yn ogystal â chynnydd mewn beicio a cherdded fel dulliau cludiant a gweithgaredd hamdden. **Mae amgylchedd byw iach a diogel yn hanfodol, drwy ddyluniad adeiladu da, darpariaeth dda o ofod agored ar gyfer hamddena'r cyhoedd, a mesurau gostwng sŵn a rheolaeth dda, gwella, hyrwyddo a diogelu hawliau tramwyo a hygyrchedd at dir agored.**

1.52 Prif amcan y cynllun fydd i gynnal cymuned wledig gytbwys**. Bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol annog cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yn lleol, sy'n cyfrannu tuag at hyfywedd a lles y gymuned a chefnogi mentrau sy'n cryfhau cydlynu a grymuso cymunedau.**

**Yr Economi Wledig**
*Cymru lewyrchus*
*Cymru sy'n fwy cyfartal*

10 Papur Cefndirol Yr Iaith Gymraeg (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2017)



1.53 Mae gan Eryri economi gyda chyflog gymharol isel gydag incwm cartref cyfartalog o £23,014 (gostyngiad o £23,630 yn 2006). Mae cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol heddiw yn cael ei nodweddu gan ddibyniaeth gref ar weinyddiaeth gyhoeddus, iechyd, addysg ac yn y sector gwestai ac arlwyo. Mae twristiaeth yn gyflogwr mawr gyda thua 9,000 o swyddi sy'n cyfateb i amser llawn yn y maes, ac yn cynhyrchu'r buddiannau economaidd mwyaf yn y Parc Cenedlaethol, dros £400m y flwyddyn[11]. Amcangyfrifir bod tua 11 miliwn o ddiwrnodau ymwelwyr yn cael eu treulio yn y Parc bob blwyddyn. Mae gwyliau teuluol wedi newid yn y degawdau diwethaf o bythefnos ar lan y môr ym mrig y tymor gwyliau i nifer o wyliau llai drwy gydol y flwyddyn a mwy o bwyslais ar deithio rhyngwladol. Ar yr un pryd, mae cynnydd wedi bod mewn gweithgareddau hamdden a diwylliannol awyr agored. Mewn rhai aneddiadau yn enwedig ar hyd yr arfordir bu colled o lety gyda gwasanaeth i lety hunan ddarpar neu ddefnyddiau nad ydynt yn rhai twristaidd, sy'n gallu cael effaith niweidiol ar yr economi leol[12]. **Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol wrthsefyll troi llety â gwasanaeth i lety hunan ddarpar neu heb ddefnydd twristaidd, sy'n ei atal rhag cael ei ailddefnyddio fel llety â gwasanaeth yn y dyfodol. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd anelu at gefnogi datblygiad twristiaeth a hamdden sy'n seiliedig ar 'Rhinweddau Arbennig' Eryri.**

1.54 Tra bod twristiaeth erbyn hyn y sector gyflogaeth fwyaf sylweddol yn Eryri mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd newidiadau mewn amaethyddiaeth yn cael sgil effeithiau ar y gymdeithas ac economi ehangach Eryri, yn ogystal â'r dirwedd a chydrannau eraill o dreftadaeth naturiol. Mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc o gefndiroedd amaethyddol yn gorfod ceisio ennill incwm drwy ddulliau eraill, yn aml yn bell iawn o'r ardal, yn bennaf oherwydd anallu'r fferm draddodiadol yn Eryri i roi cefnogaeth ariannol i fwy nag un gweithiwr[13]. Wrth ystyried natur gyfnewidiol amaethyddiaeth, bydd yn bwysig i'r Cynllun **ganiatáu ar gyfer amrywiaeth economaidd o fewn ffermydd ble fo amrywiaeth o'r fath yn parchu ansawdd a chymeriad y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol.** Mae Gyrwyr Newid yn yr economi leol yn cynnwys prisiau nwyddau ac ynni cynyddol, pwysau i gynyddu cynhyrchiad bwyd lleol ac i amaeth wasanaethu marchnadoedd sy'n gynyddol galw am fwy. Mae ansicrwydd cynyddol hefyd mewn cyflenwi cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

1.55 O fewn y Parc Cenedlaethol mae buddsoddiad sector gyhoeddus wedi bod mewn datblygu parciau busnes yn Nolgellau a'r Bala ac ar ymylon y Parc Cenedlaethol ym Machynlleth, Tywyn, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Porthmadog, Cyffordd Llandudno, Llandygai a Chaernarfon. Mae gan ddynodiad Parth Menter Eryri yn 2012 ar safleoedd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr botensial i greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy newydd. Bydd lefelau gwaith ar y safle a graddfa datgomisiynu gorsaf bŵer Trawsfynydd a'r effaith o ganlyniad i hynny yn cael eu monitro fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae angen adeiladu ar gryfderau ac arallgyfeirio'r economi leol er mwyn creu cyfleoedd gwaith amgen sy'n talu mwy sy'n berthnasol i Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol. Bydd yn bwysig i'r Cynllun **ganiatáu ar gyfer twf cyflogaeth graddfa fach sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd o fewn aneddiadau i annog cyfleoedd gyrfa i bobl ifanc na ellir eu cyflawni ar hyn o bryd yn yr ardal.**

1.56 Mae cadw siopau presennol a datblygiad cyfleoedd busnes manwerthu newydd yn bwysig i fywiogrwydd a hyfywedd unrhyw anheddiad. Mae nifer o drefi a phentrefi yn y Parc Cenedlaethol yn parhau i weld siopau lleol yn cau. Mae llawer o fylchau manwerthu llawr gwaelod primaidd wedi'u troi'n gaffis, preswylfeydd a swyddfeydd. Os yw hyfywedd masnachol y prif ardaloedd siopa i'w gynnal, **rhaid ymwrthod ag unrhyw botensial yn y dyfodol o golli adeiladau manwerthu mewn canolfannau tref craidd.**

**Hygyrchedd a Chynhwysiad**
*Cymru o gymunedau cydlynus*
*Cymru sy'n fwy cyfartal*
*Cymru iachach.*

---

11 Papur Cefndirol Twristiaeth (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2010)
12 Arolwg Stoc Gwelyau Gwynedd 2008
13 Papur Cefndirol Amaethyddiaeth, Tir Comin a Choedwigaeth (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2009)



T H Roberts Dolgellau ©Croeso Cymru



1.57 Mae gwasanaethau gwledig megis siopau lleol, swyddfeydd post, ysgolion, cludiant cyhoeddus a chyfleusterau eraill yn hynod o bwysig. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau hyn yn fregus iawn a gellir eu colli'n sydyn, sy'n gallu tanseilio cynaliadwyedd cymunedau gwledig yn hawdd. Mewn blynyddoedd diweddar bu gostyngiad mewn argaeledd gwasanaethau lleol, o ganlyniad i ddefnydd cynyddol o'r rhyngrwyd fel modd o gael mynediad at amrediad o wasanaethau megis siopa, gwasanaethau bancio a swyddfa bost. Gall y materion hyn arwain at broblemau ymddieithrio cymdeithasol i bobl nad oes ganddynt y sgiliau neu'r dechnoleg i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn, neu heb fynediad at gludiant cyhoeddus y dylid ei wella er mwyn osgoi eithrio cymdeithasol.

1.58 Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn teithio personol, perchnogaeth moduron a phellteroedd sy'n cael eu teithio, ar y cyd gyda gostyngiad mewn argaeledd ac amlder cludiant cyhoeddus a newidiadau sylweddol yng nghostau cludiant cyhoeddus a phreifat. Mae dwysedd poblogaeth isel ac aneddiadau gwasgaredig yn ei gwneud yn anodd cyflawni system gludiant gynaliadwy[14]. Cydnabyddir mewn cymunedau gwledig, tra'i bod yn ddymunol gostwng defnydd ceir preifat, fod mynediad at wasanaethau hefyd yn bwysig ac mewn rhai achosion y gallai defnydd car barhau fel yr unig opsiwn realistig. **Mae'n bwysig hyrwyddo cerdded a beicio fel dull o deithio, datblygu'r rhwydwaith teithio hamdden, annog datblygiad newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen am gludiant personol, gwella integreiddiad cludiant cyhoeddus a hyrwyddo cynlluniau cludiant cymunedol y dylid ei wella er mwyn osgoi eithrio cymdeithasol.**

1.59 Mae galwadau cynyddol hefyd am well isadeiledd Gwybodaeth, Cyfathrebiadau a Thechnoleg (TGCh). Mae gan yr Awdurdod ran i'w chwarae wrth geisio **sicrhau bod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael budd o'r newidiadau mewn technoleg gwybodaeth yn nhermau'r amgylchedd, cymunedau a'r economi.**

14 Papur Cefndirol Cludiant a Rhwydweithiau (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, 2009)

# Gweledigaeth Ofodol ac Amcanion ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri

1.60 Mae'r rhan hon yn gosod y weledigaeth ofodol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri, ynghyd â'r gyfres o amcanion i helpu i gyflawni'r weledigaeth honno.

**Y Weledigaeth Ofodol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri**

1.61 Mae'r weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri wedi'i chynnwys yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, ac fe gafodd ei datblygu gyda chymorth Fforwm Eryri ynghyd â chyfraniad budd-ddeiliaid eraill. Mae Atodiad 3 yn mynd ati i esbonio sut y gall y Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu at gyflawni gweledigaeth y dyfodol.

1.62 Y weledigaeth ar gyfer Eryri yw:

**Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirwedd esblygol a gwarchodedig, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol a rhyngwladol.**

**Cyflawnir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid mewn hinsawdd ac wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy weithio gyda'n gilydd.**

**Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid – bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr gyda'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol a lle i enaid gael llonydd.**

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol**

1.63 Cafodd yr amcanion hyn eu datblygu gan gymryd i ystyriaeth y materion a'r heriau a bennwyd yn y rhan flaenorol, ac maent yn cael eu cynnwys trwy'r Cynllun Datblygu Lleol cyfan, a chânt eu cysylltu'n glir â phob rhan o'r ddogfen. Mae'r nodau llesiant, fel y'u nodir yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae Amcanion y Cynllun yn edrych arnynt yn ymddangos mewn **llythrennau trwm.**

1.64 Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

Sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu safleoedd cadwraeth natur ddynodedig ac yn sicrhau bod yr amrywiaeth a'r amlder o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau a ddiogelir yn cael eu gwarchod a'u gwella. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth)**

Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu, gan gynnwys sicrhau gostyngiad yng ngollyngiadau nwyon tŷ gwydr, lleihau'r ynni a ddefnyddir a chynllunio datblygiadau derbyniol gyda golwg ar beryglon llifogydd. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth; Cymru iachach)**

Annog, lle bo'n briodol, ddefnydd o adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy ar raddfa fach er mwyn diwallu anghenion lleol heb beri niwed i 'Rinweddau Arbennig' yr ardal.**(Cymru gydnerth)**

Gwarchod a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ei geoamrywiaeth, ac ansawdd y dŵr, pridd a'r aer. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru gydnerth**)

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru iachach)**

Hyrwyddo lleihau gwastraff a sicrhau darpariaeth o gyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff integredig cynaliadwy. **(Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang; Cymru iachach)**

1.65 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

Deall, gwerthfawrogi, gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys olion archeolegol a thirweddau hanesyddol a hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfoethogi treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.**(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu)**

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau bod datblygiadau'n cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig yr ardal a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.**(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru gydnerth)**

1.66 Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Cefnogi datblygiadau priodol sy'n diwallu anghenion tai'r gymuned leol, gan roi ystyriaeth arbennig i dai fforddiadwy ar gyfer pobl leol.**(Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Cefnogi a chynnal darpariaeth briodol o gyfleusterau a gwasanaethau allweddol cymunedol trwy'r ardal gyfan.**(Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Annog cyfleusterau hamdden yn y gymuned lle bo'r rheiny'n diwallu anghenion lleol, a phan nad ydynt yn mynd yn groes i 'Rinweddau Arbennig' y Parc.**(Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus)**

Hyrwyddo mesurau i annog datblygiadau sy'n cefnogi bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n anwybyddu'r effaith ar yr iaith Gymraeg.**(Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru o gymunedau cydlynus)**

1.67 Cefnogi'r Economi Wledig

Annog twf economaidd cynaliadwy trwy gefnogi economi wledig sy'n cynnig cyfle am waith ac yn cynnal cymunedau sy'n ffynnu.**(Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal)**

Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n sicrhau'r buddion economaidd mwyaf yn lleol, yn lleihau'r effaith amgylcheddol a sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.**(Cymru iachach; Cymru lewyrchus)**

1.68 Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynwhysedd

Annog datblygiadau newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio â mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol ynghyd â chludiant cynaliadwy.**(Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)**

Cefnogi mentrau sydd wedi'u hanelu at annog dulliau cludiant cynaliadwy.**(Cymru iachach; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)**




Bwlch yr Oerddrws ©Croeso Cymru



# 2

# Y Strategaeth Ddatblygu



Llyn Tegid ©Croeso Cymru

# Pennod 2

# Y Strategaeth Ddatblygu

Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy (A) ........ 30
Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr (B) ........ 32
Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol (C) ........ 38
Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1) ........ 40
Polisi Strategol Ch: Isadeiledd Cymdeithasol a Ffisegol Mewn Datblygiadau Newydd (Ch) ........ 41

# 2. Y Strategaeth Ddatblygu

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi ymateb i'r weledigaeth ofodol i Eryri, yng ngoleuni amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a amlinellir ym Mhennod 1.

**Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy**

2.2 Mae pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol[15] yn darparu ffocws strategol pwysig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, gan eu bod yn cynorthwyo i ddiffinio'r posibiliadau ar gyfer datblygu yn yr ardal yn y dyfodol. Oherwydd statws arbennig y Parc, bydd effaith datblygu ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a chyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal o'r pwysigrwydd mwyaf wrth bennu newidiadau'r dyfodol.

2.3 Datblygiadau cynaliadwy yw ail ffocws allweddol y cynllun. Mae pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol yn darparu 'cyd-destun arbennig' ar gyfer cynaliadwyedd. Mae pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol, ynghyd ag egwyddorion cynaliadwyedd, wrth wraidd yr amcanion yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, a bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cyflawni'r elfennau gofodol ar eu cyfer. Mae Polisi Strategol A yn nodi'r hyn mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn credu fydd yn helpu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy yn Eryri:

**Polisi Strategol A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Datblygiadau Cynaliadwy (A)**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn ffyrdd sy'n hybu pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol, gan warchod a gwella 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yr un pryd. Bydd cynigion sy'n peryglu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu gwrthod. Dylid cadw'r ystyriaethau isod mewn cof er mwyn helpu i gyflawni datblygiadau cynaliadwy yn Eryri:

i. Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.

ii. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.

iii. Diogelu a gwella iechyd, diogelwch a lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.

iv. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol Eryri.

v. Parchu a gwella'r amgylchedd hanesyddol.

vi. Gwneud defnydd effeithlon o dir ac isadeiledd.

vii. Gwarchod ansawdd a nifer yr adnoddau naturiol gan gynnwys dŵr, aer, pridd a geoamrywiaeth.

viii. Annog datblygiad cynaliadwy aneddiadau mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu cymeriad a phwrpas o fewn y strategaeth aneddiadau.

ix. Galluogi mynediad cynhwysol at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth gan leihau effaith cludiant ar yr amgylchedd.

x. Darparu dyluniadau cynaliadwy o ansawdd da.

xi. Hyrwyddo datblygiadau sy'n diwallu anghenion tai'r cymunedau lleol trwy gymysgedd o wahanol fathau o dai, a deiliadaeth yn bennaf trwy dai fforddiadwy er mwyn diwallu angen lleol.

15 Ceir manylion pellach ynghylch Pwrpasau a Dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol yn adran 1.16 i 1.18




xii. Annog datblygiadau sy'n gwarchod, yn hyrwyddo ac yn gwella treftadaeth ieithyddol cymunedau Eryri.

xiii. Sicrhau datblygiad o dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol (tir llwyd) pan fo'r tir hwnnw mewn lleoliad cynaliadwy, yn hytrach na safleoedd tir glas.

xiv. Rhwystro datblygiadau anaddas mewn ardaloedd lle gwyddys fod perygl llifogydd neu sy'n cyfrannu at berygl llifogydd.

xv. Galluogi llunio Cynlluniau Lle a mabwysiadu fel Canllaw Cynllunio Atodol lle bo'n briodol.

**Graddfa Newid**

2.4 O ystyried dynodiad y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig sicrhau y diogelir tirwedd o ansawdd uchel y Parc Cenedlaethol. Felly, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn anelu at ddiwallu anghenion y cymunedau lleol o fewn cynhwysedd amgylcheddol y Parc. Bydd hyn angen ystyriaeth ofalus o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â newidiadau (sy'n briodol i gyd-destun a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol, i ddarparu tai fforddiadwy, datblygiadau economaidd a sicrhau bod cymunedau'n fwy hunangynhaliol) a chyfyngiadau (i sicrhau y caiff yr amgylchedd ei ddiogelu). Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i allu pob anheddiad i ymdopi â thwf a'u gallu i dderbyn graddau gwahanol o ddatblygiad. Bydd angen i'r radd o newid yn Eryri roi ystyriaeth i ddylanwad aneddiadau y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae aneddiadau megis Bangor, Caernarfon, Conwy, Llandudno, Llanrwst, Machynlleth, Blaenau Ffestiniog, Tywyn, Abermaw a Phorthmadog oll ar gyrion Eryri ac yn fwy addas ar gyfer cyflogaeth ar raddfa gymharol fawr ynghyd â thwf tai sydd yn adlewyrchu eu rôl a'u maes dylanwad ac sydd o fewn eu capasiti amgylcheddol a diwylliannol unigol.

**Graddfa Datblygu**

2.5 Mae'r berthynas rhwng graddfa datblygiad a'i leoliad yn bwysig wrth ystyried effaith adeiladau ac adeiladweithiau ar dirwedd ardal. O dderbyn fod amgylchedd y Parc yn sensitif, a graddfa'r cymunedau lleol, mae'n anochel y byddai rhai mathau o ddatblygiadau mawr yn cael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd a natur gynhenid amgylchedd y Parc. Mae deddfwriaeth a pholisïau cynllunio cenedlaethol yn datgan yn glir na ddylid caniatáu datblygiadau mawr mewn Parciau Cenedlaethol, oni bai fod amgylchiadau eithriadol dros wneud hynny. Ni ddiffinnir 'datblygiad mawr' yn fanwl yn y polisi cynllunio cenedlaethol. Felly, fe'i diffinnir yn y cynllun hwn fel datblygiad sy'n fwy cenedlaethol[16] na lleol o ran cymeriad ac a fydd yn ogystal yn effeithio'n sylweddol ar un ai'r dirwedd, bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol neu gyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal yn y tymor hir. Ymhlith yr enghreifftiau o ddatblygiadau a ystyrir yn rhai mawr yw datblygiadau ar raddfa fawr yn gysylltiedig â: mwyngloddio, chwareli, datblygiadau diwydiannol mawr, cynlluniau cynhyrchu ynni mawr, cynlluniau trosglwyddo trydan foltedd uchel, cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr a chynlluniau ynni carbon isel[17], datblygiadau milwrol mawr, cynlluniau cludiant mawr a datblygiadau twristiaeth neu hamdden mawr (nid rhestr lawn mohoni). Dylid chwilio am safleoedd mwy addas ar gyfer y datblygiad o'r raddfa hon y tu allan i'r Parc, yn agosach at ganolfannau o boblogaeth a diwydiant lle byddai lleoliad yn cael effaith lai ar y dirwedd, ac ni fyddai'n peryglu agweddau ar yr economi leol sy'n dibynnu ar y dirwedd o ansawdd uchel.

---

16 Yn y cyd-destun hwn, mae 'cenedlaethol' yn golygu'r Deyrnas Unedig.

17 Cyflwynodd *Deddf Gynllunio (Cymru)* 2015 gategori newydd o ganiatâd cynllunio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Mae DAC yn cynnwys prosiectau cynhyrchu trydan (heblaw gwynt) rhwng 10 a 50 MW a phrosiectau gwynt uwchben 10MW, ac fe'u penderfynir gan Weinidogion Cymru. Penderfynir ar brosiectau o dan 10MW gan awdurdodau cynllunio lleol.



Castell Harlech ©Croeso Cymru

**Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr (B)**

Ni chaniateir datblygiad mawr yn y Parc Cenedlaethol oni bai fod amgylchiadau eithriadol lle dangoswyd bod angen cyhoeddus sy’n drech na dim arall. Bydd cynigion datblygu mawr yn destun archwilio llym ac yn cynnwys asesu pob un o’r canlynol:

i. yr angen am y datblygiad o safbwynt ystyriaethau cenedlaethol.

ii. y gost o leoli’r datblygiad y tu allan i’r Parc Cenedlaethol, a’r cyfle i wneud hynny, neu’r posibiliadau ar gyfer cyflenwi’r angen am y datblygiad mewn rhyw ffordd arall.

iii. yr effaith wrth wrthod y datblygiad neu ei ganiatáu ar gymunedau lleol, ar yr economi leol, ar yr amgylchedd ac ar dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

iv. effaith y datblygiad ar bwrpasau’r Parc Cenedlaethol a’r graddau y gellid lliniaru’r effeithiau hynny trwy fesurau lleddfu priodol a derbyniol.

Pan fo’r Awdurdod yn credu mai effaith niweidiol ac annerbyniol ar y Parc Cenedlaethol fydd canlyniad cyffredinol yr asesiad hwn, bydd yn gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer datblygiadau mawr o’r fath.

### Strategaeth Datblygu Gofodol

2.6 Mae poblogaeth Eryri'n gymharol fach a gwasgaredig. Mae pob un o'r 74 anheddiad yn meddu ar wahanol gynhwysedd, gallu ac angen i ymdopi â datblygiadau a newid. Mae natur a 'Rhinweddau Arbennig' Parc Cenedlaethol Eryri'n golygu bod angen trin datblygiadau mewn ffordd wahanol. Mae'r strategaeth datblygu gofodol yn ceisio cynnal hyfywedd a bywiogrwydd ein cymunedau lleol mewn ffordd gynaliadwy sy'n briodol i'r Parc Cenedlaethol. Yn ystod y trafodaethau blaenorol ar y 'Papurau Trafod' ac ar y Strategaeth a Ffefrir, gwelwyd bod cryn gefnogaeth ar gyfer trin datblygiadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r angen lleol. Dylid canolbwyntio datblygiadau mewn mannau sy'n lleihau'r angen i deithio, yn enwedig am wasanaethau a mwyniant sylfaenol. Mae nifer o aneddiadau'n meddu ar gysylltiadau cymdeithasol a theuluol cryf sy'n arwain at ymrwymiad cryf i barhau i fyw yn y gymuned. Os na chaniateir codi tai newydd, yn enwedig tai fforddiadwy, mewn aneddiadau o'r fath, bydd yn golygu bod teuluoedd newydd yn cael eu gorfodi i symud i ffwrdd. Fe allai hynny achosi newid yn strwythur poblogaeth y cymunedau ac arwain at wendid sylfaenol yn y rhwydwaith cefnogi teuluol a chefnogaeth ar gyfer y cyfleusterau presennol, a all gael goblygiadau sylweddol ar gyfer lles economaidd a chymunedol y dyfodol.

2.7 Mae gwahanol rannau o'r Parc Cenedlaethol yn meddu ar wahanol nodweddion a chysylltiadau ag ardaloedd eraill. Bwriad y Strategaeth Ofodol yw edrych ar berthynas y Parc Cenedlaethol â'r ardal ehangach, a datblygu fframwaith addas ar gyfer cwrdd â'r anghenion sy'n codi. Mae'r Strategaeth yn ystyried y perthnasau gofodol a swyddogaethol rhwng aneddiadau yn nhermau tai, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, cyflogaeth ac unrhyw rwydweithiau cefnogi anffurfiol.

### Parthau Dylanwad

2.8 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn pennu 'parthau dylanwad' yn y Parc Cenedlaethol, a rhai sy'n gorwedd ar ei ffiniau. Mae gan yr ardaloedd hyn nodweddion cyffelyb ac maent yn meddu ar gysylltiadau cymunedol cadarn. Mae'r gwaith hwn (sy'n cyfeirio at ystod eang o arolygon a chynlluniau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol cysylltiedig[18]) yn nodi'r berthynas a'r dylanwadau sydd gan aneddiadau y tu allan i'r Parc i hysbysu'r Strategaeth Datblygu Gofodol. Mae'r map yn Atodiad 5 yn nodi'r holl ganolfannau allweddol yn y Parc Cenedlaethol, a'r tu allan iddo, o fewn pob parth. Mae gwybodaeth bellach ynghylch materion allweddol a heriau ar gyfer pob parth dylanwad a'r modd yr ymdrinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei gynnwys yn y Papur Cefndir Parthau Dylanwad. Mae'r Papur Cefndir yn adnabod y materion ar gyfer pob anheddiad ac yn egluro'r cysylltiad rhwng aneddiadau o fewn ac oddi allan i ffin y Parc Cenedlaethol. Mae canolfannau gwasanaeth wedi eu hadnabod ar gyfer pob parth dylanwad. Mae'r gwaith ar y parthau dylanwad wedi amlygu rôl bwysig y canolfannau gwasanaeth o safbwynt darparu gwasanaethau a chyfleoedd gwaith ar gyfer yr aneddiadau cyfagos. Cydnabyddir bod aneddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol yn dibynnu'n helaeth ar ganolfannau gwasanaeth ar gyrion y Parc Cenedlaethol e.e. Bangor, Caernarfon, Bethesda, Llanberis, Penygroes, Llandudno, Cyffordd Llandudno, Conwy, Llanrwst, Machynlleth, Tywyn,Y Bermo, Porthmadog, Penrhyndeudraeth a Blaenau Ffestiniog. Bydd angen i'r canolfannau hyn felly gynnal eu pwysigrwydd i breswylwyr y Parc Cenedlaethol, a dylai awdurdodau cyfagos gymryd hyn i ystyriaeth yn eu cynlluniau datblygu lleol sy'n dod allan, trwy weithio mewn partneriaeth.

18 Strategaeth Datblygu Gofodol – Papur Cefndirol (2017)

2.9 Hefyd mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried dylanwad Cynllun Gofodol Cymru ar y Strategaeth h.y. y ffocysau cynradd (ffocws Menai a ffocws Llandudno a Chonwy) a'r ffocws eilaidd (Porthmadog – Pwllheli - Penrhyndeudraeth). Gwrthwynebir unrhyw bwysau ychwanegol am dwf anghynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol sy'n deillio o'r canolfannau twf yng Nghynllun Gofodol Cymru.

2.10 Mae'r map yn atodiad 5 yn crynhoi'r cysylltiadau rhwng aneddiadau'r Parc Cenedlaethol a chanolfannau gwasanaethau lleol yn y Parc Cenedlaethol, ac ar y cyrion.

2.11 Y nod sydd wrth wraidd y strategaeth datblygu gofodol hon yw adnabod dylanwadau'r canolfannau allweddol ar gyrion y Parc Cenedlaethol, cefnogi'r dull gweithredu rhanbarthol yng Nghynllun Gofodol Cymru gan adnabod amgylchiadau gwledig y Parc Cenedlaethol yr un pryd, a chaniatáu rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn darparu ar gyfer anghenion lleol.

**Hierarchaeth Aneddiadau**

2.12 Cynigir hierarchaeth gynaliadwy o aneddiadau fel sail trefnu darparu datblygiadau a gwasanaethau yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd wedi dangos mai trefnu a chanolbwyntio datblygiadau a gwasanaethau yn y ffordd hierarchaidd hon yw'r un fwyaf effeithlon. Mae'r aneddiadau uchaf yn gyson â Chynllun Gofodol Cymru ac â chynlluniau datblygu'r awdurdodau cyfagos, tra bod yr hierarchaeth o aneddiadau is yn adlewyrchu cyd-destun gwledig Eryri. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio gyda phartneriaid i adeiladu cymunedau cynaliadwy, sy'n meddu ar y tai, y cyfleusterau a'r cyfleoedd gwaith sy'n angenrheidiol i ffynnu. Ymgymerwyd â phroses o ddadansoddi a gosod yr aneddiadau mewn trefn yn seiliedig ar argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau a chludiant cyhoeddus lleol yn yr anheddiad. Mae lefelau'r hierarchaeth fel a ganlyn:

**Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Dolgellau a'r Bala**

2.13 Cafodd Dolgellau a'r Bala eu pennu yn ganolfannau gwasanaethau lleol (â Dolgellau fel y ganolfan gwasanaethau allweddol o fewn parth Dolgellau ac Ardudwy, a'r Bala fel y ganolfan gwasanaethau allweddol o fewn parth y Bala). Ystyrir bod Canolfannau Gwasanaethau Lleol Dolgellau a'r Bala yn ardaloedd o gyfle, lle bydd y mwyafrif o ddatblygiadau sy'n ymwneud â thai a gwaith yn digwydd, fydd yn adlewyrchu'r cyfle i ddatblygu, yn seiliedig ar hygyrchedd a graddfa'r cyfleusterau presennol.


Dolgellau ©Croeso Cymru

### Dolgellau

2.14 Tref farchnad fach[19] yw Dolgellau sy'n gwasanaethu nifer o'r aneddiadau sydd o'i hamgylch. Mae yno nifer sylweddol o ymrwymiadau cynllunio tai ar gyfer y farchnad agored, felly dim ond tai fforddiadwy a glustnodwyd ar gyfer y dref hon yn ystod oes y cynllun er mwyn bodloni'r angen tai fforddiadwy lleol yn yr ardal. Fodd bynnag, bydd cyfleoedd am dai marchnad ar safleoedd ar hap. Mae pob un o'r gwasanaethau cymunedol lleol allweddol ar gael yn yr anheddiad hwn, gan gynnwys ysgol gynradd ac uwchradd a choleg addysg drydyddol, meddygfa, swyddfa'r post ac archfarchnad. Mae yna hefyd nifer o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys ysbyty gymunedol, canolfan hamdden, llyfrgell a sawl clwb chwaraeon. Mae Dolgellau yn ganolfan bwysig i ddiwydiannau amaethyddol a choedwigaeth ac i'r iaith Gymraeg a diwylliant. Mae cefnffordd yr A470 sy'n cysylltu Gogledd a De Cymru yn rhedeg heibio'r dref ac yn ei chysylltu â Machynlleth ac Aberystwyth. Mae'r A494 yn cysylltu'r dref â'r Bala ac yna mae'r A5 yn ei chysylltu â Wrecsam ac Amwythig. Mae gan Ddolgellau rôl bwysig i chwarae fel canolbwynt i wasanaethau bysus yn cynnwys Gwasanaethau Traws Cambria a gefnogir gan y Llywodraeth. Mae gan ganol y dref broblemau anodd cysylltiedig â thraffig sydd angen eu datrys. Mae Dolgellau yn gorwedd yng ngodre Cader Idris sy'n denu nifer fawr o dwristiaid bob blwyddyn, ac yn wir mae twristiaeth yn bwysig i economi Dolgellau, gan ei bod yn denu nifer sylweddol o dwristiaid ei hun. Mae treftadaeth ddiwylliannol Dolgellau yn hynod o bwysig, ac mae'n bwysig adfywio canol y dref er mwyn gwneud y gorau o'r dreftadaeth honno er mwyn sicrhau ei fod yn goroesi. Mae yna nifer o gyfyngiadau cynllunio yn Nolgellau gan gynnwys problemau sydd a wnelo perygl llifogydd a byddai ymestyniad sylweddol o'r ffin datblygu yn cael effaith fawr ar y dirwedd. Pennwyd bod Dolgellau mewn lleoliad strategol fel anheddiad cynradd yng Nghynllun Gofodol Cymru sy'n darparu cyswllt rhwng Canolbarth Cymru a Gogledd Orllewin Cymru. Er bod Dolgellau wedi ei ddynodi fel prif anheddiad yng Nghynllun Gofodol Cymru, nid yw'r cynllun yn awgrymu y disgwylir i dwf ffisegol sylweddol ddigwydd.

19 Gyda phobologaeth amcangyfrifedig o oddeutu 2,600



Dolgellau ©Croeso Cymru

### Y Bala

2.15 Tref gynlluniedig yw'r Bala a sefydlwyd ym 1310. Heddiw, mae'n cynnwys pob un o'r cyfleusterau lleol allweddol a ddisgwylir mewn tref o'i maint[20], ysgolion cynradd ac uwchradd, meddygfa, swyddfa'r post ac archfarchnad fwyd. Mae nifer o gyfleusterau cymunedol yn yr anheddiad hwn, gan gynnwys canolfan hamdden a llyfrgell a mynediad da i waith. Mae Y Bala a'r ardal o amgylch hefo hunaniaeth a thraddodiad Cymreig ac mae'n bwysig fel canolfan sy'n siarad Cymraeg yn bennaf yn y Parc Cenedlaethol. Bydd tai fforddiadwy yn ogystal â thai ar y farchnad agored yn cael eu darparu yn yr anheddiad hwn yn ystod oes y cynllun. Mae peth cyfyngiad ar gapasiti yn Y Bala oherwydd cyfyngiadau llifogydd. Mae yna gysylltiadau ffyrdd da i Ogledd Ddwyrain Cymru a Chanolbarth Cymru o'r Bala, mae'r A494 yn cysylltu'n uniongyrchol â'r A5 sy'n golygu cysylltiad da â Wrecsam ac Amwythig. Mae cludiant cyhoeddus yn golygu y gellid dod i'r Bala o'r aneddiadau llai gerllaw, yn ogystal â chysylltiadau o'r Bala i'r aneddiadau cyfagos. Mae twristiaeth yn bwysig yn y Bala, a chaiff nifer fawr o ymwelwyr eu denu yno bob blwyddyn i gymryd rhan mewn amrywiol chwaraeon dŵr yn yr ardal ac mae potensial i ehangu twristiaeth wedi ei seilio ar ddŵr yn yr ardal o amgylch y Bala. Mae'r Bala wedi'i phennu yn anheddiad traws ffiniol yng Nghynllun Gofodol Cymru rhwng Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru.

20 Poblogaeth amcangyfrifiedig o oddeutu 1,950



Y Bala

**Aneddiadau Gwasanaethau: Harlech, Aberdyfi, Betws y Coed, Trawsfynydd a Llanberis (sy'n rhannol o fewn y Parc).**

2.16 Yn nodweddiadol, mae gan yr aneddiadau hyn boblogaeth o dros 500 o bobl, gydag ysgol gynradd, meddygfa, swyddfa'r post a siop fwyd leol, fodd bynnag cafodd yr ysgol gynradd yn Aberdyfi ei chau yn ddiweddar. Mae ganddynt hefyd ystod o gyfleusterau cymunedol a gwasanaeth cludiant cyhoeddus da. Ystyrir eu bod yn meddu ar y gallu i ychwanegu at y gwasanaethau a ddarperir gan y Canolfannau Gwasanaethau Lleol a gweithredu fel anheddiad gwasanaethau ar gyfer yr aneddiadau amgylchynol a'r cyrion gwledig. Maent yn bwysig gan eu bod yn galluogi mynediad at anghenion beunyddiol heb orfod dibynnu ar ddefnyddio car preifat. Mae gan Harlech, Aberdyfi, Betws y Coed a Llanberis gyfyngiadau datblygu amgylcheddol sylweddol, ac o ganlyniad, bu'n rhaid i'r Awdurdod droi at rai aneddiadau eilaidd i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol. Pennwyd Betws y Coed a Thrawsfynydd yn aneddiadau traws ffiniol yng Nghynllun Gofodol Cymru, tra bod Llanberis (sy'n rhannol o fewn y Parc), Harlech ac Aberdyfi wedi'u pennu yn aneddiadau allweddol. Mae Trawsfynydd hefyd yn agos at Barth Menter Eryri sydd wedi'i dynodi â'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflogaeth. Er mai rhan fach o Lanberis yn unig sydd o fewn ffiniau'r Parc, mae wedi'i ddosbarthu yn Anheddiad Gwasanaethau fel ymateb i'w raddfa gyffredinol a'r amrediad o wasanaethau a ddarperir ac i sicrhau cysondeb â strategaethau rhanbarthol a chynllun datblygu'r awdurdod cyfagos.

**Aneddiadau Eilaidd:**

2.17 Mae gan yr aneddiadau hyn un neu fwy o gyfleusterau lleol allweddol a chyfleusterau cymunedol ychwanegol. Mae'r aneddiadau hyn yn meddu ar gymeriad sy'n fwy hunangynhaliol sy'n gwasanaethu'r gymdogaeth gyfagos ac nid ydynt yn meddu ar swyddogaeth ehangach yr Aneddiadau Gwasanaethau. Serch hynny, maent yn cynnig gwasanaeth pwysig i'r gymuned leol, ac ystyrir bod ganddynt y gallu i ddarparu rhai cyfleusterau lleol allweddol i'r aneddiadau amgylchynol a'r cyrion gwledig. Mae gan yr aneddiadau amrediad o wasanaethau cludiant cyhoeddus sy'n amrywio o wael i dda (gan gofio amgylchiadau amrywiol rhai cymunedau gwledig). Bydd rhywfaint o ddatblygiadau cyfyngedig yn yr aneddiadau hyn yn cefnogi eu cynaliadwyedd a chynnal a chadw gwasanaethau a chyfleusterau presennol megis ysgol y pentref a hefyd helpu i ddiwallu anghenion lleol.

**Aneddiadau Llai:**

2.18 Nid oes gan yr aneddiadau hyn unrhyw gyfleusterau lleol allweddol, ac ychydig iawn o gyfleusterau cymunedol sydd yn yr anheddiad. Fel arfer, bydd y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael yn cael eu rhannu ymhlith grwpiau o aneddiadau.

**Cefn gwlad agored:**

2.19 Diffinnir cefn gwlad agored fel ardaloedd â datblygiadau gwasgarog, grwpiau o dai diarffordd neu ddim datblygiadau o gwbl.

2.20 Mae Atodiad 6 yn cynnwys tabl a map sy'n cyflwyno manylion pellach ar y strategaeth aneddiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

2.21 Mae Polisi Strategol C yn nodi sut y caiff y cyfleoedd cyfyngedig am ddatblygiadau newydd yn y Parc eu dosbarthu er mwyn cyflawni gweledigaeth ofodol ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r polisi yn caniatáu datblygu tai newydd, cyflogaeth a darparu gwasanaethau a chyfleusterau mewn aneddiadau yn unol â'i ddynodiad o fewn yr hierarchaeth aneddiadau, â'r nod gyffredinol o beri bod cymunedau'n gallu cynnal eu hunain yn well.

**Polisi Strategol C: Strategaeth Datblygu Gofodol (C)**

Bydd datblygiadau gofodol ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn seiliedig ar yr hierarchaeth a ganlyn:

**Canolfannau Gwasanaethau Lleol – Dolgellau a'r Bala**

i. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy i fodloni angen lleol.

ii. Cefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig.

iii. Gwella cyfleusterau presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol i gryfhau ei swyddogaeth fel canolfan gwasanaethau lleol a chefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.

iv. Datblygiadau manwerthu wedi'u lleoli yn agos at y prif ardaloedd manwerthu.

**Aneddiadau Gwasanaethau**

v. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.

vi. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig yn unol â Pholisi Datblygu 19.

vii. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol.

viii. Cryfhau ei swyddogaeth fel anheddiad gwasanaethau sy'n gwasanaethu'r anheddiad a'r gymuned gyfagos.

ix. Cefnogi ei swyddogaeth fel cyrchfan i ymwelwyr.

x. Datblygiadau manwerthu yn ardaloedd manwerthu Harlech, Aberdyfi a Betws y Coed.

**Aneddiadau Eilaidd**

xi. Tai ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol.

xii. Datblygiadau ar gyfer cyflogaeth ar raddfa fach i gefnogi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli am waith, neu i gynnig mwy o gyfleoedd, er mwyn cefnogi'r economi wledig yn unol â Pholisi Datblygu 19.

xiii. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol a chryfhau ei swyddogaeth i ddarparu gwasanaethau i'r cyrion gwledig.

**Aneddiadau Llai**

xiv. Tai fforddiadwy ar ffurf unedau sengl i ddiwallu angen lleol.

xv. Gwella cyfleusterau cymunedol presennol a chynnig cyfleusterau newydd i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn bodoli yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.

xvi. Trosi adeiladau i gefnogi defnydd economaidd.

xvii. Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19.

**Cefn gwlad agored**

xviii. Trosi adeiladau gwledig i gefnogi defnydd economaidd.

xix. Trosi adeiladau gwledig i dai fforddiadwy er mwyn diwallu angen lleol.

xx. Tai newydd yn lle'r rhai presennol.

xxi. Tai sy'n ymwneud ag angen hanfodol i fyw yng nghefn gwlad yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol.

xxii. Cyfleusterau cymunedol hanfodol eraill i wasanaethu trigolion lleol lle nad oes unrhyw leoliadau addas yn yr aneddiadau a restrir yn yr hierarchaeth aneddiadau.

xxiii. Datblygiadau Amaethyddol sydd yn ymdoddi'n naturiol i'r tirlun.

xxiv. Mewn amgylchiadau eithriadol, datblygiadau cyflogaeth a hyfforddiant newydd ar raddfa fach yn unol â Pholisi Datblygu 19.

xxv. Datblygiad economaidd fel rhan o ddyraniad Parth Menter Eryri yn unol â Pholisi Datblygu 27.

2.22 Mae'r diagram allweddol yn Atodiad 7 yn dangos Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â chysylltiadau â'r aneddiadau mwy y tu hwnt i ffin y Parc.

**Egwyddorion Datblygu Cyffredinol**

2.23 Mae yna rai gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i bob datblygiad eu bodloni os yw am fod yn dderbyniol o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'n rhaid i gynigion fod yn dderbyniol yn nhermau eu heffaith ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol, cyfleoedd ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad, ansawdd a dyluniad, defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, mwyniant, diogelwch ffordd, perygl llifogydd ac isadeiledd. Mae Polisi Datblygu 1 yn cyflwyno cyd-destun pwysig ar gyfer y polisïau sydd wedi'u trefnu fesul testun a gynhwysir yn y cynllun hwn.



Betws-y-Coed ©Croeso Cymru

**Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (1)**

Er mwyn gwarchod a gwella ‘Rhinweddau Arbennig’ a phwrpasau’r Parc Cenedlaethol, caniateir datblygiadau yn unig pan fyddant yn bodloni pob un o’r isod:

i. Mae natur, lleoliad a gosodiad, uchder, ffurf a graddfa’r datblygiad yn gydnaws â chynhwysedd a chymeriad y safle lle mae wedi ei leoli.

ii. Ni fydd datblygiad yng nghwrtil domestig tŷ yn amharu ar gymeriad a ffurf y tŷ presennol na’i osodiad yn y dirwedd.

iii. Nid yw’r datblygiad yn rhy amlwg yn y dirwedd ac ni fydd yn peri niwed sylweddol i fwynderau eiddo cyfagos.

iv. Mae’r datblygiad yn adlewyrchu safon dylunio cynaliadwy da, yn defnyddio deunyddiau sy’n gydnaws â’r ardal, neu’n ei gwella, ac yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy.

v. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol annerbyniol ar fioamrywiaeth nodweddiadol Eryri, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau a ddiogelir o dan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd.

vi. Nid yw’r datblygiad yn arwain at golled o nodweddion tirwedd gan gynnwys coedlan, a choedlan Lled-Naturiol Hynafol yn anad dim, coed iach, gwrychoedd, waliau cerrig nac yn gwneud difrod i dir agored pwysig neu olygfa gyhoeddus.

vii. Mae mynediad addas sy’n cwrdd â safonau priffyrdd yn bodoli neu gellir darparu mynediad heb niweidio cymeriad y cyffiniau neu fwynderau gerllaw.

viii. Darperir meysydd parcio priodol a mannau troi ar y safle sy’n briodol i raddfa’r datblygiad arfaethedig lle bo angen. Dylai wynebau meysydd parcio fod yn athraidd ble bo’n briodol i’r datblygiad.

ix. Ni fydd goblygiadau trafnidiaeth y datblygiad yn arwain at fathau o drafnidiaeth neu swm trafnidiaeth a fyddai’n creu problemau traffig neu ddiogelwch ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, nac yn ddifrifol andwyol i dirlun neu fwyniant pobl leol.

x. Gellir darparu gwasanaethau ac isadeiledd addas heb beryglu ansawdd a chymeriad y dirwedd a’r dreftadaeth ddiwylliannol.

xi. Ni chaiff y datblygiad effaith andwyol annerbyniol, trwy ddefnydd ychwanegol o adnoddau, gollyngiadau nac allyriadau, ar iechyd y cyhoedd, dŵr wyneb a thir (ansawdd, cyfaint neu ecoleg), ansawdd yr aer, pridd a’r tir amaethyddol gorau a mwyaf aml-ddefnydd.

xii. Mae’r datblygiad yn gydnaws â, ac nid yw’n peri niwed sylweddol, i’r amgylchedd, mwynderau preswylwyr cyfagos na mwynderau’r Parc ar ffurf sŵn, llwch, cryndod, aroglau, llygredd golau, deunyddiau peryglus na chynhyrchu gwastraff.

xiii. Ni chaiff y datblygiad effaith andwyol annerbyniol ar fwynhad tawel y cyhoedd o’r ardal.

xiv. Ni chaiff y datblygiad effaith andwyol annerbyniol ar hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau hamdden eraill na chefn gwlad agored.

xv. Gellir sicrhau sadrwydd y tir heb beri effaith annerbyniol i’r amgylchedd neu’r dirwedd.

xvi. Gellir rheoli peryglon, ac effeithiau, llifogydd ar y safle ac oddi arno i lefel dderbyniol, yn unol â pholisïau cynllunio cenedlaethol.



**Rhwymedigaethau cynllunio a chyfraniadau a ddisgwylir gan ddatblygwyr tuag at welliannau hanfodol i'r isadeiledd, cyfleusterau cymunedol a mesurau lliniaru**

2.24 Mae darpariaeth o isadeiledd digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff, cynhyrchu ynni a'i ddosbarthu, telathrebu, cludiant cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol oll wrth wraidd cyflawni datblygiadau cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol.

2.25 Mae'n bwysig sicrhau y darperir mesurau lliniaru derbyniol o effeithiau andwyol posibl datblygiad newydd ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Fe all yr effeithiau andwyol gynnwys, er enghraifft, mwy o erydiad, pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, newid yng nghymeriad y dirwedd, erydiad o dreftadaeth ddiwylliannol a bywiogrwydd ieithyddol, ymyrraeth sŵn a thagfeydd traffig. O ganlyniad i'r datblygiadau hyn yn y Parc Cenedlaethol, fe all arwain at bwysau cynyddol ar 'Rhinweddau Arbennig' y Parc, neu fe all fod o ganlyniad i ddatblygiadau mawr ar gyrion y Parc.

2.26 Gellid defnyddio llif incwm dichonol o ddatblygiadau y tu hwnt i ffiniau'r Parc i gefnogi mentrau cludiant cynaliadwy, gwaith cynnal a chadw rhwydweithiau llwybrau strategol a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yma yn Eryri – e.e. trwy sicrhau llif arian i gefnogi mentrau sgiliau iaith.

2.27 Lle bo'r angen felly, bydd angen i ddatblygiadau gyfrannu at welliannau i'r isadeiledd a'r dirwedd a mesurau lleddfu, trwy rwymedigaethau cynllunio[21] neu Ardoll Seilwaith Cymunedol[22] fel sy'n briodol. Mae gofynion manwl ar gyfer unrhyw gyfraniadau o'r fath yn cael eu nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol 5 (Rhwymedigaethau Cynllunio) i alluogi darpar ddatblygwyr i gynnwys y costau angenrheidiol i'w cyllid datblygu o'r cychwyn cyntaf. Serch hynny, ychydig iawn o gynigion ar raddfa fawr sydd yn y Parc Cenedlaethol, ac yn nhermau economaidd, fe all hyfywedd datblygiadau llai fod yn ffiniol. Felly, bydd yn bwysig peidio ag ychwanegu at y costau a llesteirio datblygiadau trwy ofyn am gyfraniadau ariannol trwy rwymedigaethau cynllunio neu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae cyfraniadau o'r fath yn debygol o fod yn eithriadol ac wedi'u cyfyngu i ddatblygiadau mwy a hyfyw sy'n cael effaith ehangach ar y gymuned a gwasanaethau. Bydd yr Awdurdod yn ystyried p'un yw'r dull mwyaf priodol i gasglu cyfraniad i brosiectau cymunedol ac isadeiledd, gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth a rheoliadau Cenedlaethol. Adolygir y dull y cyflawnir cyfraniadau datblygwyr yng ngoleuni'r newidiadau mewn polisi Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen rhwymedigaeth gynllunio adran 106 ar bob prosiect tai fforddiadwy i sicrhau bod y tŷ yn fforddiadwy ac yn parhau felly am byth ar gyfer pobl leol mewn angen. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy yn rhoi mwy o arweiniad i ddatblygwyr ynghylch sut y cymhwysir rhwymedigaethau o'r fath.

**Polisi Strategol Ch: Isadeiledd cymdeithasol a ffisegol mewn datblygiadau newydd (Ch)**

Bydd datblygiadau newydd ar raddfa sy'n cael effaith ehangach ar y gymuned a gwasanaethau yn cael eu hasesu fesul achos a dylent wneud cyfraniad os yw'n ymarferol neu yn hyfyw i isadeiledd cymdeithasol a ffisegol y Parc Cenedlaethol.

Ceisir cyfraniadau bob amser, trwy gytundeb 106, am dai fforddiadwy a hefyd, o bosibl, fel enghraifft, ar gyfer yr hyn a ganlyn nad yw'n rhestr gyflawn: Lliniaru a gwella ar gyfer gwarchod y dirwedd a bioamrywiaeth, mentrau cludiant cynaliadwy, cynnal a chadw neu wella llwybrau troed, llwybrau ceffylau, llwybrau beicio, a meysydd parcio, cynlluniau lliniaru llifogydd a phrosiectau ynni.

---

21 Mae rhwymedigaethau cynllunio, a elwir weithiau'n "Gytundebau Adran 106", yn gytundebau cyfreithiol yr ymrwymir iddynt rhwng awdurdod cynllunio lleol a datblygwr, ac maent yn ffordd sefydledig a gwerthfawr o sicrhau bod datblygiad yn cydymffurfio ag amcanion datblygu cynaliadwy.

22 Cynhwysir cymalau sy'n ymwneud â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y Mesur Cynllunio, [cymalau 198-209] o fersiwn Tŷ'r Arglwyddi, a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin 2008.


Glyder Fach ©Croeso Cymru

# Pennod 3

# Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D) ....46
Polisi Datblygu 2: Datblygu A'r Tirwedd (2) ....50
Polisi Strategol Dd: Newid Yn Yr Hinsawdd (Dd) ....51
Polisi Datblygu 3: Ynni (3) ....53
Polisi Strategol E (1): Polisi Diogelu Mwynau (E(1)) ....55
Polisi Strategol E (2): Datblygiad Mwynau Ar Raddfa Fawr (E(2)) ....55
Polisi Strategol E (3): Gwaredu Gwastraff Llechi A Chwareli Carreg Adeiladu (E(3)) ....56
Polisi Strategol F: Gwastraff (F) ....57
Polisi Datblygu 4:Safleoedd Graddfa - Fach Ar Gyfer Gwastraff Tŷ A Gwastraff Anadweithiol (4) ....57
Polisi Datblygu 5: Mannau Agored A Lletemau Glas (5) ....57

# 3. Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

3.1 Mae'r rhan hon yn cyflwyno ymateb i'r amcanion a ganlyn:

Sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n parchu safleoedd cadwraeth natur dynodedig ac yn sicrhau bod yr amrywiaeth a'r amlder o gynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau a ddiogelir yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu, gan gynnwys sicrhau gostyngiad yng ngollyngiadau nwyon tŷ gwydr, lleihau defnydd ynni a chynllunio datblygiadau derbyniol gyda golwg ar beryglon llifogydd.

Annog, lle bo'n briodol, ddefnydd o adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau cynhyrchu pŵer o ynni adnewyddadwy ar raddfa fach er mwyn diwallu anghenion lleol heb beri niwed i 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal.

Gwarchod a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol gan gynnwys ei geoamrywiaeth, ac ansawdd y dŵr, pridd a'r aer.

Gwarchod a gwella harddwch naturiol tirwedd a geoamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.

Hyrwyddo lleihau gwastraff a sicrhau darpariaeth o gyfleusterau ailgylchu a rheoli gwastraff integredig cynaliadwy.

### Amgylchedd Naturiol

3.2 Mae pwrpas cyntaf dynodiad y Parc Cenedlaethol yn gosod cyfrifoldeb i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc. Y cyfuniad cymhleth hwnnw rhwng pobl, bywyd gwyllt a'r amgylchedd sy'n rhoi i ni, dros amser, 'Rhinweddau Arbennig' Eryri sydd mor werthfawr i ni heddiw, ac sy'n cyfrannu'n fawr at ansawdd bywyd trigolion y Parc a'r llu o bobl sy'n ymweld â'r ardal.

3.3 Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol ran bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y 'Rhinweddau Arbennig' hyn yn cael eu gwarchod a'u gwella - tasg sydd hyd yn oed yn fwy anodd yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae yna fwy o angen nag erioed i gynllunio, rheoli, addasu, a lleddfu effeithiau dichonol newid yn yr hinsawdd ar Eryri.

3.4 Mae un rhan o bump o Eryri yn cael ei diogelu'n statudol oherwydd y bywyd gwyllt a'r nodweddion geomorffolegol a daearyddol, ac mae dros hanner y tir hwn wedi'i ddynodi o dan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994, yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Fodd bynnag, nid yw pwysigrwydd gwarchod natur yn Eryri yn gyfyngedig i safleoedd na rhywogaethau dynodedig a ddiogelir. Mae rhai rhywogaethau'n cael eu gwarchod yn statudol, ac mae eu diogelu trwy'r broses gynllunio'n ystyriaeth berthnasol. Bydd y Parc Cenedlaethol yn cynghori datblygwyr bod rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gamau gwarchod rhywogaethau statudol fel y cyfeirir atynt yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio. Bydd hefyd yn cynnwys yr angen i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Bydd y Parc Cenedlaethol hefyd yn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd anstatudol o ddiddordeb dearegol rhanbarthol bwysig. Bydd polisiau'r Cynllun yn ceisio darparu ar gyfer gwarchod, gwella, rheolaeth gynaliadwy a, lle bo'n briodol, adfer rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt, lletemau glas gan gynnwys rhwydwaith o dir agored a ddynodwyd yn y Cynllun a gefnogir gan NCT 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio.

3.5 Mae cynnal a gwella bioamrywiaeth Eryri yn gonglfaen cynaliadwyedd. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysicaf a geir yn Eryri. Mae'r Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau (CGC/Rh) a geir yn y ddogfen yn cadarnhau pwysigrwydd yr ardaloedd a'r rhywogaethau hyn, nid yn unig o ran eu harwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol, ond hefyd oherwydd eu pwysigrwydd yn lleol. Mae manylion pellach ar ddatblygu a bioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn ymddangos yn y Canllawiau Cynllunio Atodol[23].

3.6 Mae llawer o arfordir y Parc Cenedlaethol, dros y blynyddoedd, wedi cael ei ddatblygu i raddau helaeth neu i raddau llai. Er bod cyrchfannau Abermaw, Fairbourne a Thywyn wedi'u hepgor pan ddiffiniwyd ffin y Parc, mae'n bosibl gweld gwelliannau amaethyddol, gan gynnwys rhywfaint o adennill morfeydd, ffyrdd, rheilffyrdd a safleoedd carafannau statig mawr ar hyd yr arfordir.

3.7 O ganlyniad, dim ond rhannau bychan o arfordir Eryri y gellid eu disgrifio fel meddu ar gymeriad sy'n bennaf heb ei ddifetha. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dangos ar y map Cynigion fel yr Arfordir Annatblygedig. Maent fwy neu lai yn gyfystyr â'r nodweddion arfordirol a bennir yn Adran 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygiad) 1985 gan eu bod yn '*ardaloedd â…, chlogwyni neu flaendraethau (gan gynnwys glannau, rhwystrau, traethau, tir gwastad neu dir cyfagos at y blaendraeth), ac mae'r Awdurdod yn ystyried bod harddwch naturiol y mannau hynny'n deilwng o'i warchod*'. At hynny, mae darnau o weundir arfordirol ar glogwyni a chyn glogwyni wedi'u cynnwys i'r de o Lwyngwril ynghyd â'r caeau caeedig bach sydd yn nodweddiadol o'r ardal hon. Mae Polisi Strategol D yn cyfeirio at ddiogelu safleoedd lleol o bwysigrwydd cadwraeth natur, safleoedd dynodedig Cenedlaethol megis safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a safleoedd dynodedig rhyngwladol megis safleoedd Ramsar. Dangosir yr holl ddynodiadau hyn ar y Map Cynigion, er mewn rhai achosion, fe welir bod un dynodiad yn croesi'r llall. Bydd CCA Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth yn trafod pwysigrwydd y dynodiadau hyn yn fanylach ac yn darparu mapiau ar gyfer pob dynodiad.

23 CCA 6 : Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth



Harlech ©Croeso Cymru

**Polisi Strategol D: Yr Amgylchedd Naturiol (D)**

Caiff adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a 'Rhinweddau Arbennig' Parc Cenedlaethol Eryri eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol. Pan ystyrir bod datblygiad yn dderbyniol, disgwylir i ddatblygwyr sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod a'i wella.

Ni ddyliau cynigion effeithio yn andwyol ar fioamrwyiaeth y Parc Cenedlaethol gan gynnwys safleoedd dynodedig yn amrywio o lefel ryngwladol i lefel leol, yn ogystal ag adnoddau bioamrywiaeth ehangach e.e. cynefinoedd a rhywogaethau tu allan i safleoedd dynodedig.

Ni chaniateir cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd a ddynodir yn Ewropeaidd (un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) oni chyflawnir gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ac felly gellid diwallu'r meini prawf a ganlyn:

i. Does dim ateb arall.
ii. Mae yna resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig am y datblygiad.

Bydd y gofynion a ganlyn yn berthnasol i ddatblygiadau sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol:

iii. Mae lleoliad, dyluniad ac adeiledd y datblygiad wedi'i wneud yn y fath fodd fel bod y difrod i nodweddion cadwraeth natur yn cael ei liniaru, a manteisir ar gyfleoedd i warchod natur.
iv. Darperir mesurau cydadferol os oes angen.
v. Caiff y nodweddion cadwraeth natur sy'n weddill eu gwarchod a'u gwella, a darperir ar gyfer eu rheoli.

Yr unig bryd y caniateir datblygiad ar hyd yr Arfordir Annatblygedig yw lle gellir dangos bod lleoliad arfordirol yn hanfodol. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad sy'n niweidio cymeriad y dirwedd heb ei ddifetha neu gynefinoedd bywyd gwyllt.

Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o effeithio'n andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau a restrir yn y Cynllun gweithredu Bioamrywiaaeth Lleol yn destun i Ganllaw Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth Leol.

**Tirwedd**

3.8 Dynodwyd tirwedd Eryri'n Barc Cenedlaethol oherwydd ei golygfeydd ysblennydd, harddwch naturiol, a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, y maent i gyd yn cyfrannu at ei 'Rhinweddau Arbennig'. Gellir gweld dylanwad sawl cenhedlaeth o bobl yn gweithio, byw ac fel arall yn ffurfio'r dirwedd yn ei chymeriad arbennig ac amrywiol heddiw. Mae tirweddau Eryri'n cynnwys mynyddoedd creigiog, rhostiroedd uchel, dyffrynnoedd coediog, llynnoedd, rhaeadrau, aberoedd, ac arfordir sydd i gyd yn cyfrannu at 'Rinweddau Arbennig' yr ardal. Mae llonyddwch a phellenigrwydd yr ardal hefyd yn ychwanegu at yr hyn sy'n gwneud Eryri mor arbennig. Gellid ystyried fod rhai ucheldiroedd yn "Dirweddau Tywyll". Mae'r rhain yn cyfrannu at dawelwch Eryri a'i ymdeimlad o fod yn wyllt ac fe all arwain at fuddion iechyd a lles ehangach ar gyfer y trigolion ac ymwelwyr ill dau.


Y Lliwedd ©Croeso Cymru



Trawsfynydd ©Keith O'Brien

### Gwarchodfa Awyr Dywyll

3.9 Ym mis Tachwedd 2015 dyfarnwyd statws Gwarchodfa Awyr Dywyll i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll yn wobr fawreddog a roddir gan y Gymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll (a adwaenir yn aml fel yr IDA) i'r ardaloedd arwahanol hynny sydd wedi profi bod ansawdd eu hawyr nosol yn rhagorol ac mae'r ardaloedd hynny wedi dangos bod ymdrechion gwirioneddol yn cael eu gwneud i leihau llygredd golau ymwthiol.

3.10 O ganlyniad i'r dynodiad hwn bydd trigolion ac ymwelwyr ag Eryri, a bioamrywiaeth yr ardal, yn gallu gweld manteision amrywiol, a all gynnwys y canlynol:

- effeithiau llai niweidiol ar fywyd gwyllt nosol yr ardal yn deillio o ganlyniad i ostyngiad mewn golau crwydrol, artiffisial.
- gwelliant yn ansawdd cyffredinol amgylchedd yr ardal a'r ymdeimlad o lonyddwch yn ystod y nos.
- y potensial i'r economi leol gael ei wella oherwydd bydd gan Eryri atyniad naturiol newydd ar gyfer ymwelwyr i'r ardal ar adegau tawel o'r flwyddyn.

3.11 Ym mis Hydref 2016 cyhoeddodd APCE Ganllawiau Cynllunio Atodol ar Oleuo Ymwthiol (Llygredd Goleuni). Er bod Parc Cenedlaethol cyfan wedi ei ddynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll, mae yna nifer o feysydd craidd, a ddangosir ar y Map Cynigion, lle y mae'n rhaid i gynigion ar gyfer goleuadau newydd, fod yn briodol i'r dasg a chydymffurfio â gofynion "Prif Gynllun Goleuadau Allanol Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri" sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

3.12 Mae paragraff 6.81 o PCC (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) yn cyfeirio at lygredd golau ac yn cydnabod yr angen i gydbwyso effeithiau andwyol goleuadau ar yr amgylchedd, amwynder a bywyd gwyllt gyda'r angen i ddarparu diogelwch a galluogi i ddigwyddiadau hamddena a chwaraeon ddigwydd gyda'r nos.

### Ardaloedd o Harddwch Naturiol

3.13 Adnabuwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol, fel y'i diffinnir dan Adran 3 o'r Ddeddf Diwygio Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985, ar y Map Cynigion. Mae'r ardaloedd hyn yn aml yn cyd-ddigwydd ag ardaloedd o gefn gwlad agored (fel y'i diffinnir a'i fapio yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) ac ardaloedd o bwysigrwydd cadwraeth natur. Maent yn cynnwys rhannau estynedig o ucheldiroedd agored, rhostir grug a glaswelltir mynyddig rhannol naturiol. Datgelodd adolygiad cyflym a wnaed yn 2016 gynnydd yng nghyfanswm yr ardal, yn deillio yn bennaf o ganyniad i waith torri rhai planhigfeydd conwydd nad oedd yn cael eu hail-stocio wedyn. Bydd hyn o gymorth pellach wrth ail-gynhyrchu mawnogydd ucheldirol, adfer y gwasanaethau ecolegol maent yn eu darparu, - megis dal a storio carbon a chadw dŵr yn rhannau uchaf dalgylchoedd afonydd.

3.14 Mae'r Awdurdod yn disgwyl i ddatblygwyr arfaethedig i gydnabod eu sensitifrwydd a'u gwerth a phrofi na fydd unrhyw ddatblygiad yn effeithio'n niweidiol ar eu cymeriad nag amwynder.

### Gwarchodfa Biosffer Dyfi

3.15 Mae rhaglen Dyn a'r Biosffer UNESCO yn cynnwys cyfres o rwydwaith byd-eang o Warchodfeydd Biosffer. Mae rhan helaeth o ddalgylch yr Afon Dyfi wedi cael statws Gwarchodfa Biosffer gan UNESCO yn 2009.

3.16 Mae Gwarchodfeydd Biosffer yn rhanbarthau model ar gyfer datblygu cynaliadwy ac yn safleoedd arbrofi ar gyfer dulliau gweithredu cadwraeth lle mae'r gymuned leol yn cydweithio i fyw mewn cytgord â'i amgylchedd. Maent yn cael eu hystyried yn bwysig iawn o ran cydnabyddiaeth ryngwladol am eu bod yn arddangos rhagoriaeth mewn datblygu cynaliadwy. Prif amcan Gwarchodfeydd Biosffer yw hyrwyddo perthynas gytbwys rhwng pobl a'u hamgylchedd naturiol drwy addysgu ac ysbrydoli'r gymuned leol i weithio gyda'i gilydd ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy.

3.17 Mae Gwarchodfeydd Biosffer yn cynnwys tri pharth rhyngberthnasol:

- Mae'r Ardal Graidd yn ardal sydd eisoes o dan warchodaeth uchel dros y tymor hir ac mae hon o bwysigrwydd Ewropeaidd o leiaf oherwydd ei ecosystemau. Efallai y bydd yn cael ei dynodi'n Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) neu Ardal Arbennig a Ddiogelir. Yn achos y Ddyfi mae'r ardal graidd yn seiliedig ar yr aber.
- Mae'r Parth Clustogi yn amgylchynu, neu yn ymylu'r ardal graidd. Mae'n helpu i warchod yr ardal graidd, ac mae'n rhoi ymgysylltiad dynol cadarnhaol, - gan gynnwys ymchwil, addysg, hyfforddiant, twristiaeth, amaethyddiaeth helaeth, neu goedwigaeth gynaliadwy. Yn achos y Ddyfi mae'r parth yn cynnwys nifer o SoDdGAu yng Ngheredigion a Phowys.
- Yr Ardal Bontio yw'r ardal allanol helaeth o'r warchodfa lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, gan ddefnyddio adnoddau naturiol yr ardal mewn modd cynaliadwy.Ym Miosffer Dyfi mae'r ardal hon yn cynnwys yr ardaloedd cynghorau cymuned hynny sydd o fewn dalgylch y Ddyfi. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd cynghorau cymuned sydd y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol, sef Aberdyfi, Pennal a Dinas Mawddwy.

3.18 Mae rhan o Biosffer Dyfi yn gorwedd o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol ac mae synergeddau sylweddol rhwng amcanion y Biosffer, y Cynllun hwn a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.



Aberdyfi ©Croeso Cymru

**Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dirweddau a Morweddau Eryri**

3.19 Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i hyrwyddo gwarchod, rheoli a chynllunio tirwedd Eryri ac i gymhwyso egwyddorion y Confensiwn Tirwedd Ewropeaidd[24]. Mae ei Ganllaw Cynllunio Atodol ar Dirweddau Eryri yn nodi 25 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd nodedig ac yn egluro:

- *sut mae'r Awdurdod, wrth weithio gydag eraill, yn hyrwyddo rhyngweithio rhwng pobl a'u hamgylchedd a byddant yn gweithio i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r dirwedd a'i gwerth, fel fframwaith sy'n uno'r holl ddefnydd tir / sector defnydd tir;*
- *sut y bydd yr awdurdod yn hybu dull mwy hygyrch, integredig ac ymagwedd sy'n 'edrych ymlaen' tuag at reoli tirweddau a etifeddwyd a siapio tirweddau newydd;*
- *sut y gall y system LANDMAP[25] gael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddadansoddi'r dirwedd, datblygu egwyddorion dylunio a gwneud penderfyniadau*

**Canllawiau Cynllunio Atodol ar Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd**

3.20 Yn dilyn ymlaen o'r gwaith hwn mae'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Sensitifrwydd y Dirwedd a Cynhwysedd wedi cael ei ddatblygu. Mae hwn yn darparu canllawiau manwl ar yr effeithiau posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol mathau penodol o ddatblygiad, sef: -

- tyrbinau gwynt,
- mastiau telathrebu a
- meysydd carafannau a chabannau.

3.21 Mae sensitifrwydd a chynhwysedd pob un o'r 25 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd i'r mathau hyn o ddatblygiad a nodwyd yn Nhirweddau Eryri wedi cael eu hasesu trwy ddefnyddio methodoleg gyffredin (a ddefnyddir hefyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn). Bydd canlyniadau'r asesiad yn gymorth wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Felly, bydd angen i ddatblygwyr sy'n ceisio hyrwyddo'r mathau hyn o ddatblygiad yn y Parc Cenedlaethol dalu sylw i'r Canllawiau hyn.

3.22 Fe all datblygiadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol hefyd gael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd ac effeithio ar olygfeydd o ac i mewn i'r ardal. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod yr angen i drafod gydag Awdurdodau cyfagos beth yw effaith datblygiadau ar y dirwedd. Bydd yr Awdurdod yn ystyried effaith cynigion sy'n agos at ffin y Parc Cenedlaethol ar y dirwedd a'r effaith weledol, gan gynnwys effeithiau goleuo ar dirweddau tywyll a sut y gallai'r rhain effeithio ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Lle bynnag y bo'n bosibl bydd yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posib.

24 Cytundeb lled Ewrop wedi'u cytuno gan Gyngor Ewrop, 2004.
25 System wybodaeth genedlaethol a ddyfeiswyd gan CNC yw LANDMAP, ei bwrpas yw defnyddio methodoleg er mwyn ceisio cael cysondeb yn sut ystyrir y dirwedd wrth gwneud penderfyniadau.



Nant Ffrancon & Glyderau ©Croeso Cymru

**Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Tirwedd (2)**

Dylai graddfa a gosodiad datblygiad newydd yn cynnwys ei osodiad, tirlunio a'i integreiddiad barchu a diogelu cymeriad, ansawdd a golygfeydd y dirwedd. Ymwrthodir effeithiau annerbyniol ar y dirwedd a rhoddir ystyriaeth benodol iawn i warchod:

i. Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri, yn benodol Ardaloedd Craidd

ii. Gwarchodfa Biosffer Dyfi

iii. Ardaloedd Adran 3 o harddwch naturiol[26].

iv. Arfordir sydd heb ei ddatblygu.

v. Golygfeydd sydd yn weladwy o olygfannau.

vi. Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Sensitif fel y dyffinnir yng Canllawiau Cynllunio Atodol Tirweddau Eryri a Asesiad Sensitifrwydd a Capasiti y Dirwedd.

**Newid yn yr Hinsawdd**

3.23 Bydd newid yn yr hinsawdd yn bendant yn cael effaith ar fywyd gwyllt; felly, mae'n bwysig diogelu natur gynhenid yr amgylchedd naturiol ehangach a chadwraeth natur y Parc Cenedlaethol er mwyn hwyluso rhywogaethau i addasu a mudo. Gall dyfrffosydd, gwrychoedd a choedlannau oll fod yn goridorau i fywyd gwyllt rhwng safleoedd dynodedig, yn ogystal â bod yn gynefinoedd gwerthfawr yn eu rhinwedd eu hunain.

3.24 Un o'r ffyrdd o wynebu her newid yn yr hinsawdd yw trwy leihau gwastraff a sicrhau'r rheolaeth ofalus o adnoddau naturiol trwy ddull cynaliadwy. Ymhlith pethau eraill, mae hynny'n golygu defnyddio ynni'n llawer iawn mwy effeithlon, amnewid ffurfiau adnewyddadwy o ynni yn hytrach na defnyddio tanwydd ffosil, a lleihau allyriadau wrth ddefnyddio tanwydd ffosil ar gyfer cludiant.

3.25 Gall pridd, yn enwedig pridd mawnaidd yn yr ucheldir ddal swm sylweddol o garbon. Er bod ardaloedd cymharol fawr yn Eryri dal wedi'u gorchuddio â phridd o'r fath, ymgymerwyd â gwaith coedwigo sylweddol yn ogystal â gwelliannau amaethyddol yn yr ucheldiroedd. Mae hyn wedi arwain at golli swm sylweddol o garbon i'r atmosffer. Mae draenio'r pridd hefyd wedi lleihau ei allu i ddal dŵr, ac fe all hynny waethygu llifogydd ac arwain at erydiad (mae gwarchod a sicrhau rheolaeth ofalus o bridd o'r fath nawr yn hynod bwysig yng nghyd-destun brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd). Mae coetir hefyd yn chwarae rôl allweddol yn y materion hyn; byddai cynyddu'r gorchudd coetir ynghyd â gwarchod coetiroedd sy'n bodoli'n barod ac yn enwedig coetiroedd Hynafol Rhannol Naturiol yn dod â nifer o fuddiannau yn cynnwys gwell cysylltedd ecolegol os y gwneir hyn yn gydymdeimladwy. Bydd yn bwysig darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd, ond dylid ystyried rhai polisiau megis Polisiau Datblygu 3 a 6 yn briodol er mwyn gwneud cyfraniad lleol i liniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Yn yr un modd bydd yr angen i leihau patrymau teithio, yn enwedig lleihad mewn defnydd o'r car preifat, yn cael effaith uniongyrchol ar ddylanwadu ar newid yn yr hinsawdd. Un effaith a deimlir yn lleol yn barod yw'r cynnydd mewn ardaloedd perygl llifogydd. Bydd datblygiadau'n cael eu cadw draw o ardaloedd o'r fath, ac ni chânt eu caniatau ond yn unol â gofynion NCT 15: Datblygiadau a Pherygl Llifogydd.

[26] Fel y diffiniwyd o dan adran 3 o'r Ddeddf Diwygio Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1985.

**Polisi Strategol Dd: Newid yn yr Hinsawdd (Dd)**

Bydd cyfraniad y mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r Parc Cenedlaethol yn ei wneud i newid yn yr hinsawdd yn cael ei leihau ac ymdrinir ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y Parc Cenedlaethol yn y Cynllun hwn trwy:

i. Sicrhau nad yw unrhyw waith arfordirol a diogelu rhag llifogydd, gan gynnwys adlinio rheoledig, yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu y gellid eu lliniaru'n foddhaol.

ii. Gwarchod a gwella ardaloedd coetir, pridd yr ucheldir a thir mawnog er mwyn cynorthwyo i gadw carbon, dal dŵr ac atal llifogydd.

iii. Hwyluso'r broses o helpu rhywogaethau i addasu a mudo trwy ddiogelu coridorau cysylltu cynefinoedd a chyfoethogi bioamrywiaeth.

iv. Cyfeirio datblygiadau i leoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn car preifat.

### Ynni

3.26 Mae yna draddodiad maith o ddefnyddio ynni'r dŵr i greu trydan yng Ngogledd Cymru. Mae gan yr oddeutu 20 o bwerdai trydan dŵr sefydledig sydd wedi'u lleoli yn Eryri, neu sy'n defnyddio dŵr o Eryri, ynghyd â 63 o gynlluniau trydan dŵr micro a nifer tebyg o ganiatadau microgynhyrchu eraill a gafodd ganiatad ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2011 allu cynhyrchu cyfunedig o oddeutu 94.6MW gyda'r potensial o greu 289.7GWh/yr[27]. Mae hynny yn llawer mwy na'r angen domestig yn lleol, ac mae'n golygu bod yr ardal yn allforio cyfran o'i thrydan. Mae APCE yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae'n ei wneud fel Awdurdod ar lefel genedlaethol a'r cyfleoedd posibl a all fodoli i hyn barhau trwy ddatblygu cyfleusterau newydd.

3.27 Achosodd adeiladu'r ddau bwerdy mawr yn Eryri, yr unig orsaf niwclear fewndirol yn y DU, sef yr Atomfa Magnox yn Nhrawsfynydd a'r pwerdy pwmpio dŵr yn Nhanygrisiau gerllaw (ynghyd ag un cyffelyb nid nepell o ffin y Parc yn Dinorwig), gryn ddadlau ar y pryd, nid yn unig oherwydd eu lleoliad, ond oherwydd effaith eu gwifrau foltedd uchel sy'n croesi'r Parc Cenedlaethol i gysylltu'r pwerdai i'r Grid Cenedlaethol.

3.28 Gall y cynlluniau pwmp storio Dinorwig a Thanygrisiau, (mae eu dalgylchoedd a'u cronfeydd uwch yn gorwedd o fewn y Parc Cenedlaethol), ddarparu mwy na 2000MW o fewn cyfnod amser byr iawn i ddiwallu'r galw am drydan ar gyfnodau brig, ac felly maent yn perfformio rôl hanfodol yng ngrid cenedlaethol y DU. Daeth yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Mai 2017) i'r casgliad y gallai'r Parc Cenedlaethol gynnig cyfleoedd posibl i ddatblygu ynni dŵr pellach dros gyfnod y cynllun, gan gynnwys pwmp storio. Pe bai unrhyw gynigion datblygu ar raddfa fawr yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno, byddant yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi Strategol B fel datblygiad a fydd yn cyfrannu at yr angen ynni cenedlaethol a datblygu economi carbon isel.

3.29 Mae pwerdy niwclear Trawsfynydd wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan ers 1993, ac mae nawr wrthi'n cael ei ddatgomisiynu. Gofynnir am ddefnyddiau newydd ar y safle, sy'n cynnwys busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni yn ogystal â defnyddiau cyflogaeth eraill yn y sectorau TGCh, Ynni a'r Amgylchedd, a gall cynigion datblygu ddod ymlaen wrth i ddatganiadau datgomisiynu fynd rhagddynt.

[27] Papur Cefndir 22: Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Mai 2017).

3.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targed i gynhyrchu 2GW o ddatblygiadau ynni gwynt ar y lan erbyn 2015/2017. Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru y dylid canolbwyntio datblygiadau ynni gwynt mawr ar y tir (a ddiffinnir fel rhai sy'n meddu ar allu cynhyrchu dros 25MW) i rai ardaloedd penodol a ddiffinnir fel Ardaloedd Chwilio Strategol (ACS).

3.31 Nid yw Polisi Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hepgor y Parciau Cenedlaethol fel ardaloedd i osod datblygiadau ynni gwynt bach sy'n llai na 5MW. Fodd bynnag, o ystyried maint sylweddol tyrbinau gwynt modern, sy'n aml iawn yn uwch na 100m at ben y llafn, ac yn weladwy hyd at 30km i ffwrdd, mae'n debygol y byddai hyd yn oed un tyrbin o'r maint hwn yn cael effaith weledol sylweddol andwyol ar y dirwedd, ac o'r herwydd, ni fyddai'n briodol mewn Parc Cenedlaethol. Mae'r CCA ar Sensitifrwydd a Chynhwysedd y Dirwedd (gweler uchod) yn dangos bod Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y Parc Cenedlaethol yn amrywio o sensitifrwydd Canolig-Uchel i Uchel Iawn i ddatblygiadau tyrbin gwynt. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i effaith unigol a chronnol cynigion tyrbinau gwynt yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol.

3.32 Er nad yw prosiectau cynhyrchu pŵer o ynni ar raddfa fawr yn gydnaws yn gyffredinol â statws Parc Cenedlaethol, rhoddodd asesiad o ynni adnewyddadwy yn Eryri ystyriaeth i'r posibilrwydd fod lle o bosibl i gyfrannu at leihau galw am drydan o danwydd ffosil trwy arbedion effeithlonrwydd a thrwy microgynhyrchu a datblygiadau ynni adnewyddadwy bach i ddiwallu anghenion domestig neu gymunedol. Fe all y rhain gynnwys cynlluniau trydan dŵr ar raddfa fach, tyrbinau gwynt domestig, ffotofoltäig, biomas a nwy safle tirlenwi. Efallai y bydd cynlluniau hyd at 5MW hefyd yn cynnig rhywfaint o botensial yn Eryri a byddant yn cael eu hystyried yn ffafriol, cyn belled nad ydynt yn achosi niwed i'r dirwedd, amwynder a chadwraeth natur a diddordebau treftadaeth.

3.33 Mae'r tabl isod yn cynnwys canfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy diwygiedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol (2017). Mae'n cyflwyno amcan o'r capasiti ynni adnewyddadwy damcaniaethol sydd ar gael yn Eryri. Nid yw'n gosod targed ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.

| Categori | Is-Gategori | Capasiti Potensial (MWe) [Trydan] | Capasiti Potensial (MWt) [Gwres] | Potensial Cynhyrchu (GWh) [Trydan] | Potensial Cynhyrchu (GWh) [Gwres] |
|---|---|---|---|---|---|
| Micro-wynt | | 18.4 | - | 16.1 | - |
| Biomas | Coetir a Reolir | 4 | 8 | 31.55 | 63.11 |
| | Cnydau Ynni | 5.66 | 11.33 | 44.65 | 89.31 |
| Treulio anaerobig | Tail Anifeiliaid | 0.18 | 0.28 | 1.42 | 1.2 |
| | Sbwriel Dofednod | 0.048 | 0.072 | 0.37 | 0.32 |
| | Llaid Carthion[28] | 0.07 | 0.10 | 0.52 | 0.43 |
| Nwy Tirlenwi | Peiriannau nwy | 2.13 | - | 11.2 | - |
| Ynni dŵr | Uchder isel | 1.9 | - | 6.1 | - |
| | Uchder uchel | 2.0 | - | 6.5 | - |
| Microgynhyrchu | Solar | 17.3 | 17.3 | 15.15 | 15.15 |
| | Pympiau gwres | - | 55 | - | - |
| | Cyfanswm | 51.7 | 92.1 | 133.56 | 169.52 |

28 Y bwriad yw y bydd swm sylweddol o laidcarthiau o Eryri yn cael eu cludo i'r uwch Dreuliwr yng ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth.

3.34 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Canllawiau ar Ddylunio Cynaliadwy sy'n rhoi canllaw ar osodiad a gogwydd adeiladu ac yn cynnwys manylion ynglŷn â'r gofyniad am Ddatganiadau Ynni. Hefyd mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddatblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

3.35 Gall prosiectau cynhyrchu ynni bach lleol feddu ar fuddion ychwanegol o gymryd mantais o amodau lleol ac ar yr un pryd gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau llai. Cefnogir cynigion o'r fath trwy'r polisi. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn cael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd a bod unrhyw brosiect cynhyrchu ynni adnewyddol ar raddfa fach yn cydymffurfio â Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol.

**Polisi Datblygu 3: Ynni (3)**

Lle bo'n briodol dylai Datganiad Ynni fod ynghlwm i geisiadau cynllunio naill ai ar wahân neu fel rhan o'r Datganiad Dylunio a Mynediad a dylai gymryd i ystyriaeth y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy a Datblygiadau Carbon Isel.

Ble bynnag bo'n bosib, dylai datblygiadau gael eu lleoli a'u cyfeirio i gymryd mantais o'r haul a chysgod ac ymgorffori strategaethau dylunio goddefol ac ymagwedd ffabrig yn gyntaf tuag at ddefnyddio ynni'n effeithlon. Dylid rhoi ystyriaeth i'r potensial ar gyfer manteisio i'r eithaf ar dechnolegau ynni adnewyddadwy.

**Ynni Adnewyddadwy**

Bydd cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu cefnogi os ydynt yn ymdrin yn foddhaol â'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer y technolegau amrywiol a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy a Datblygiadau Carbon Isel.

- Bydd microgynhyrchu (o dan 50kW) a chynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa lai yn cael eu hystyried yn ffafriol, ar yr amod nad ydynt yn peri niwed i fuddiannau'r dirwedd, amwynder a chadwraeth natur a threftadaeth.

- Gall cynlluniau sy'n llai na graddfa'r Awdurdodau Lleol (hyd at 5MW) hefyd gynnig rhywfaint o botensial yn Eryri a byddant yn cael eu caniatáu yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau.

Yn gyffredinol, ystyrir nad yw cynlluniau ynni adnewyddadwy Graddfa'r Awdurdodau Lleol mwy (mwy na 5MW) a Strategol yn gydnaws â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a byddai'n rhaid iddynt fodloni Polisi Strategol B; Datblygiadau Mawr.

**Mwynau**

3.36 Er bod ffin y Parc Cenedlaethol wedi'i llunio'n benodol i eithrio ardaloedd ble roedd cloddio a chwarelydda ar raddfa fawr yn digwydd, mae amrywiaeth o fwynau megis llechi, craig galed a metelau, yn cynnwys aur, copr a phlwm, wedi cael eu gweithio yn Eryri.

3.37 Mae polisi cenedlaethol fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 10 Rhagfyr 2018) yn datgan: Ni ddylai datblygiad mwynau ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Felly, mae'n rhaid i bob cais sydd a wnelo mwynau fod yn ddarostyngedig i'r mesurau archwilio mwyaf llym a dylai pob datblygiad mwynau mawr ddangos eu bod er budd y cyhoedd cyn iddynt gael caniatâd i fynd yn eu blaen (paragraff 5.14.35).

3.38 Mae Adolygiad Cyntaf 2014 o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) ar Agregau yn ddogfen sydd wedi ei pharatoi gan y Gweithgor Agregau Rhanbarthol. Ei bwrpas yw archwilio'r materion sydd ynghlwm wrth gyflenwi, a'r galw am agregau ac i wneud argymhellion ynghylch rôl y gall awdurdodau cynllunio mwynau unigol ei chwarae er mwyn sicrhau cyflenwad o fwynau i gwrdd ag anghenion cymdeithas.

3.39 Mae paragraff 49 o Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 yn nodi nad oes angen i fanciau tir gael eu cynnal o fewn y Parciau Cenedlaethol nac yn yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Am y rheswm hwn argymhellion y DTRh ar gyfer Eryri yw, na ddylai unrhyw ddyraniadau gael eu clustnodi yn y Parc Cenedlaethol, oni bai nad oes dewisiadau eraill yn dderbyniol yn amgylcheddol, a dylai ymdrechion barhau i gael eu gwneud i drosglwyddo yn raddol y swm bach iawn o waith cynhyrchu sydd ar hyn o bryd yn digwydd o fewn y Parc Cenedlaethol i Gonwy a / neu i awdurdodau cyfagos eraill.

3.40 Mae PCC (paragraff 5.14.9) hefyd yn ymofyn bod mwynau penodol yn cael eu diogelu yn y tymor hir, ymhell y tu hwnt i oes y Cynllun hwn, rhag datblygiadau a fyddai'n o bosibl yn sterileiddio eu defnydd yn y dyfodol.

3.41 Drwy nodi meysydd diogelu mwynau, gellir osgoi gwrthdaro diangen gyda mathau eraill o ddefnydd tir a sterileiddio adnoddau, ac fe ellir sicrhau adnoddau mwynau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Data a gynhyrchwyd gan Arolwg Daearegol Prydain a gyhoeddwyd fel y Map Mwynau Cenedlaethol a Map Diogelu Agregau Cymru yn dangos lleoliad a maint yr adnoddau mwynau ar hyd a lled Cymru ac mae'n tynnu sylw at yr adnoddau mwynau agregau hynny y dylid eu diogelu.

3.42 O gofio bod yn rhaid i ganiatadau newydd ar gyfer gweithio mwynau yn y Parc Cenedlaethol ddangos bod yna fudd cenedlaethol tra phwysig (DU) dim ond maint y rhai Categori Un y mae'r Map Cynigion yn eu dangos. Mae'r rhain yn adnoddau agregau manyleb uchel (AMU), e.e. calchfaen pur iawn, a chraig igneaidd galed sy'n addas ar gyfer wynebu ffyrdd, sy'n cael eu hystyried yn economaidd bwysig, ac felly o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru (ac mewn rhai achosion yn y DU). Mae'r mannau lle mae AMUau yn digwydd yn ddaearyddol gyfyngedig ac, felly, maent yn arbennig o agored i sterileiddiad. Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol diogelu'r Agregau Categori 2 helaeth a geir yn y Parc Cenedlaethol gan eu bod mewn gwirionedd yn cael eu diogelu gan bolisïau eraill yn y CDLl. Agregau Categori 2 yw:

- Yn ardaloedd a gynhwysir o fewn dynodiadau cadwraeth natur Ewropeaidd sy'n cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol gan Bolisïau yn y CDLl.
- Nid ydynt yn 'brin' mewn cyd-destun lleol ac mae'n annirnadwy y gallai unrhyw ddatblygiad ddiffrwytho unrhyw beth heblaw am ran fechan fach iawn o'r cyfanswm.
- Os cynigir unrhyw waith mwynau yn y dyfodol, mae'n annhebygol y byddai gwaith ar raddfa fawr, sy'n gweithio ag agregau gradd isel, yn bodloni'r prawf amgylchiadau 'eithriadol' a nodir mewn polisi cenedlaethol a lleol.
- Drwy beidio â diogelu adnoddau categori 2 mae'r Awdurdod yn tynnu baich oddi ar ddatblygwyr o fewn y Parc Cenedlaethol gan ddangos nad yw gweithio'r adnodd yn hyfyw yn economaidd, a fyddai'n ofynnol yn aml wrth ystyried pa mor helaeth ydynt.
- Gan fod llawer o'r tir yn fynydd ac yn rhostir, ac yn bell o briffyrdd, byddai cael mynediad i'r adnodd mewn amryw o'r ardaloedd yn anodd iawn heb greu effeithiau gweledol niweidiol sylweddol ar y dirwedd.

Fel yr amlinellir yn y rhesymau uchod, mae Agregau Categori 2 eisoes yn cael eu gwarchod i raddau helaeth iawn rhag sterileiddiad gan bolisïau Cenedlaethol a Lleol eraill.

3.43 Er bod cyfoeth o fwynau gwythïen fetelig hefyd i'w ganfod yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys aur, copr, manganîs, plwm a sinc, ni chredir bod angen nodi'r ardaloedd lle gwelir hwy, na'u gwarchod gan y byddai eu cloddio, gan fwyaf, yn defnyddio dulliau cloddio tanddaearol ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ynghylch lleoliad y siafftau a'r ceuffyrdd ar gyfer mynediad at yr adnodd. O ystyried y dadlau hir a fu ynghylch rhaglen archwilio copr Riofinex yng Nghoed y Brenin yn niwedd yr 1960au a dechrau'r 1970au, mae'n anodd iawn dychmygu unrhyw amgylchiadau yn y dyfodol agos lle byddai'n dderbyniol cloddio'r pwll agored ar y raddfa eang iawn a fyddai'n ofynnol ar gyfer symud y corff copr porffyri (200 miliwn tunnell fetrig ar 0.3% Cu) a ddarganfuwyd. Am y rheswm hwn ni chaiff yr adnodd mwynau arbennig hwn ei warchod.

3.44 Mae polisïau eraill yn y cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol cael adeiladau newydd i barchu'r traddodiad lleol ac i ddefnyddio carreg a llechi i'w hadeiladu. Mae'r cyflenwad o garreg adeiladu leol yn brin, ac yn aml defnyddir carreg o'r tu allan i'r ardal. Gall hyn edrych allan o le ac yn andwyol i'r treflun a hefyd i'r dirwedd ehangach. Efallai felly fod sgôp i agor chwareli bychain, ar sail dros dro, i gwrdd â'r angen lleol penodol hwn. Bydd caniatâd yn destun i amod i gyfyngu ar oes y gwaith ac i ddynodi'r defnydd terfynol o'r deunydd.

**Polisi Strategol E (1): Polisi Diogelu Mwynau (E(1))**

Er mwyn sicrhau y gwarchodir mwynau agregol, o ansawdd uchel mae ardal wedi ei chlustnodi fel Ardal Gwarchod Mwynau (AGM) a gellir ei gweld ar y Map Cynigion.

Ni chaniateir datblygu a fyddai'n anghydnaws â diogelu craig galed ac adnoddau tywod a graean oni bai:

i) y gall y datblygwr ddangos bod gweithio yr adnodd yn economaidd neu'n gorfforol anymarferol neu y byddai'n annerbyniol i'r amgylchedd; neu

ii) fod yr adnodd mwynau yn cael ei echdynnu yn foddhaol cyn i'r datblygiad gael ei wneud; neu

iii) fod natur y datblygiad yn un dros dro ac fe ellir ei gwblhau ac adfer y safle i gyflwr nad fyddai'n amharu ar weithrediadau echdynnu o fewn yr amserlen pan fo galw am y mwyn; neu sterileiddio'r adnodd

iv) bod yna angen hollbwysig am y datblygiad arfaethedig; neu

v) bod y datblygiad gyfystyr â datblygiadau deiliaid tai neu yn cynnwys mewnlenwi cyfyngedig o fewn ardal adeiledig bresennol.

Oherwydd bod yr AGM yn cynnwys ardaloedd o fewn, ac yn agos at, safleoedd cadwraeth natur dynodedig Ewrop, rhaid i gynigion am ddatblygiadau sy'n ymwneud â mwynau neu beidio yn yr AGM gydymffurfio â pholisïau eraill yn y cynllun hwn, a Pholisi Strategol D yn enwedig.

**Polisi Strategol E (2): Datblygiad Mwynau ar Raddfa Fawr (E(2))**

Ni ystyrir fod datblygu mwynau ar raddfa fawr yn addas yn y Parc Cenedlaethol. Yn unol â Pholisi Strategol B: Datblygiad Mawr, dim ond dan amgylchiadau eithriadol pan fo budd cenedlaethol wedi ei brofi y caniateir datblygiad mwynau ar raddfa fawr.

**Polisi Strategol E (3): Gwaredu Gwastraff Llechi a Chwareli Carreg Adeiladu (E(3))**

Bydd cynigion i symud ymaith y gwastraff llechi o chwareli presennol ac agor, neu ail-agor, chwareli bychain i gyflenwi carreg leol at ddefnydd lleol yn cael ei barnu yn erbyn Polisi Strategol B: Datblygiad Mawr a'r Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol.

Bydd pob caniatâd cynllunio gydag amodau cysylltiedig i osod terfyn amser ar y datblygiad ac i nodi defnydd terfynol y deunyddiau a chwarelwyd ac i sicrhau adferiad wedi'r gweithrediad.

**Gwastraff**

3.45 Er mwyn hyrwyddo'r amcanion cynaliadwyedd, rhaid defnyddio adnoddau a deunyddiau yn ddoeth ac mewn dull effeithiol ac effeithlon. Mae lleihau gwastraff yn un ffordd o helpu i gyrraedd yr amcanion hyn. Mae'n hanfodol felly edrych yn ofalus iawn ar gylch-bywyd cyfan y cynhyrchion a cheisio cyfleoedd i leihau faint o wastraff a gynhyrchir pryd bynnag bo'n bosib. Gellir cyflawni hyn trwy ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill deunyddiau ac ynni. Trwy fabwysiadu'r dulliau hyn, mae potensial i leihau'n sylweddol faint o wastraff a gynhyrchir.

3.46 Er bod y gofyniad i Awdurdodau Lleol i weithio gyda'i gilydd i baratoi Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi dod i ben gyda chyhoeddiad yr NCT 21 diwygiedig yn 2014, mae'r dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir ddefnyddiol, gan gynnwys Ardaloedd Chwilio Mapio sydd yn mynegi na fydd disgwyl i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dderbyn safleoedd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar raddfa ranbarthol neu isranbarthol (byddai cyfleuster graddfa ranbarthol yn darparu gwasanaeth ar gyfer holl awdurdodau lleol gogledd Cymru, byddai cyfleuster isranbarthol yn darparu cyfleusterau ar gyfer grwpiau llai o awdurdodau lleol).

3.47 Mae safle Ffridd Rasus, ger Harlech sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd ac yn cael ei weithredu ganddo, yn gyfleuster gwastraff mawr sy'n rheoli y rhan fwyaf o wastraff Eryri ynghyd â gwastraff a gynhyrchir yn rhannau deheuol o Gwynedd sydd y tu allan i ffiniau'r Parc[29]. Er fe beidiodd y gweithreiadau tirlenwi ar y safle yn 2014, mae offer compostio, gyda chynhwysedd o 5000 tunnell y flwyddyn, a gafodd ei gomisiynu yn 2008 yn parhau i weithredu). Mae'r safle yn awr yn gweithredu fel gorsaf drosglwyddo gwastsaff gyda gwastraff bwyd yn cael ei drosglwyddo i dreuliwr anaerobig Cyngor Gwynedd yn Llwyn Isaf. Mae gwastraff gweddilliol yn cael ei symud o'r Parc Cenedlaethol i'w waredu mewn mannau eraill, er fe fydd y gwastraff gweddilliol hwn yn y pen draw yn cael ei gyfeirio i waith ynni o wastraff Parc Adfer sy'n cael ei ddatblygu yng Nglannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint. Bydd y cyfleuster hwn yn derbyn tua 200,000 tunnell o wastraff o bum awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ac yn cynhyrchu 16.6 MW (net) o drydan cynaliadwy i ddiwallu anghenion dros 30,000 o gartrefi a busnesau.

3.48 Er mwyn hwyluso ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, lleihau'r swm o wastraff sydd yn mynd i dirlenwi a lleihau'r angen am gludo gwastraff bydd yr Awdurdod yn ystyried yn ffafriol geisiadau ar gyfer dulliau blaengar a mwy cynaliadwy o reoli gwastraff, a lle bo hynny'n bosibl, ar raddfa fach ac ar lefel leol yn unol â'r egwyddor o agosrwydd.

3.49 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21 yn nodi y dylid cyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff gyda phob cais am gyfleuster gwastraff; wedi'i ddosbarthu fel cyfleuster gwaredu, adennill neu ailgylchu. Diben yr Asesiad yw sicrhau, pan gyflwynir cais cynllunio, bod yr ymgeisydd yn darparu digon o wybodaeth fanwl i'r awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad. Dylai'r Asesiad Cynllunio Gwastraff fod yn briodol ac yn gymesur â natur, maint a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae cyngor pellach i'w weld yn Atodiad B o NCT 21.

29 Papur Cefndirol Gwastraff (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2016)

**Polisi Strategol F: Gwastraff (F)**

**Dyrannu Tir**

Ni ddyrennir tir i ddatblygu cyfleusterau rheoli gwastraff graddfa ranbarthol neu isranbarthol newydd.

Ni chaniateir ceisiadau am gyfleusterau rheoli gwastraff graddfa fawr newydd a fwriedir i gwrdd ag anghenion rhanbarthol neu isranbarthol.

**Polisi Datblygu 4: Safleoedd Graddfa - fach ar gyfer gwastraff tŷ a gwastraff anadweithiol (4)**

Bydd ceisiadau am ganiatad cynllunio ar gyfer ailgylchu gwastraff ar raddfa fach ar safleoedd diwydiannol ac ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff domestig ac anadweithiol, yn cael eu hystyried yn ffafriol cyn belled nad oes effeithiau amgylcheddol andwyol neu y gellir lliniaru'r rhain yn foddhaol.

Bydd angen i ymgeiswyr ym mhob achos gyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff.

**Mannau agored mewn a rhwng Aneddiadau**

3.50 Yn nhrefi a phentrefi Eryri, mae caeau chwarae, lawntiau pentrefi, tir comin, a mannau agored glas arall yn cyflawni swyddogaeth gymunedol bwysig ac amwynder lleol gwerthfawr. Yn aml, mae mannau agored yn creu'r gosodiad ar gyfer cymeriad yr adeiladau cyfagos, ac yn dylanwadu arnynt, a thrwy wneud hynny maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu gwerth. Am y rhesymau hyn, bydd mannau agored pwysig mewn aneddiadau'n cael eu diogelu rhag datblygiad. Fel eithriad i'r polisi hwn, bydd y mannau agored ym Mhentre Du, Betws y Coed yn cael eu diogelu oni bai bod angen wedi'i brofi am dai fforddiadwy. Pan fo angen lleol yn cael ei ganfod, bydd yr Awdurdod yn ystyried rhyddhau rhannau o'r mannau agored yn unol â Pholisi Datblygu 11 Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig.

3.51 Ar hyd arfordir Ardudwy, yn enwedig, mae lledaeniad datblygiadau i ardaloedd rhwng aneddiadau wedi effeithio'n raddol ar natur agored yr ardaloedd hyn ac mae'n bygwth cyfuno un anheddiad â'r llall. I bwrpasau'r polisi hwn, byddai datblygu o fewn lletemau glas yn amhriodol oni bai y gellir ei gyfiawnhau i bwrpasau amaethyddol neu goedwigaeth; ei fod yn hanfodol i chwaraeon a hamdden; mynwentydd; estyniadau neu addasiadau cyfyngedig i anheddau presennol, anheddau cyfnewid ac arallgyfeirio ar raddfa bach i adeiladau fferm neu drosi adeiladau presennol ar gyfer cyflogaeth neu dai fforddiadwy ac unrhyw ddefnydd arall o dir sy'n cadw natur agored y lletem las. Ystyrir y byddai tai fforddiadwy newydd yn amhriodol o fewn y lletemau glas, a hynny er mwyn cynnal natur agored yr ardal a rhwystro cyfuniad pellach o fewn ardaloedd cymharol fychan ac mewn Parc Cenedlaethol. Caiff datblygiadau o'r fath eu cyfeirio at ardaloedd tu allan i letemau glas fel y dangosir ym mholisi eithredig tai fforddiadwy Polisi Datblygu 11.

**Polisi Datblygu 5: Mannau agored a Lletemau glas (5)**

Bydd mannau agored cyhoeddus a phreifat o fewn neu gyfagos at brif ardal adeiliedig aneddiadau (a ddynodir ar y mapiau Manwl), sy'n cyfrannu at amwynder preswylwyr, cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth neu osodiad adeiladau hanesyddol, yn cael eu diogelu rhag datblygiad.

Ni chaniateir datblygiad amhriodol mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n lletemau glas er mwyn diogelu'r natur agored a rhwystro cyfuniad anheddiadau.



Castell Harlech ©Croeso Cymru

# Pennod 4

# Diogelu a Gwella yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff) ........ 62
Polisi Datblygu 6: Dyluniad A Deunyddiau Cynaliadwy(6) ........ 63
Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig A Thraddodiadol (7) ........ 65
Polisi Datblygu 8: Diogelu Safleoedd Nad Ydynt Wedi Eu Dynodi (8) ........ 66
Polisi Datblygu 9: Addasu A Newid Defnydd Adeiladau Gwledig (9) ........ 68
Polisi Datblygu 10: Hysbysebion Ac Arwyddion (10) ........ 69

# 4. Gwarchod a Gwella yr Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol

4.1 Mae'r rhan hon yn rhoi ymateb i'r amcanion canlynol:

I ddeall, gwerthfawrogi, diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol yr ardal gan gynnwys olion archeolegol a thirweddau hanesyddol ac i hyrwyddo datblygiad sy'n gwella treftadaeth adeiledig a threfwedd Eryri.

I ddiogelu a gwella harddwch naturiol tirwedd y Parc Cenedlaethol trwy sicrhau fod y datblygiad yn cwrdd â safonau dylunio cynaliadwy da ac yn parchu 'Rhinweddau Arbennig' yr ardal a Phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol

4.2 Mae treftadaeth adeiledig gyfoethog yn y Parc Cenedlaethol, gydag 14 o Ardaloedd Cadwraeth, 1911 o Adeiladau rhestredig, 21 o Barciau a Gerddi Hanesyddol, Castell Harlech (Safle Treftadaeth y Byd UNESCO[30]), tirweddau o ddiddordeb hanesyddol a 377[31] o Henebion Rhestredig, gan gynnwys Castell y Bere a Castell Dolwyddelan. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at gymeriad nodedig yr amgylchedd adeiledig a thirwedd y Parc. Mae gwarchod a gwella'r dreftadaeth adeiledig hon yn ffactor bwysig wrth ystyried datblygu o fewn neu'n gyfagos at yr ardaloedd arbennig hyn. Mae arwyddion o lwybrau hynafol sefydledig drwy'r dirwedd o leiaf o gyfnod Oes yr Haearn ymlaen, gan ddod yn fwy eang gyda rhwydwaith ffyrdd Rhufeinig a llwybrau'r porthmyn. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi cyflwyno mesurau newydd ar gyfer rheoli newid yn gadarnhaol yn yr amgylchedd hanesyddol. Bydd cyfres o ganllawiau a chyngor yn cael eu cynhyrchu i gyd-fynd â'r ddeddf a bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod canllawiau sy'n berthnasol i ddiogelu asedau treftadaeth yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu hymgorffori yn y Canllaw Cynllunio Atodol. Bydd y canllaw hwn, o'r enw 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn cael ei baratoi i roi arweiniad pellach ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar adeiladau neu ddynodiadau hanesyddol a sut orau i warchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol i genedlaethau'r dyfodol gael ei fwynhau. Yn ychwanegol at unrhyw ganllaw sy'n ymwneud â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, bydd y CCA yn ystyried y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru, a bydd yn pwysleisio beth sy'n bwysig yn lleol a sut y dylid ei ddiogelu a'i warchod.

### Ardaloedd Cadwraeth

4.3 Gwelir ffiniau'r 14 Ardal Gadwraeth ar y mapiau manwl; dynodwyd y rhain oherwydd eu diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig.

4.4 Pwrpas dynodi Ardaloedd Cadwraeth yw cadw a gwella diddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig y fath ardaloedd, a defnyddio mesurau positif i sicrhau cadwraeth adeiladau. Cynigir y dylai unrhyw ddatblygiad mewn Ardal Gadwraeth gael ei chynnal gyda sylw arbennig yn cael ei roi i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu edrychiad yr ardal.

4.5 Bydd adeiladau presennol yn yr Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diogelu. Ni roddir caniatâd i ddymchwel pan fo hynny'n golygu colli adeilad sy'n gwneud cyfraniad positif at yr Ardal Gadwraeth. Os cyflwynir cais i ddymchwel, bydd rhaid i gynlluniau ar gyfer ailddatblygu'r safle fod wedi derbyn caniatâd cyn y cytunir i'r cais. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i'r ymgeisydd geisio am ganiatâd cynllunio llawn, nid amlinellol, oherwydd natur sensitif yr Ardaloedd Cadwraeth.

30 UNESCO – *United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation*
31 Diweddarwyd Mai 2017

4.6 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i sicrhau fod yr Ardaloedd Cadwraeth yn parhau i gael eu diogelu rhag datblygiad amhriodol a phan fo'n bosib, fod yr ardal a'r gosodiad yn cael eu gwella. Dylai unrhyw ddatblygiad o fewn ardal gadwraeth barchu ei osodiad a'i gymeriad a chaiff ei hysbysu mewn cyfres o Gynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol, i'w paratoi gan yr Awdurdod. Bydd y cynlluniau rheoli hyn yn amlinellu 'Rhinweddau Arbennig' penodol ym mhob ardal sy'n cyfrannu at ei chymeriad, ac yn amlinellu cynigion ar gyfer diogelu a rheoli'r 'Rhinweddau Arbennig' hyn.

**Safle Treftadaeth y Byd – Harlech**

4.7 Mae dynodi safle fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn amlygu ei bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol arbennig. Mae'r Castell yn Harlech yn un o bedwar castell sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Waliau Tref Edward I yng Ngwynedd. Bydd treftadaeth gyfoethog Safle Treftadaeth y Byd Harlech yn dod yn llawer iawn mwy pwysig yn y dyfodol gyda thwf twristiaeth gynaliadwy ac fe'i gwelir fel ased economaidd ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn ogystal ag ased ddiwylliannol.

4.8 Ni ddylid caniatáu datblygiad ble y gallai gael effaith andwyol ar y safle hwn. Mae'r safle'n rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac felly'n gwarantu diogelwch rhag datblygiad amhriodol. Ymhellach, mae Safle Treftadaeth y Byd yn atyniad twristaidd pwysig o fewn y Parc Cenedlaethol. Yn 2007 ymwelodd dros 90,000 o bobl â'r castell yn Harlech. Gan fod twristiaeth yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig fod integriti'r safle yn cael ei ddiogelu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddenu ymwelwyr am flynyddoedd i ddod. Ni fydd datblygiad a fyddai'n cael effaith negyddol ar y castell, ei osodiad na'r golygfeydd ysblennydd fel y'u diffinnir yn y Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei ganiatáu gan y Parc Cenedlaethol.

**Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisiol**

4.9 Er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth addas o sut mae'r diwydiant llechi wedi dylanwadu ar dirwedd gymdeithasol, wleidyddol, economaidd a diwylliannol Cymru, ym mis Mehefin 2010 gwnaed cais llwyddiannus i Safle Treftadaeth y Byd Diwydiant Llechi Gogledd Cymru gael ei gynnwys ar restr betrus y D.U. i'w chyflwyno i UNESCO. Cyflwynwyd y rhestr betrus yn ffurfiol i UNESCO ym mis Ionawr 2012. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi'r ddogfennaeth angenrheidiol i gefnogi enwebiad ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd y Diwydiant Llechi. Er mwyn gwarchod y safleoedd posibl ni chaniateir unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisiol na'i leoliad. Mae'r safle'n cynnwys 7 gwahanol ardal ledled Gwynedd a bydd y safleoedd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dangos ar fapiau cyfyngiadau CDLI.

**Parciau a Gerddi Hanesyddol**

4.10 Mae Cadw yn cynnal cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru sydd mewn dwy ran Rhan 1: Parciau a Gerddi a Rhan 2.1 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol a Rhan 2.2 Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. Mae'r parciau a gerddi hanesyddol yn cael eu graddio ar sail eu pwysigrwydd a'u gwerth hanesyddol ac maent yn cynnwys gradd I, II II*. Dangosir lleoliadau'r Gerddi hyn ar y mapiau cynigion. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol warchod a gwella parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a'u gosodiadau ac fe ddylent fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Hefyd gofynnir i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cadw ar geisiadau lle mae datblygiadau'n debygol o effeithio ar safle parc a gardd hanesyddol cofrestredig, neu ei osodiad. Ar hyn o bryd, mae 21 o Barciau a Gerddi Hanesyddol o fewn y parc ar y gofrestr a gedwir gan Cadw.

4.11 Mae rhai o'r Parciau a Gerddi Hanesyddol hefyd yn cynnwys gerddi llysiau a ddylai gael yr un lefel o ddiogelwch rhag datblygiad amhriodol. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol ar Yr Amgylchedd Hanesyddol yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch Parciau a Gerddi Hanesyddol, eu gosodiadau, a datblygiad priodol oddi mewn iddynt.

4.12 Gellir canfod manylion pellach yng Nghynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth, a'r Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r polisi Cenedlaethol a gynhwysir yn Polisi Cenedlaethol Cymru hefyd yn rhoi trosolwg da o sut y dylid cymhwyso polisiau Cenedlaethol yn lleol.

**Polisi Strategol Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Ff)**

Bydd y dirwedd hanesyddol, asedau treftadaeth a threftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu cadw a'u gwella, oherwydd eu cyfraniad at gymeriad a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Rhoddir diogelwch arbennig i'r asedau archeolegol, pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol a ble bo'n briodol, eu gosodiad.

Ni chaniateir datblygiad a fydd yn effeithio'n andwyol mewn unrhyw fodd ar yr Asedau Treftadaeth canlynol, neu ble bo'n briodol eu gosodiad a'u golygfeydd arwyddocaol:

i. Ardaloedd Cadwraeth
ii. Safleoedd Treftadaeth y Byd
iii. Safleoedd Treftadaeth y Byd Ymgeisiol
iv. Henebion Rhestredig a safleoedd eraill o bwysigrwydd archeolegol
v. Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol
vi. Adeiladau Rhestredig
vii. Adeiladau Traddodiadol

**Dylunio Cynaliadwy a Deunyddiau**

4.13 Er mwyn cynnal hynodrwydd a chymeriad yr aneddiadau o fewn y Parc Cenedlaethol, mae'n bwysig fod unrhyw ddatblygiad newydd yn ffitio'i mewn gyda phatrwm a chymeriad yr anheddiad presennol. Mae Canllaw Cynllunio Atodol Dylunio i Ddatblygiad Cynaliadwy ar gael, ac fe fydd yn cael ei ategu gan ganllaw penodol Eryri i sicrhau hynodrwydd lleol trwy ddyluniad. Mae'r ddogfen yn amcanu at annog datblygiadau newydd i fod yn gynaliadwy, o ansawdd uchel ac i wella golwg y Parc Cenedlaethol. Nod y polisi Cenedlaethol a gynhwysir yn PCC yw symud tuag at adeiladau mwy cynaliadwy a charbon niwtral yng Nghymru, ac un ffordd y gellid sicrhau hynny yw trwy ofalu bod pob adeilad newydd yn cydymffurfio â safonau adeiladu Cenedlaethol. Yn ogystal ag ystyried y polisi isod, bydd yn bwysig croesgyfeirio at Bolisi Datblygu 3 ar Ynni i sicrhau bod lleihau ynni'n cael ei gynnwys mewn dyluniad o'r cychwyn cyntaf, a chaiff ei gynnwys mewn datganiad ynni.


Castell y Bere

**Polisi Datblygu 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy(6)**

Er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy o fewn y Parc Cenedlaethol bydd pob ffurf o ddatblygiad adeiledig newydd yn cyrraedd o leiaf y gofynion adeiladu cynaliadwy cenedlaethol.

Wrth ystyried gosodiad y Parc Cenedlaethol ac ymrwymiad yr Awdurdod tuag at gynhwysedd cymdeithasol, bydd angen i geisiadau datblygu gymryd i ystyriaeth yr hyn a ganlyn:

i. Dyluniad cynhwysol
ii. Diogelu a gwella'r dirwedd
iii. Diogelu a gwella bioamrywiaeth
iv. Yr amgylchedd hanesyddol
v. Cynaliadwyedd amgylcheddol
vi. Hunaniaeth ddiwylliannol
vii. Datganiad ynni integredig

Yn y Parc Cenedlaethol, bydd yn ofynnol defnyddio llechen fwynol Gymreig neu ddefnydd cywerth cymeradwy gyda'r un nodweddion lliw, gwedd a hindreulio ar adeiladau ac estyniadau newydd.

Fel eithriad i'r defnydd o doeau llechi mwynau, rhoddir ystyriaeth i ddeunyddiau naturiol o liw a gwead priodol yn ogystal â chynigion ynni adnewyddadwy wedi'u dylunio a'u lleoli'n briodol.

Dylai'r cais hefyd gyd-fynd â Polisi Datblygu 3: Ynni.

**Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol**

4.14 Mae 1911 o adeiladau wedi cael eu rhestru fel rhai o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig o fewn y Parc Cenedlaethol, 13 yn Radd I a 119 o adeiladau yn rhai Gradd II*. Er mwyn diogelu'r dreftadaeth hon, mae cyfyngiadau'n angenrheidiol os yw adeiladau pwysig i'w diogelu rhag newid digydymdeimlad. Dim ond pan ddangosir na fydd niwed sylweddol i gymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig neu osodiad yr adeilad y bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i unrhyw waith adeiladu Adeilad Rhestredig, p'un a yw'n fewnol neu allanol neu o fewn ei gwrtil.

4.15 Cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau i adeiladau rhestredig, bydd yr Awdurdod angen manylion llawn a rhestr eiddo o'r adeilad yn ei gyflwr presennol. Mewn achosion penodol ble bo'r adeilad yn enghraifft arbennig o wych, neu bo natur a maint y gwaith yn ei orfodi, efallai y bydd yn briodol gwneud arolwg mwy manwl yn ofynnol cyn i unrhyw waith gael ei wneud. Dylid osgoi dymchwel adeilad Gradd I neu II* ar bob cyfrif. Dylai pob cais i ddymchwel, yn cynnwys tynnu ymaith nodweddion mewnol, fod angen Caniatâd Adeilad Rhestredig.

4.16 Mae'n bwysig asesu'r effaith y bydd datblygiad arfaethedig yn ei gael ar osodiad unrhyw Adeilad Rhestredig sydd gerllaw. Felly bydd yr Awdurdod angen cyflwyniad cais llawn yn hytrach na chais amlinellol am unrhyw gais datblygiad sy'n agos at Adeilad Rhestredig fel bod effaith weledol lawn y cais cyfan yn cael ei asesu'n llawn. Dylai'r datblygiad arfaethedig barchu cymeriad ac arddull yr Adeilad Rhestredig yn nhermau ei leoliad, graddfa, dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir i'w adeiladu.

4.17 Cynhwysir manylion ynghylch dulliau dylunio derbyniol a deunyddiau addas i'w defnyddio i addasu neu ailddefnyddio adeiladau rhestredig ac adeiladau ar ffurf draddodiadol yng Nghanllawiau Dylunio'r Awdurdod. Dylai ceisiadau cynllunio gynnwys manylion am yr holl newidiadau a gwaith arall er mwyn dangos effaith y cais ar olwg, cymeriad a gosodiad yr adeilad.

4.18 Bydd manylion pellach ynghylch datblygiad priodol mewn ac o amgylch adeiladau rhestredig ar gael yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Bydd y canllaw hwn hefyd yn amlinellu'r amodau o amgylch y meini prawf sy'n angenrheidiol cyn y bydd dymchwel adeiladau rhestredig yn cael ei ganiatáu.

**Adeiladau mewn Risg**

4.19 Er mwyn cynorthwyo gyda thargedu cyllid a chymorth grantiau ar gyfer trwsio neu gynnal a chadw adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, mae'r Awdurdod yn cadw cofrestr o 'Adeiladau mewn Risg[31]. Bydd yr Awdurdod yn cynghori perchnogion y fath adeiladau ynghylch y ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar y gofrestr, ynghylch technegau addas ar gyfer eu cadw a'r ffynonellau cymorth grantiau sydd ar gael ar gyfer gwaith trwsio neu adfer. Mewn achosion o esgeulustod bwriadol o 'Adeiladau mewn Risg' bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i ddiogelu eu hintegriti.

**Addasu a newid defnydd Adeiladau rhestredig ac Adeiladau o Werth Pensaernïol Traddodiadol Lleol**

4.20 Mae Adeiladau rhestredig a'r traddodiad cyfoethog o wahanol arddulliau adeiladu ac amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n adlewyrchu ac yn nodweddu'r traddodiad pensaernïol lleol yn cyfrannu llawer at gymeriad Eryri. Er nad ydynt yn cyrraedd statws 'arbennig' Adeiladau rhestredig, mae'r Adeiladau Traddodiadol hyn yn dal i fod angen diogelwch rhag newid amhriodol.

4.21 Pan fo angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasu adeilad sydd ym marn yr Awdurdod gyda nodweddion sy'n adlewyrchu'r traddodiad pensaernïol lleol neu adeilad o arddull yr ardal, bydd yr Awdurdod yn sicrhau fod y raddfa, dyluniad, a'r deunyddiau a dulliau arfaethedig a ddefnyddir ar gyfer y gwaith yn cyd-fynd â chymeriad yr adeilad gwreiddiol. Ni chaniateir unrhyw gais sydd o raddfa, dyluniad, neu sy'n dibynnu ar ddeunyddiau yr ystyrir yn amhriodol. Rhaid cymryd gofal hefyd i ddiogelu unrhyw safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur ac yn enwedig rhywogaethau a warchodir sy'n fwy tebygol o fyw mewn adeiladau hŷn.

4.22 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi llunio rhestr a chofnod ffotograffig o adeiladau sydd, er nad oes ganddynt rinweddau Adeilad Rhestredig, yn cael eu hystyried yn arwyddocaol am eu bod yn cyfrannu at gymeriad a thraddodiadau pensaernïol lleol yr ardal. Nid yw'r rhestr hon yn ddiddiwedd ac mae eiddo ychwanegol yn cael eu hychwanegu ati nawr ac yn y man. At ddibenion y polisi fe'u gelwir yn adeiladau traddodiadol oherwydd eu harwyddocâd a'u cyfraniad i bensaerniaeth lleol.

31 Diffinnir 'Adeiladau mewn Risg' fel adeiladau rhestredig neu adeiladau traddodiadol sydd â theilyngdod pensaernïol mor bwysig ac sydd dan fygythiad fel eu bod yn cael eu cynnwys ar gofrestr a fabwysiadwyd gan awdurdod cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.



Dolgellau



**Polisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol (7)**

Dim ond pan ellir dangos na fydd niwed sylweddol i gymeriad hanesyddol neu bensaernïol arbennig a gosodiad yr adeilad neu nodweddion hanesyddol y bydd ceisiadau ar gyfer addasu, ymestyn neu newid defnydd adeilad rhestredig neu draddodiadol, p'un ai'n fewnol neu allanol, yn cael ei gefnogi.

Dim ond pan fo'r meini prawf canlynol yn cael eu boddhau y bydd addasiad neu newid defnydd adeilad rhestredig neu draddodiadol yn cael ei ganiatáu:

i. Fod y cais yn cadw'r cyfraniad a wneir gan yr adeilad i gymeriad y Parc Cenedlaethol.
ii. Fod y deunyddiau a'r gorffeniadau a ddefnyddir yn y gwaith adeiladu'n gydnaws ym mhob ffordd â'r rhai yn y strwythur gwreiddiol.
iii. Fod y cais yn cydymffurfio â'r holl bolisïau perthnasol yn y cynllun hwn, yn enwedig Polisi Datblygu 9: Addasu a newid defnydd adeiladau gwledig.
iv. Na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar osodiad adeilad rhestredig neu draddodiadol.

Bydd angen arolwg strwythurol annibynnol pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad neu pan ystyrir y gallai'r gwaith arfaethedig arwain at ailadeiladu mawr neu sylweddol.

Dylai ceisiadau cynllunio gynnwys manylion o'r holl addasiadau a gweithiau eraill er mwyn dangos effaith y cais ar olwg, cymeriad a gosodiad yr adeilad a chynnwys arolygon rhywogaethau ble bo yn berthnasol ac urhyw fanylion lliniaru arfaethedig.

**Adeiladau rhestredig yn unig:**

Fel arfer, ni chaniateir ychwanegu llestri lloeren, paneli solar amhriodol, ffenestri neu ddrysau upvc, na nodweddion modern eraill.

Dim ond o dan yr amgylchiadau prinnaf y caniateir dymchwel, neu rannol ddymchwel, Adeilad Rhestredig, pan fo'r Awdurdod wedi'i argyhoeddi na ellir cadw'r adeilad, neu ran ohono, neu nad yw werth ei gadw. Rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn gwbl fodlon y bydd yr ailddefnydd arfaethedig o'r safle yn dod â buddiannau i gymeriad neu amwynder yr ardal neu'r Parc Cenedlaethol ehangach sy'n gorbwyso colli'r adeilad.

Mewn achos o esgeulustod bwriadol i adeiladau rhestredig mewn risg, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cymryd camau i ddiogelu'r adeilad(au).





Bryn Dinas

33 Darperir manylion o ble y bydd angen arolygon rhywogaethau yn Canllaw Cynllunion Atodol

### Asedau archeolegol

4.23 Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylid bod rhagdybiaeth o blaid cadwraeth ffisegol safleoedd a henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod felly'n gwrthod caniatáu datblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar y fath safle yn Eryri. Ar hyn o bryd mae 377 o'r fath safleoedd (Henebion Rhestredig) o fewn y Parc Cenedlaethol[34].

4.24 Nid yw'r rhan helaethaf o safleoedd hanesyddol ac archeolegol gan gynnwys safleoedd archeolegol diwydiannol, yn cael eu diogelu'n statudol. Mae oddeutu 10,000 o safleoedd wedi eu dogfennu yng nghofnod Awdurdod Parc Cenedlaethol ac ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol (sy'n cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd). Mewn nifer o achosion, ni wyddys beth yw pwysigrwydd ac arwyddocâd y safleoedd hyn. Dengys profiad fod nifer o safleoedd na cofnodwyd hyd yma mewn ardaloedd nad ydynt wedi derbyn fawr o sylw archeolegol hyd yn hyn. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, mabwysiedir dull rhagofalus tuag at ofal a diogelwch henebion o fewn y broses ddatblygu.

4.25 Pan fo datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar safle o bwys sydd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol, neu pan nad yw arwyddocâd y safle wedi ei bennu cyn hynny, bydd yr Awdurdod angen i'r ymgeisydd gyflwyno, cyn penderfynu ar y cais cynllunio, asesiad annibynnol o bwysigrwydd y safle gan arwain o bosib at werthusiad maes. Darperir cyngor ar y gofynion yn y Canllaw Cynllunio Atodol 'Yr Amgylchedd Hanesyddol'[35].

**Polisi Datblygu 8: Diogelu safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi (8)**

Bydd datblygiad a allai gael effaith negyddol ar safleoedd sydd o ddiddordeb archeolegol neu a gydnabyddir o ddiddordeb treftadaeth leol yn cynnwys safleoedd archeoleg diwydiannol nad ydynt wedi eu rhestru yn:

i. Cael eu dyfarnu yn nhermau pwysigrwydd cynhenid yr ased treftadaeth a maint posib y niwed.

ii. Ei wneud yn ofynnol ble'n briodol cynnal asesiadau archeolegol ac asesiadau maes cyn i geisiadau gael eu penderfynu.

Os yw ceisiadau'n dderbyniol ond effallai y cânt effaith niweidiol ar safle bydd amod yn cael ei roi yn datgan na ddylai unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes y bydd rhaglen waith archeolegol gytunedig wedi ei chynnal.

### Addasu a newid defnydd Adeiladau Gwledig

4.26 Mae adeiladau gwledig yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ansawdd a chymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol. Gallant gynnwys adeiladau rhestredig neu rai nad ydynt wedi eu rhestru, er enghraifft tai wedi eu gadael[36], capeli, ysgolion ac ysguboriau amaethyddol. Yn aml mae'r adeiladau hyn yn bwysig yn bensaernïol ac yn hanesyddol ac mae canfod defnydd newydd iddynt yn cynnig ffordd o gadw'r adeiladau hyn yn llwyddiannus. Bydd adeiladau gwledig sy'n dal i fod mewn rhyw fath o ddefnydd cymunedol/ busnes yn cael eu diogelu rhag newid defnydd o'r defnydd presennol dan Bolisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol a Pholisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy.

4.27 Tu draw i Ffin Datblygu Tai unrhyw anheddiad, mae ailddefnydd adeiladau gwledig megis ysguboriau maes neu siediau amaethyddol yn medru darparu ffynhonnell o dai fforddiadwy newydd a chynnig ffordd o gadw Adeiladau gwledig yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae angen gofal mawr wrth benderfynu ar addasrwydd adeilad ar gyfer ei ailddefnyddio fel annedd preswyl, er mwyn osgoi niweidio naill ai gymeriad yr adeilad gwreiddiol neu'r amgylchedd ble mae wedi'i leoli. Rhaid talu sylw arbennig i ddiogelu rhywogaethau a warchodir a dylid darparu mesurau lliniaru mewn cynlluniau trosi lle bo angen.

34 Diweddarwyd Mai 2017
35 A fydd yn cael ei gynhyrchu a'i ymgynghori arno yn dilyn mabwysiadu y cynllun.
36 Tŷ wedi ei adael yw eiddo sydd wedi peidio cael ei ddefnyddio fel preswylfan, fel y'i diffinnir gan Gorchymyn Dosbarth Defnydd.

4.28 Felly ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu addasu adeilad nad yw'n un preswyl i ddefnydd preswyl oni bai y gellir dangos fod y cais yn adlewyrchu cymeriad gwreiddiol yr adeilad ac yn parchu ei osodiad. Bydd achlysuron pan na fydd yr Awdurdod, oherwydd sensitifrwydd y safle, yn caniatáu addasu adeilad i ddefnydd preswyl o dan unrhyw amgylchiadau.

4.29 Ym mhob achos, er mwyn i unrhyw adeilad gael ei ystyried yn addas i'w drawsnewid, rhaid iddo fod â ffurf neu gymeriad sy'n cyfrannu at ei amgylchedd ac sy'n haeddu ei gadw. Yn ychwanegol, rhaid i'r adeilad fod o adeiladwaith parhaol a sylweddol, wedi'i ddiffinio i bwrpasau'r Cynllun hwn fel adeilad sydd â waliau strwythurol sy'n amlwg yn gadarn, gyda tho uwchben sy'n gyfan i bob pwrpas. Ni chaniateir ceisiadau sydd angen dymchwel ac yna ailadeiladu helaeth ar rannau sylweddol o unrhyw wal strwythurol oddi mewn i'r adeilad er mwyn ei wneud yn sefydlog neu i gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu presennol. Ystyrir y fath geisiadau fel adeiladu tŷ newydd yng nghefn gwlad agored.

4.30 Ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu addasu unrhyw adeilad y mae ei waliau strwythurol wedi cwympo ac sy'n amlwg yn adfail. Pan fo amheuaeth ynghylch integriti strwythurol adeilad, neu ble nad yw'n amlwg, bydd yr Awdurdod angen i'r ymgeisydd gynhyrchu cadarnhad gan Reolaeth Adeiladu fod modd addasu'r adeilad heb ailadeiladu sylweddol gan ddangos fod yr eiddo, yn ei stad bresennol, o adeiladwaith parhaol a sylweddol. Yn ychwanegol at brofi ei integriti strwythurol, rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos na fyddai defnydd preswyl arfaethedig yn cymryd lle defnydd presennol sydd angen adeiladu adeilad arall ar ei gyfer, er mwyn caniatáu i'r defnydd barhau. Ym mhob achos ble bo cais am ailddefnyddio adeilad gwledig yn dderbyniol, bydd yr Awdurdod angen i'r ymgeisydd ddangos y bydd preswylydd y tŷ newydd yn boddhau gofynion paragraff 5.26 & 5.27. Gall taliadau gohiriedig tai fforddiadwy fod yn dderbyniol gyda cheisiadau i addasu adeilad gwledig. Cynhwysir manylion pellach yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.

4.31 Mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod hi'n bwysig bod ailddefnyddio'r adeiladau hyn er budd trigolion ac economi leol y Parc Cenedlaethol. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 yn amlinellu bod addasu ar gyfer llety gwyliau ar ffermydd yn gallu cyfrannu at yr economi wledig leol a gallai leihau'r pwysau ar dai eraill yn yr ardal at ddibenion gwyliau. Felly, bydd yr Awdurdod yn cefnogi trosi adeiladau gwledig segur fel rhan o Cynllun Menter Gwledig sy'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth fel sy'n ofynnol gan Nodyn Cyngor Technegol 6.

4.32 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23 yn amlinellu'r ffaith bod ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig presennol yn gallu chwarae rhan bwysig o ran diwallu anghenion ardaloedd gwledig at ddibenion cyflogaeth. Felly, mae'r Awdurdod yn cefnogi trosi adeiladau gwledig segur ar gyfer y defnydd hwn. Fodd bynnag, ni ddylai'r trosiad arwain at weithgareddau ar raddfa fawr a fyddai'n cael effaith andwyol ar fywyd aneddiadau cyfagos.

**Polisi Datblygu 9: Addasu a newid defnydd adeiladau gwledig (9)**

Bydd addasu neu newid defnydd adeiladau gwledig diangen tu allan i unrhyw Ffin Datblygu Tai yn cael ei ganiatáu ar gyfer tai fforddiadwy i fodloni angen lleol, defnydd cyflogaeth, llety gwyliau hunan arlwyo tymor byr fel rhan o gynllun menter gwledig, neu annedd marchnad agored gyda taliad swm gohiriedig ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu cwrdd:

i. Fod yr adeilad o adeiladwaith parhaol a sylweddol, o ffurf a chymeriad traddodiadol â gwerth pensaernïol sydd werth ei gadw.
ii. Fod modd addasu'r adeilad heb yr angen am ailadeiladu neu ymestyn sylweddol a fyddai'n niweidio'i gymeriad presennol.
iii. Fod yr holl weithiau allanol yn cynnwys gorffeniadau a ffiniau eiddo yn gydymdeimladol â chymeriad yr adeilad, arddull a deunyddiau adeiladau lleol, ac nad ydynt yn niweidio cymeriad unrhyw grŵp o adeiladau cyfagos.
iv. Nad yw'r cais nac unrhyw strwythurau ategol yn niweidio cymeriad y dirwedd ble maent wedi eu lleoli.
v. Nid yw'r cynnig yn arwain at greu mynediad newydd i gerbydau neu fannau parcio a fyddai'n effeithio yn andwyol ar gymeriad neu ymddangosiad adeilad neu'r dirwedd ehangach.

Ble bo'r cais yn cynnwys Adeilad Rhestredig neu adeilad o ffurf neu ddyluniad traddodiadol, fod y cais yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol.

Dim ond pan fo gofynion Polisi Strategol G: Tai yn cael eu cwrdd y rhoddir caniatâd ar gyfer aneddiadau fforddiadwy newydd gan gynnwys y posibilrwydd o symiau gohiriedig.

Bydd angen arolwg strwythurol annibynnol pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad neu pan ystyrir y byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at ailadeiladu mawr neu sylweddol.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos na fyddai'r defnydd arfaethedig yn disodli'r defnydd presennol sy'n golygu codi adeilad arall i'w alluogi i barhau.



Penmaen

**Hysbysebion ac Arwyddion**

4.33 Nid yw arwyddion a hysbysebion sydd wedi'u lleoli mewn eiddo busnes angen caniatâd cynllunio cyn belled â'u bod oddi mewn i'r terfynau maint a ganiateir gan y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebu) 1992. Fodd bynnag, mae'r Parc Cenedlaethol yn Ardal o Reolaeth Hysbysebu Arbennig ac mae hyn yn rhoi pwerau ychwanegol i reoli arwyddion. Bwriedir i faen prawf iv) a v) o Bolisi Datblygu 10: Hysbysebion ac Arwyddion ymwneud ag arwyddion ar gyfer atyniadau twristaidd llai sydd oddi ar y ffordd. Bwriedir yr arwyddion gwyn ar frown mwy cyfarwydd ar gyfer atyniadau twristaidd mwy sydd fel arfer wedi'u lleoli ar gefnffyrdd neu ffyrdd dosbarth A ac y cytunir arnynt â'r awdurodau priffyrdd lleol.

4.34 Dim ond pan ellir dangos fod y fath arwydd yn angenrheidiol ac nad yw'n niweidio amwynder yr ardal nac yn peryglu diogelwch y cyhoedd y rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion.

4.35 Anogir arwyddion a hysbysebion dwyieithog a bydd yr Awdurdod yn ystyried y gofod ychwanegol sydd ei angen ar gyfer hynny wrth ystyried y ceisiadau. Er y gall arwyddion sydd wedi'u goleuo fod yn niweidiol os ydynt wedi'u lleoli'n an-sensitif, gall goleuo fod yn dderbyniol os yw'n gydymdeimladol â'i amgylchedd.

**Polisi Datblygu 10: Hysbysebion ac Arwyddion (10)**

Dim ond os boddheir y meini prawf canlynol y caniateir hysbysebion neu arwyddion preifat ar eiddo busnes:

i. Nad yw'r arwydd yn niweidio cymeriad adeilad neu olygfa amlwg.
ii. Nad yw'r arwydd yn cael ei oleuo'n fewnol.
iii. Nad yw maint na graddfa'r arwydd yn andwyol i gymeriad, edrychiad a gosodiad yr adeilad lle'i lleolir, neu'r dirwedd gyfagos ac nad yw'n ymdebygu i arwydd priffordd.

Caniateir uwch arwyddion atyniadau twristiaeth os ydynt yn boddhau'r holl feini prawf ychwanegol canlynol:

iv. Nad yw'r atyniad i'w weld o gefnffordd neu briffordd ac nad yw wedi ei leoli mewn tref neu bentref.
v. Fod yr arwydd o'r maint lleiaf bosib.

Gellir caniatáu arwyddion a oleuir yn allanol pan fo'r meini prawf canlynol yn cael eu boddhau:

vi. Fod angen i'r arwydd gael ei oleuo er mwyn i gwsmeriaid allu dod o hyd i'r busnes sy'n agored ar ôl iddi dywyllu.
vii. Nad yw effeithiau'r goleuadau'n cyfaddawdu diogelwch ffordd, niweidio cymeriad y safle, ei amgylchedd nac amwynder y gymdogaeth.
viii. Nad yw effeithiau'r golau'n cael unrhyw effaith andwyol ar lonyddwch.



Penmachno

# Pennod 5

# Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Polisi Strategol G : Tai (G) ..... 79
Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy (30) ..... 80
Polisi Datblygu 11: Tai Fforddiadwy Ar Safleoedd Eithriedig (11) ..... 82
Polisi Datblygu 12: Cartrefi Gofal Preswyl A Thai Gofal Ychwanegol (12) ..... 83
Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn A Theithwyr (13) ..... 84
Polisi Datblygu 14: Llety Rhandy (14) ..... 85
Polisi Datblygu 15: Estyniadau (15) ..... 85
Polisi Datblygu 16: Adleoli Aneddiadau Presennol (16) ..... 86
Polisi Datblygu 17: Tynnu Ymaith Amod Daliadaeth Amaethyddol A Llety Gwyliau (17) ..... 86
Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau A Chyfleusterau Cymunedol (Ng) ..... 87
Polisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg A Ffabrig Cymdeithasol A Diwylliannol Cymunedau (18) ..... 89

# 5. Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy

5.1 Mae'r rhan hon yn rhoi ymateb i'r amcanion canlynol:

Cefnogi datblygiad priodol sy'n cwrdd ag angen tai'r gymuned leol, gan ystyried yn arbennig tai fforddiadwy i bobl leol.

Cefnogi darpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol drwy'r ardal gyfan.

Annog cyfleusterau hamdden cymunedol ble maent yn cwrdd ag angen lleol a ble nad ydynt yn gwrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc.

Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi hyfywedd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n ansensitif i'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

**Tai**

5.2 Mae materion tai wedi ymddangos fel prif faes pryder i lawer o gymunedau yn y Parc. Prinder tai fforddiadwy i'w rhentu neu i'w prynu yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu llawer o gymunedau yn Eryri. Mae'r incymau lleol yn y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol isel a'r cyfleoedd am gyflogaeth cyflog uwch yn gyfyngedig. Mae cyfuniad o'r ffactorau hyn yn creu anawsterau i bobl leol gael mynediad i'r farchnad dai. Mae hygyrchedd a fforddiadwyedd tai yn ffactor hanfodol mewn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir ein cymunedau gwledig. Gwaethygir y problemau gan ganran sylweddol o ail gartrefi a thai gwyliau yn y Parc Cenedlaethol a all gael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd cymunedau lleol. Mae maint aelwydydd cyfartalog yn y Parc wedi dirywio er bod cyfradd ffurfio aelwydydd newydd yn arafu yn sgil y ffaith bod pobl iau yn byw gartref am gyfnod hwy neu'n rhannu aelwydydd. Gall strwythur oed a chymdeithasol cyfnewidiol poblogaeth Eryri fygwth lles cymunedau a hyfywedd ysgolion lleol, busnesau a gwasanaethau lleol a chyfleusterau. Mae'n hanfodol i ddyfodol y Parc Cenedlaethol fod poblogaeth gytbwys yn cael ei sicrhau. Felly, mae sicrhau darpariaeth o gyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol yn enwedig rhai pobl ifanc a henoed yn bwysig.

5.3 Er nad yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn awdurdod tai, mae ganddo rôl i reoleiddio a hwyluso'r ddarpariaeth dai cyhoeddus a phreifat trwy'r broses gynllunio ac i barhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r sector gyhoeddus a phreifat i helpu cyflenwi er mwyn cwrdd ag anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol. Mae strategaeth dai'r cynllun yn amcanu at gydbwyso tair ystyriaeth bwysig:

- Faint o dir sydd ei angen i gwrdd â'r amcan o anghenion tai yn y dyfodol yn yr ardal.
- Cynhwysedd yr amrywiol aneddiadau i gynnwys rhagor o ddatblygiad tai.
- Ceisio cwrdd â'r angen lleol am dai fforddiadwy.

**Gofynion tai**

5.4 Mae'r ffigurau gofyniad tai yn y Cynllun yn seiliedig ar amcanestyniadau o aelwydydd 2014 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhagolygon poblogaeth hyd at 2029 sy'n seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth 2014 wedi dangos poblogaeth sy'n dirywio yn y Parc Cenedlaethol.Ystyrir bod amcanestyniadau 2014 yn fwy cywir nag amcanestyniadau 2008 gan fod y rhagdybiaethau blaenorol wedi eu hail-raddnodi yn dilyn cyfrifiad 2011. Mae'r amcanestyniadau yn dangos bod cyfradd ffurfio aelwydydd newydd yn arafu yn y Parc wrth i bobl iau aros gartref am gyfnod hwy neu rannu aelwydydd gyda ffrindiau. Bydd poblogaeth sy'n dirywio a chyfradd ffurfio aelwydydd arafach yn lleihau'r galw am dai newydd. Mae'r rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd a materion eraill yn cael eu trafod yn fwy manwl ym Mhapurau Cefndirol Tai Strategol 1 a 2. Wrth benderfynu ar ffigwr gofynnol tai terfynol, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gyfraddau cwblhau'r gorffennol ac ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n benodol i'r Parc Cenedlaethol yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol. Wrth ystyried y ffactorau uchod cyfrifwyd yr angen am dai newydd yn ystod oes y cynllun fel 770 annedd (51 annedd y flwyddyn) rhwng 2016 a 2031.

5.5 Felly mae angen dyrannu digon o dir yn y Cynllun Datblygu Lleol i gynnwys 770 o anheddau dros gyfnod y Cynllun. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cyfraniad cyflenwad tir presennol cyfraniad potensial safleoedd bychan (llai na 5 uned)[37], safleoedd mawr (5 neu fwy) a chyfraniad amcangyfrifiedig o addasiadau. Er mwyn galluogi mwy o hyblygrwydd yn y Cynllun, mae nifer wrth gefn o 115 uned (15%) wedi ei chynnwys yn y tabl isod. Mae'r nifer wrth gefn i alluogi ar gyfer safleoedd sydd heb ddod ymlaen ac mae'n darparu digon o hyblygrwydd yn y Cynllun fel y gellid darparu tai i gwrdd â'r targedau.

**Crynodeb o'r Cydrannau Cyflenwad Tai – 01$^{af}$ Ebrill 2016**

| | | |
|---|---|---|
| **A** | Nifer a gwblheir 01/04/2016 – 31/03/2031 (Safleoedd bach a mawr) | 0 |
| **B** | Safleoedd wedi'u hymrwymo / banc tir | 288 |
| **C** | Dyraniadau Tai | 184 |
| **Ch** | Cyfraniadau Safleoedd bach | 338 |
| **D** | Cyfraniadau Safleoedd Mawr | 75 |
| **Dd** | Cyfanswm y ddarpariaeth tai 2016 – 2031 | 885 |

37 Mae'r wybodaeth hon wedi'i arddangos yn yr Astudiaeth Cynhwysedd Aneddiadau (Parc Cenedlaethol Eryri 2017)



Dolgellau

### Dosbarthiad eang twf tai newydd

5.6 Fel rhan o'r broses i archwilio ble gallai tir am dai fod ar gael i gwrdd ag anghenion tai i'r dyfodol, mae'r holl aneddiadau yn y Parc wedi cael eu gwerthuso er mwyn asesu eu cynhwysedd ar gyfer tai[38]. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r strategaeth datblygiad gofodol[39] yn rhoi cyfeiriad trosfwaol y bydd y Strategaeth yn arwain lleoliad datblygiad tai. Cynigir bod dyraniad tai i'r dyfodol yn unol â'r strategaeth ofodol a amlinellir ym mhennod 2 ac sy'n adlewyrchu hierarchaeth gynaliadwy o aneddiadau. Mae dosbarthiad twf hefyd yn adlewyrchu dylanwadau canolfannau gwasanaeth tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Cynigir graddfa gymesurol uwch o ddatblygiad o fewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol ac Aneddiadau Gwasanaeth y Parc Cenedlaethol i adlewyrchu cynaliadwyedd yr ardal yn nhermau digonolrwydd y cyfleusterau a chynhwysedd yr amgylchedd lleol. Fodd bynnag, yn y Canolfannau Gwasanaeth lleol ac Aneddiadau Gwasanaeth mae peth cyfyngu ar ofod oherwydd amodau llifogydd yn enwedig yn y Bala a Dolgellau. Mae'n bwysig cydnabod, er mwyn cynnal bywiogrwydd a hyfywedd yn yr Aneddiadau Llai, o gofio bod yna 39 o Aneddiadau Eilaidd, y bydd angen cyfeirio rhywfaint o ddatblygiadau tuag at yr aneddiadau hyn. Mae'r nifer yn y pen draw o unedau tai, serch hynny, yn gymharol fach ac yn gymesur â maint y pentrefi unigol. Mae'n rhaid cydnabod hefyd bod angen – hyd yn oed yn yr Aneddiadau Llai – rhai cyfleoedd datblygu er mwyn cynnal cymunedau lleol. Cafodd pob un o'r Aneddiadau Llai hefyd eu harolygu i asesu eu gallu i gymryd datblygiadau pellach. Yn yr aneddiadau hyn caniateir 2 uned i bob anheddiad ar gyfer angen profedig am dai fforddiadwy. Bwriedir monitro faint o dai newydd sy'n cael eu codi yn yr aneddiadau hyn yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn cael rhyw syniad o'r angen sy'n codi ac ystyried p'un a ddylid codi'r cwota ar gyfer Aneddiadau Llai.

5.7 Yn y tabl isod amcangyfrifir nifer y tai a gwblhawyd oddi mewn i bob haen anheddiad rhwng 2016 a 2031 gan gymryd i ystyriaeth safleoedd gyda chaniâtad cynllunio arnynt eisoes, ac hefyd gyfraniad o safleoedd hap ac addasiadau:

| | Cydrannau Cyflenwad Tai | Lleol | Anheddiadau Gwasanaeth | Anheddiadau Eilaidd | Anheddiadau Llai | Cefn gwlad agored | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Unedau a chaniatad cynllunio (ar ddyddiad cychwynnol y Cynllun (2016) | 90 | 38 | 120 | 11 | 29 | 288 |
| B | Dyraniadau | 80 | 40 | 64 | - | - | 184 |
| C | Safleoedd bach (llai na 5) | 63 | 30 | 141 | 65 | 39 | 338 |
| Ch | Safleoedd Mawr (5 neu fwy) | 30 | 23 | 22 | - | - | 75 |
| D | Cyfanswm Darpariaeth Tai<br>% Targed ym mhob haen anheddiad | 263<br>29.2% | 131<br>14.8% | 347<br>39.2% | 76<br>8.6% | 68<br>7.7% | 885 |

5.8 Bydd twf pob anheddiad yn cael ei fonitro i sicrhau y bydd dosbarthiad datblygiad newydd yn cyd-fynd gyda'r strategaeth ofodol i sicrhau nad ydi anheddiad yn cynnwys twf gormodol.

5.9 Oddi mewn i Gynghorau Cymuned Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Tywyn, Corris, Llandygai, Abermaw, Bethesda a Chlynnog (sy'n torri ar draws ffin y Parc Cenedlaethol), bydd yr angen tai lleol i'r dyfodol yn cael ei gyflenwi tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac oddi mewn i Ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd. Yng Nghynghorau Cymuned Penmaenmawr, Conwy, Llanfairfechan a Henryd bydd angen lleol i'r dyfodol yn cael ei gyflenwi oddi mewn i ardal awdurdod cynllunio lleol Conwy.

38 Astudiaeth Cynhwysedd Anheddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2017
39 Ceir manylion pellach ym Mhapur Cefndir Strategaeth Datblygu Gofodol 2017 a Papur Cefndir Parthau Dylanwad 2017

**Asesiad Marchnad Dai Leol**

5.10 Mae'r asesiad marchnad dai leol ar gyfer Cyngor Gwynedd a Chonwy yn rhoi ffigwr angen tai fforddiadwy dangosol ar gyfer ardaloedd Gwynedd a Chonwy o fewn ffin y Parc o tua 2130 o dai dros gyfnod y cynllun cyfan. Bydd yr Awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda Gwynedd a Conwy a defnyddio canfyddiadau y AMDLl i lywio'r math o anedd sydd ei angen yn nhermau cymysgedd maint a daliadaeth. Mae rhagor o wybodaeth am angen tai ar gael gan gofrestrau tai cymdeithasol a chanolradd er gall y data hwn fod yn rhywbeth annibynadwy yn sgil cyfrif dwbl. Mae ffigwr cyffredinol angen tai fforddiadwy a nodwyd yn yr AMDLl yn llawer uwch na'r hyn y gellir ei ddarparu'n ymarferol yn y Cynllun o ystyried y ffigwr gofyniad tai cyffredinol cymharol isel. Mae canfyddiadau eraill o'r drafft o Asesiad Marchnad Dai Leol fel a ganlyn:

- Mae'r stoc aneddiadau yn Eryri yn un berchen-ddeiliaid yn bennaf.
- Mae lefel uchel o hunan gyfyngiant o fewn yr ardal.
- Mae pwysau tai yn arbennig o ddwys yn Eryri oherwydd harddwch yr ardal a'r ansawdd bywyd mae'r dirwedd yn ei gynnig.
- Mae pwysau gan 'potiau mel' twristaidd sy'n arwain at amrywiaethau tymhorol yn y galw am lety.
- Mae pwysau mudo a'r galw am ail gartrefi a/neu dai i ymddeol iddynt yn faterion o bwys.

5.11 Mae canllaw Llywodraeth Cymru ar ymgymryd ag Asesiadau Marchnad Dai Leol yn nodi yng nghyd-destun aneddiadau gwledig fod arolwg ychwanegol ar lefel y gymuned yn ffordd ymarferol o asesu anghenion tai mewn ardaloedd gwledig gan y gall angen tai fod yn lleol iawn mewn ardaloedd gwledig. Er mwyn gwella'r wybodaeth ar anghenion tai lleol a helpu cyflenwi tai fforddiadwy yn Eryri, mae'r Awdurdod wedi cyllido'n rhannol Hwylyswyr Tai Gwledig. Rôl y Hwylysydd Tai Gwledig yw gweithredu fel brocer annibynnol, diduedd, yn gweithio ar ran cymunedau lleol, yn cynorthwyo cymunedau i sicrhau atebion wedi'u teilwra i gwrdd ag angen tai lleol dynodedig, ac i helpu cymunedau gynnal arolygon angen tai. Gall yr arolygon angen tai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparu'r angen tai lleol a'r math o ddaliadaeth sy'n angenrheidiol adeg y cais. Er bod arolygon lleol mwy manwl wedi eu cynnal ar gyfer y CDLIE gwreiddiol, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau ni fu'n bosibl ailadrodd y broses hon a diweddaru'r wybodaeth. Dangosodd yr arolygon gwreiddiol hyn angen tai fforddiadwy o oddeutu 427 o anheddau dros gyfnod o 15 mlynedd.

5.12 Os cymerir y dystiolaeth gyda'i gilydd mae'r ffigurau angen tai fforddiadwy yn dangos angen tai fforddiadwy llawer uwch o 2130 o unedau. Mae hyn yn uwch na'r gofyniad tai cyffredinol ar gyfer y Cynllun gyfan ac ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n amgylcheddol dderbyniol neu y gellir ei gyflawni'n ymarferol o'i gymharu â chyfraddau cwblhau tai fforddiadwy'r gorffennol o 19 uned rhwng 2012 – 2016. Mae'r ystyriaethau eraill yn cynnwys lefel y cyllid a ragwelir fydd ar gael yn y dyfodol i helpu i adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd. Nid yw arian cyllido'r dyfodol yn sicr, ond nid yw'n debygol y bydd yn parhau ar y lefel gyfredol yn sgil toriadau'r Llywodraeth. Mae safleoedd ar gyfer tai yn y Parc Cenedlaethol hefyd yn fychan; felly mae'n rhaid i'r cyfraniad o gartrefi fforddiadwy ddod o fwy o safleoedd llai. Mae hyfywedd datblygu safleoedd dichonol wedi'i brofi ac mae'n dangos hyfywedd amrywiol ar draws y Parc Cenedlaethol ac mae hyn yn debygol o gael effaith ar y cynhwysedd cyffredinol i ddarparu a chyflawni tai fforddiadwy. O ystyried yr holl ffactorau uchod, mae'r targed tai fforddiadwy cyffredinol wedi'i osod yn realistig ar 375 o dai.

**Cwrdd â'r Targed Tai fforddiadwy**

5.13 Fforddiadwyedd tai lleol yw un o'r prif faterion y dylid ymdrin â nhw. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflenwi tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol, ond mae'n cydnabod mai dim ond un o'r mecanweithiau y gellir eu defnyddio ar gyfer darparu tai fforddiadwy yw cynllunio defnydd tir.

5.14 Mae safleoedd datblygu sy'n amgylcheddol dderbyniol yn gyfyngedig; felly mae'n bwysig, ble bo safleoedd o'r fath yn bodoli, y dylai fod elfen o dai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. O ganlyniad, mae'r prif bwyslais ar ddatblygiad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar ddarparu lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau Eryri ble bo hynny'n cydymffurfio â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

5.15 Mae targed tai fforddiadwy y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei seilio ar asesiad realistig o'r hyn sydd yn debygol o gael ei gyflawni a beth gaiff ei ddarparu o fewn cynhwysedd amgylcheddol y Parc Cenedlaethol. Mae'r ffigwr o 375 o unedau yn cynrychioli 25 uned y flwyddyn. Rhagwelir y caiff yr unedau hyn eu darparu fel fforddiadwy canolradd, neu dai cymdeithasol ar rent ar gyfer pobl na allant fforddio'r farchnad agored. Caiff y stoc dai hwn ei gadw am byth er mwyn sefydlu ystod o dai ar gyfer budd cymdeithasol ac economaidd o fewn y Parc Cenedlaethol, a hynny am bris is na thai marchnad agored.

5.16 Roedd Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy 2016 yn edrych ar hyfywedd datblygiadau tai. Mae'n dangos mai safleoedd â grantiau fydd yr unig rai sy'n gallu darparu 100% tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Mae hyfywedd safleoedd wedi bod yn heriol yn y cynllun gwreiddiol ac mae amharodrwydd benthycwyr i gynnig morgeisi ar gyfer hunan-adeiladu a safleoedd bach wedi gwaethygu'r broblem. Mae Papur Tai 2 yn egluro'n fanylach y rhesymeg y tu ôl i gyfraniad canrannol amrywiol tai fforddiadwy yn ôl y math o anheddiad yn seiliedig ar hyfywedd. Cydnabyddir y gall fod yn anodd cwrdd â'r targed mewn rhai aneddiadau ond mae'r Cynllun yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfleoedd tai fforddiadwy mewn marchnad dai anodd. Mae'r Awdurdod hefyd yn ceisio caniatáu adeiladu rhai tai marchnad cyn rhoi'r targed fforddiadwy ar waith. Caiff deiliadaeth lleol tai fforddiadwy a'u gwerth yn y dyfodol eu rheoli gan gytundeb cyfreithiol Adran 106. Mae'n debygol y bydd rhai addasiadau yn rhy gostus i aros yn fforddiadwy. Mewn amgylchiadau o'r fath ac yn unol â Pholisi Datblygu 9 bydd yn bosibl talu swm gohiriedig i ddileu'r gofyniad tai fforddiadwy. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol iawn y bydd symiau gohiriedig yn berthnasol i gynigion eraill.

| | **Darpariaeth amcangyfrifiedig a gyflenwir** |
|---|---|
| Cyflenwad wedi ymrwymo | 72 uned |
| Safleoedd ar hap bach o fewn ffiniau datblygiad tai | 66 uned |
| Safleoedd ar hap mawr o fewn ffiniau datblygu tai | 25 uned |
| Dyraniad cymysg (Bala, Harlech, Llanegryn, Trefriw, Dyffryn Ardudwy) | 31 uned |
| 100% dyraniadau tai fforddiadwy | 87 uned |
| Addasiadau (o fewn a thu allan i ffiniau datblygiad) | 40 uned |
| Tai fforddiadwy mewn aneddiadau llai | 54 uned |
| **Cyfanswm** | **375** |

**Darpariaeth tai newydd**

5.17 Mae'r ffiniau datblygu tai wedi'u pennu ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth Lleol, ac Aneddiadau Gwasanaeth, ac Aneddiadau Eilaidd ac maent wedi'u diffinio ar y map cynigion. Mae'r ffiniau datblygu tai yn dangos yr ardal lle cyfeirir datblygiad tai i'r dyfodol fel rheol. Mae faint o dir sydd o fewn y ffin yn adlewyrchu statws yr anheddiad oddi mewn i'r hierarchaeth Anheddiad, yr anghenion rhagweladwy am dai a chynhwysedd amgylcheddol yr anheddiad.

5.18 Mae Dolgellau a'r Bala sydd wedi eu dynodi fel Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn cael eu trin yn wahanol i aneddiadau eraill y Parc Cenedlaethol. Maent â gwell gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth i gefnogi tai newydd. Hefyd ystyrir bod gan Dolgellau a'r Bala y capasiti i dderbyn datblygiad graddfa fach heb andwyo safle'r iaith Gymraeg. Caniateir tai marchnad agored ar safleoedd bychain a safleoedd hap oddi mewn i'r ffin datblygu tai yn Nolgellau a'r Bala[34]. [38]Yn Nolgellau a'r Bala, pan fo'r datblygiad ar gyfer 5 neu ragor o unedau, bydd yr awdurdod yn ceisio negodi o leiaf 20% o unedau tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol. Bydd targed cymysg y safle arfaethedig y tu ôl i'r Llew Coch yn y Bala yn cynnwys 20% o dai fforddiadwy a 80% o dai marchnad agored. Oherwydd maint y safle ac er mwyn cynnal hunaniaeth a thraddodiad Cymreig y dref, yn ogystal â darparu tai fforddiadwy i fodloni anghenion hirdymor, penderfynwyd cyflwyno'r gwaith adeiladu fesul dau gyfnod penodol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod rhan o'r safle'n parhau i fod ar gael tuag at ddiwedd oes y Cynllun. Hefyd dyrannwyd safleoedd 100% tai fforddiadwy yn y Bala a Dolgellau.

5.19 Fe all fod achosion lle na ellir darparu'r cyfraniad canrannol o dai fforddiadwy oherwydd materion hyfywedd safle. Os gellir profi hynny'n glir trwy ddadansoddiad ariannol, bydd yr Awdurdod yn trafod cyfraniad canrannol llai neu daliad gohiriedig i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy yn rhywle arall. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw drafodaethau'n berthnasol i safleoedd eithriedig neu'r rhai a gyflwynwyd mewn aneddiadau llai.

5.20 Mae'r tabl canlynol yn rhoi amcangyfrif o nifer yr unedau a gynigir ar gyfer pob safle a ddyrennir ar y mapiau manwl:

| **Dyraniadau** | **Unedau** |
|---|---|
| Tir tu cefn i Red Lion, Y Bala (80% tai marchnad agored, 20% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol). Rhyddhau 30 uned hyd 2021 ac, os y'u hadeiladwyd, y 25 uned sy'n weddill o 2026 hyd 2031 | 55 |
| Tir yn Cysgod y Coleg, Y Bala (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 10 |
| Tir gerllaw Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 10 |
| Tir gerllaw Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy (50% tai marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 5 |
| Cyn Ysggol Gynradd, Aberdyfi (100% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 6 |
| Llanfrothen (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 6 |
| Dolgellau (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 15 |
| Llanuwchllyn (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 7 |
| Tir ger Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy (100% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 6 |
| Trefriw (50% tai marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 5 |
| Dolwyddelan (100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 6 |
| Tir ger Penyrhwylfa, Harlech (67% marchnad agored, 33% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 24 |
| Llanegryn (50% tai marchnad agored, 50% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol) | 8 |
| Tir ger Bryn Deiliog, Llanbedr (100% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 6 |
| Tir ger Bro Prysor, Trawsfynydd (100% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 10 |
| Tir ger Maesteg, Pennal (100% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 5 |
| **Cyfanswm** | **184** |

38 Diffinnir ffiniau datblygu tai ar Fapiau Manwl y Cynllun Datblygu Lleol.

5.21 Oddi mewn i ffin datblygu tai Aneddiadau Gwasanaeth bydd yr Awdurdod yn ceisio 33% tai fforddiadwy ar safleoedd o 3 annedd neu fwy. Oddi mewn i Anheddiad Eilaidd ar safleoedd heb eu neilltuo bydd angen 50% tai fforddiadwy ar safleoedd o 2 neu fwy o unedau. Oddi mewn i Aneddiadau Llai, caniateir dwy uned sengl tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol yn union cyfagos at eiddo sy'n bodoli'n barod fel y dangosir ar y map cynigion. Bwriad tai o'r fath yw helpu i gynnal yr aneddiadau lleiaf un ac i bobl leol sy'n dymuno aros yn eu cymunedau lleol neu ddychwelyd iddynt. Yn eithriadol, mewn dadansoddiad fesul achos, lle bo angen profedig, bydd yr Awdurdod yn ystyried caniatáu mwy na dau dŷ mewn anheddiad lle bo tystiolaeth gref o gefnogaeth a chynnwys y gymuned i gyflwyno safle neu safleoedd. Fodd bynnag, caiff y sefyllfa ei monitro yn ystod oes y Cynllun i geisio dosbarthiad cyfartal o dai fforddiadwy mewn aneddiadau llai ac i ddiogelu eu cymeriad a'u gosodiad.

5.22 Fel eithriad i'r polisi hwn, defnyddir tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig yn union gerllaw ffiniau datblygiad tai hefyd, oddi mewn i feini prawf caeth, ble yr ystyrir mai dyma yw'r opsiwn gorau. Gan fod tystiolaeth wedi dynodi'r angen ar gyfer tai fforddiadwy i gyfrannu at greu cymunedau cytbwys a chynaliadwy, mae'r Awdurdod hefyd wedi dynodi safleoedd i'w dyrannu ar gyfer 100% o dai fforddiadwy. Tu allan i'r ffin datblygu tai bydd trawsnewid adeiladau traddodiadol addas yn dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol neu'n annedd marchnad agored gan dalu swm gohiriedig tuag at dai fforddiadwy yn rhywle arall yn cael ei ystyried cyn belled â'i fod yn cwrdd â meini prawf rheoli datblygu llym. Asesir ceisiadau am annedd newydd yng nghefn gwlad agored yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y canllaw cynllunio cenedlaethol ond fel rheol dim ond ar gyfer anheddau menter wledig neu ddatblygiadau un blaned y caniateir anheddau newydd.

5.23 Heblaw am adeiladu unedau tai fforddiadwy newydd mae hefyd lefel cymharol uchel o eiddo gwag tymor hir yn y Parc Cenedlaethol y gellid dod â nhw'n ôl i ddefnydd i bwrpasau tai ac mewn llawer o achosion byddant yn rhoi buddiannau adfywio ehangach. Bydd peth o'r diffyg tai fforddiadwy a ddynodwyd yn y Parc yn cael ei gwrdd gan eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd. Mae'n bwysig bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i helpu dod â'r eiddo gwag tymor hir hyn yn ôl i ddefnydd preswyl parhaol fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol. Mae polisïau tai'r Cynllun Datblygu Lleol yn cysylltu gyda Strategaethau Eiddo Gwag Gwynedd a Chonwy trwy hwyluso adferiad eiddo gwag tymor hir a throi adeiladau gwag priodol eraill yn ôl i ddefnydd preswyl parhaol fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

5.24 Mae'r Awdurdod yn amcanu at gyfyngu ar faint eiddo i fod yn gymesur ag anghenion yr aelwyd arfaethedig, ond hefyd yn cydnabod rôl yr eiddo i gwrdd ag anghenion y gymuned am dai fforddiadwy i'r dyfodol. Yng nghyswllt yr holl dai fforddiadwy newydd ar gyfer anghenion lleol, bydd hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer estyniadau'n cael eu tynnu'n ôl i wneud yn siŵr nad yw estyniad neu altrad ddim yn cynyddu gwerth yr eiddo tu draw i dŷ fforddiadwy sy'n cwrdd ag angen lleol. O gymryd ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau tai fforddiadwy mae'n ddewisol bod tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol yn cael eu darparu ar y safle. Mewn amgylchiadau eithriadol gall symiau gohiriedig fod yn dderbyniol. Bydd symiau gohiriedig yn arbennig o berthnasol lle bydd datblygiad arfaethedig yn creu'r angen am dai fforddiadwy 'rhannol' h.y. cyfraniad tai fforddiadwy sy'n gyfystyr â llai nag uned gyfan. Lle byddai cyfraniadau'n cyfateb i lai nag un uned, bydd angen symiau gohiriedig sy'n gyfatebol i'r cyfraniad rhannol. Efallai y bydd symiau gohiriedig yn cael eu defnyddio i hwyluso darpariaeth tai fforddiadwy gan gymdeithas dai neu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol rywle arall yn y Parc Cenedlaethol. Mae rhagor o fanylion ynghylch y math o fodelau tai fforddiadwy, gwybodaeth ynghylch gofynion angen lleol gan ymgeiswyr, gwybodaeth ynghylch symiau gohiriedig, canllawiau arwynebedd llawr a materion cysylltiedig eraill wedi eu hamlinellu yn y Canllaw Cynllunio Atodol (4) Tai Fforddiadwy.

**Polisi Strategol : Tai (G)**

Mae gan Gynllun Datblygu Lleol Eryri ofyniad cynllun o 770 o anheddau ac mae'n darparu ar gyfer tua 885 o anheddau newydd hyd at 2031.

Bydd angen i dai newydd yn y Parc Cenedlaethol gwrdd ag angen cymunedau lleol. Rhaid i geisiadau gymryd ystyriaeth briodol o anghenion tai lleol yn nhermau maint, math a daliadaeth eiddo. Dylai'r mathau o dai adlewyrchu canlyniadau'r Asesiad Marchnad Dai Leol neu unrhyw arolygon anghenion lleol priodol.

Dylai datblygiadau preswyl wneud y defnydd gorau o dir. Bydd yr Awdurdod yn ceisio dwysedd o 30 annedd yr hectar ar gyfer datblygiadau preswyl (oni bai fod amgylchiadau lleol megis cymeriad yr ardal sy'n awgrymu y gall dwysedd is fod yn fwy priodol).

Rhestrir dyraniadau tai isod ac fe'u dangosir ar y Mapiau Cynigion a Mewnosodiadau.

| Hierarchiaeth | Dyraniadau | Unedau amcangyfrifedig |
|---|---|---|
| Canolfan Wasanaeth Leol | Tir y tu ôl i'r Llew Coch, Y Bala (80% o'r farchnad agored, 20% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol). Rhyddhau 30 uned hyd at 2021 ac, os adeiladwyd, y 25 uned sy'n weddill o 2026 i 2031 | 55 |
| Canolfan Wasanaeth Leol | Tir yng Nghysgod y Coleg, Y Bala (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol) | 10 |
| Canolfan Wasanaeth Leol | Tir y tu ôl i Wenallt, Dolgellau (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol) | 15 |
| Anheddiad Gwasanaeth | Cyn Ysgol Gynradd, Aberdyfi (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol | 6 |
| Anheddiad Gwasanaeth | Tir ger Penyrhwylfa, Harlech (67% o'r farchnad agored 33% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 24 |
| Anheddiad Gwasanaeth | Tir ger Bro Prysor, Trawsfynydd (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 10 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol) | 10 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Capel Horeb, Dyffryn Ardudwy (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol) | 5 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Garreg Frech, Llanfrothen (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol) | 6 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Maes y Pandy, Llanuwchllyn (100% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol) | 7 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 6 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir yn y Cyn Felin Wlân, Trefriw (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol) | 5 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Rathbone Terrace, Dolwyddelan (100% o dai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol) | 6 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir yn Y Rhos, Llanegryn (50% o'r farchnad agored, 50% o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol) | 8 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Bryn Deiliog, Llanbedr (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 6 |
| Anheddiad Eilaidd | Tir ger Maesteg, Pennal (100% o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol) | 5 |
| | **Cyfanswm** | **184** |

**Polisi Datblygu 30: Tai Fforddiadwy (30)**

Mae cyfleoedd datblygu wedi'u nodi o fewn y Cynllun i ddarparu targed o 375 o dai fforddiadwy newydd i ddiwallu anghenion lleol.

Ceisir y cyfraniadau tai fforddiadwy a ganlyn ar bob safle:

i. O fewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol 20% ar safleoedd o 5 annedd neu fwy

ii. O fewn Aneddiadau Gwasanaeth 33% ar safleoedd o 3 annedd neu fwy

iii. O fewn Aneddiadau Eilaidd 50% ar safleoedd o 2 annedd neu fwy

iv. O fewn anheddiadau llai sy'n union gyfagos at eiddo wedi'i amlygu fel y dangosir ar y mapiau mewnosod, hyd at ddau annedd sengl newydd ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Fel eithriad, caniateir mwy na dau annedd lle mae'r angen wedi cael ei brofi a ble na chaiff cymeriad a lleoliad yr anheddiad ei amharu.

v. Ar safleoedd sy'n cael eu datblygu gan Gymdeithasau Tai, Ymddiriedolaethau neu gyrff tebyg a gymorthdelir 100%.

vi. Ar gyfer trosiadau mewn unrhyw le, 50% neu gyfraniad swm gohiriedig ar gyfer un annedd. Fel arall, gall y trosiad fod yn 100% fforddiadwy gydag amodau meddiannaeth leol.

Pan fydd cynigion preswyl cyfagos a chysylltiedig yn arwain at niferoedd cyfunol neu faint safleoedd sy'n fwy na'r trothwyon uchod, bydd yr Awdurdod yn ceisio tai fforddiadwy yn seiliedig ar y canrannau targed tai fforddiadwy a nodwyd uchod.

Os gellir dangos yn glir na ellir cwrdd â'r targedau tai fforddiadwy mynegol uchod yn sgil hyfywedd safleoedd, neu y gellir mynd y tu hwnt iddynt mewn rhai achosion, bydd yr Awdurdod yn trafod cyfraniad tai fforddiadwy priodol ar safleoedd unigol, a all gynnwys taliad gohiriedig priodol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i safleoedd eithriedig na safleoedd mewn aneddiadau llai lle ceisir cyfraniad fforddiadwy o 100% bob amser.

Bydd caniatâd cynllunio ar gyfer annedd fforddiadwy newydd yn destun i gytundeb cyfreithiol i sicrhau ei fod yn aros yn fforddiadwy am byth i berson lleol mewn angen tŷ fel y'i diffinnir ym mharagraff 5.26 a 5.27.

Dylai unedau tai fforddiadwy newydd gael eu hintegreiddio'n llawn a dylent fod cystal os nad gwell nag unedau tai marchnad yn nhermau ansawdd a deunyddiau dylunio allanol.

Bydd maint unedau tai fforddiadwy gymesur ag anghenion yr aelwyd arfaethedig.

Bydd hawliau datblygu a ganiatawyd ar yr holl unedau tai fforddiadwy yn cael eu tynnu ymaith er mwyn rheoli'r modd y gallent gael eu hymestyn yn y dyfodol.

5.25 Dylai'r tai fforddiadwy a ddarperir gwrdd ag anghenion pobl leol. Mae'r paragraffau canlynol yn diffinio 'angen tai' a 'lleol' ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol:

**Diffiniad 'angen tŷ':**

5.26 Ni all y deiliad arfaethedig fforddio rhentu na phrynu llety yn yr ardal leol ar y 'farchnad agored' ac mae'n cydymffurfio gydag un o'r meini prawf a ganlyn:

- mae'n ddigartref ar hyn o bryd.
- yn sefydlu aelwyd newydd am y tro cyntaf.

- wedi bod yn byw mewn llety rhent ers o leiaf dair blynedd.
- ystyrir eu tŷ presennol gan yr Awdurdod Tai i fod mewn cyflwr is-safonol a gellir profi na ellir addasu'r tŷ presennol na'i uwchraddio i gwrdd â'u hangen.
- mae eu tŷ presennol yn rhy fychan i'r teulu a gellir profi na ellir addasu'r tŷ presennol na'i uwchraddio i gwrdd â'u hangen.
- gydag angen hanfodol i fyw'n agos at berson arall sydd â lleiafswm o 10 mlynedd o breswyliaeth barhaol a pharhaus yn yr ardal gymhwyso, yr angen hanfodol yn deillio o oed neu resymau meddygol a brofir.
- gyda gofynion penodol (henoed neu anabl).
- yn darparu gwaith neu wasanaeth allweddol neu sydd â chynnig swydd llawn amser barhaol yn yr ardal gymhwyso.
- yn gadael tŷ gweithglwm ar ymddeoliad.
- nad oes llety addas ar gael yn yr ardal a bod yr unigolyn yn dymuno aros o fewn y gymuned leol am resymau economaidd neu ddiwylliannol.

**Diffiniad o 'lleol'**

5.27 Yn ychwanegol a bod angen tŷ, rhaid i ddeiliaid arfaethedig tai newydd fforddiadwy foddhau'r diffiniad o berson lleol. Mae diffiniad o berson lleol yng nghyswllt pob math o anheddiad fel a ganlyn:

- Canolfannau Gwasanaeth Lleol (Dolgellau a'r Bala):
  Mae person yn lleol os yw ef/hi wedi byw neu weithio mewn cyflogaeth llawn amser parhaol am leiafswm cyfnod o bum mlynedd yn barhaus o fewn yr 'ardal gymhwyso' h.y. ffin weinyddol flaenorol cyngor dosbarth Meirionnydd neu unrhyw ardal cyngor cymuned sydd union gerllaw'r ardal hon.

- Aneddiadau Gwasanaeth, Aneddiadau Eilaidd ac Aneddiadau Llai:
  Mae person yn lleol os yw ef/hi wedi byw neu weithio mewn cyflogaeth llawn amser parhaol am leiafswm cyfnod o bum mlynedd yn barhaus o fewn yr 'ardal gymhwyso' h.y. ardal Cyngor Cymuned ble y bwriedir y datblygiad neu mewn ardal Cyngor Cymuned sydd union gerllaw'r ardal honno.

Ble bo unrhyw ardal Cyngor Cymuned yn torri ar draws ffin y Parc Cenedlaethol, yna mae holl ardal y Cyngor Cymuned tu allan i'r Parc yn dod i mewn i'r ardal gymhwyso.



Penmachno

### Tai fforddiadwy ar Safleoedd eithriedig

5.28 Mae polisi cenedlaethol yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio polisi safle eithriedig gwledig sy'n caniatáu datblygu safleoedd bychain y byddai datblygiad tai newydd fel rheol yn mynd yn groes i bolisi, ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Cydnabyddir na fydd rhai aneddiadau o bosib gyda digon o dir o fewn eu ffiniau datblygu tai. I dai fforddiadwy gael eu caniatáu fel eithriad, rhaid profi nad oes safle addas yn bodoli o fewn y ffin datblygu tai ar gyfer datblygiad o'r maint hwnnw. Os mai dyna yw'r achos, a bod angen wedi'i brofi am anghenion lleol ychwanegol trwy arolwg anghenion tai cyfredol neu ar gyngor ysgrifenedig yr awdurdod tai lleol, bydd yr Awdurdod yn ystyried rhyddhau safleoedd tu allan i ffiniau datblygu tai ar gyfer tai fforddiadwy fel eithriad ar yr amod nad yw'r safle o fewn dynodiad lletem las yn unol â Polisi Datblygu 5 Tir Agored a Lletemau Glas. Ystyrir bod datblygiadau tai newydd yn amhriodol o fewn ardaloedd o'r fath. Rhaid i'r tai fforddiadwy aros yn fforddiadwy ac ar gael i bobl leol am byth. Bydd daliadaeth yr uned yn destun i gytundeb cyfreithiol sy'n cyfyngu ar breswyliaeth i berson lleol mewn angen fel y'i diffinnir ym mharagraff 5.26 a 5.27. Amlinellir rhagor o fanylion ynghylch graddfa'r tai fforddiadwy a ganiateir a'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cais cynllunio am dai fforddiadwy yn y Canllaw Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy. Pan fo aneddiadau yn croesi ffiniau'r Parc dylid rhoi ystyriaeth i ddod o hyd i safle eithriedig priodol mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod cyffiniol.

### Polisi Datblygu 11: Tai fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig (11)

I gynnal cynaliadwyedd cymunedau lleol, bydd ceisiadau am unedau tai fforddiadwy graddfa fach yn union gerllaw'r ffin datblygu tai yn cael eu cefnogi ar yr amod bod:

i. Yr angen am dai fforddiadwy wedi'i ddangos trwy Arolygon Angen Tai Lleol cymeradwy neu gyngor ysgrifenedig yr awdurdod tai lleol.

ii. Na ellir boddhau'r angen o fewn cyfnod rhesymol o amser trwy:
   a) Ddefnydd safle addas o fewn ffin datblygu tai'r anheddiad.
   b) Ddefnydd tai presennol sydd ar gael i'w prynu neu rentu yn yr ardal.
   c) Addasiad neu adferiad neu ailddatblygiad unrhyw adeiladau presennol yn yr ardal.
   d) Ddefnydd o safle a ddyrannwyd ar gyfer tai fforddiadwy.

iii. Mae'r safle'n ailddatblygiad o adeiladau presennol neu'n cynrychioli estyniad rhesymegol a chydymdeimladwy o'r anheddiad mewn ffordd nad yw'n rhagfarnu yn erbyn cymeriad yr anheddiad hwnnw neu olwg y cefn gwlad o amgylch.

iv. Bod maint y datblygiad yn gymesur â maint yr anheddiad.

v. Ni fyddai effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

vi. Nid yw'r safle o fewn dynodiad lletem las.

Bydd caniatâd cynllunio'n destun i gytundeb cyfreithiol i sicrhau ei fod yn parhau'n fforddiadwy am byth i berson lleol mewn angen fel y'i diffinnir ym mharagraff 5.26 a 5.27.

Bydd maint unedau tai fforddiadwy yn cael eu cyfyngu i fod yn gymesur ag anghenion yr aelwyd arfaethedig.

Bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael ei dynnu ymaith o'r holl unedau tai fforddiadwy er mwyn rheoli'r modd y gallant gael eu hymestyn yn y dyfodol.

Dylai pob uned newydd fod o ddyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel yn unol â Pholisi Datblygu 6: Dylunio a Deunyddiau Cynaliadwy, a chyflawni gofynion ansawdd datblygu llywodraeth y cynulliad sy'n cynnwys safon cartrefi am oes.

### Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol

5.29 Mae nifer sylweddol o sefydliadau gofal preswyl yn bodoli drwy'r Parc ac mae'r Awdurdod yn ystyried ble fo'r ddarpariaeth yn ddigonol i gwrdd ag anghenion rhesymol yn ardal leol, y dylid gwrthod datblygiad pellach. Bydd dull o'r fath yn osgoi rhoi pwysau gormodol ar ddarparwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lleol a'r tir cyfyngedig o fewn aneddiadau presennol, y gallai gael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau eraill. Cyn gwneud penderfyniad ar gais i greu neu ymestyn cartref gofal, bydd yr Awdurdod yn ystyried cyngor y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Tai Lleol ynghylch a oes angen sefydliadau o'r fath.

5.30 O safbwynt datblygiad cynaliadwy, mae'r Awdurdod yn ystyried bod y ddwy Ganolfan Wasanaeth Leol a'r Aneddiadau Gwasanaeth, yn darparu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer cartrefi preswyl i'r henoed. Mewn lleoliadau ble fo'r Awdurdod yn fodlon y byddai cartref gofal ar gyfer yr henoed yn gallu cael ei ddarparu'n foddhaus, dylid ei leoli o fewn pellter cerdded rhesymol at wasanaethau tref neu bentref ac mewn lleoliad a fydd yn lleihau effeithiau'r cais ar amwynder y tai preswyl cymdogol.

5.31 Yn yr un modd, bydd yr Awdurdod yn cefnogi ailddefnydd o adeiladau mawr i bwrpasau gofal preswyl, yn destun i'r gofynion lleoliad a amlinellwyd uchod. Hefyd rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon y gellir trawsnewid yr adeilad a ddefnyddir heb niweidio ei gymeriad presennol neu mewn modd sy'n debygol o niweidio amwynder tai cymdogol.

5.32 Mae tai gofal ychwanegol yn gyfraniad pwysig at ddarpariaeth fforddiadwy. Bydd rhai preswylwyr sy'n symud i'r tai hyn yn gadael unedau tai fforddiadwy gwag i eraill.

**Polisi Datblygu 12: Cartrefi Gofal Preswyl a Thai Gofal Ychwanegol (12)**

O fewn y Parc Cenedlaethol ni fydd ceisiadau am Gartrefi Gofal Preswyl neu gartref gofal ychwanegol yn cael eu caniatáu oni bai bod yr holl feini prawf canlynol wedi'i bodloni:

i. Mae'r llety gofal newydd wedi'i leoli o fewn neu'n gyfagos iawn at ffin datblygu tai Canolfan Wasanaeth Leol neu Aneddiadau Gwasanaeth.

ii. Ar gyngor y gwasanaeth cymdeithasol lleol neu'r awdurdod tai lleol a chymryd ystyriaeth o helaethder sefydliadau preifat ac awdurdod iechyd lleol presennol na fydd y cais yn achosi gorddarpariaeth o lety gofal o'i gymharu ag anghenion yr ardal leol.

iii. Bod y llety gofal newydd yn gallu cael ei wasanaethu'n ddigonol.

iv. Ei fod wedi'i leoli o fewn pellter cerdded rhesymol o ganol tref neu bentref.



Harlech

### Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

5.33 Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgymryd ag Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd. Mae Gwynedd a Chonwy wedi cynnal yr asesiadau hyn ac wedi eu cytuno gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr Awdurdod yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r adroddiadau ac nid oeddent yn dangos unrhyw angen am leiniau parhaol ar gyfer sipsiwn a theithwyr yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn rhan o'r grŵp llywio wrth fynd ymlaen a phetai angen heb ei gwrdd yn cael ei ddynodi am safle parhaol neu dros dro y gellid ei gwrdd yn unig drwy ddyraniad safle o fewn y Parc Cenedlaethol; bydd yr Awdurdod yn asesu'r safle yn erbyn y meini prawf ym Mholisi Datblygu 13.

5.34 Cydnabyddir y gall angen am safle Sipsiwn a Theithwyr godi y tu allan i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Mewn achos o'r fath bydd yr Awdurdod yn ystyried y ceisiadau fesul achos yn unol â'r maen prawf a nodir ym Mholisi Datblygu 13. Disgwylir i'r dystiolaeth ddangos nad oes lleiniau addas ar gael o fewn y safleoedd presennol yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Gwynedd neu Gonwy.

5.35 O fewn y Parc Cenedlaethol bydd yn bwysig sicrhau bod safle Sipsi wedi'i leoli mewn man ble nad yw'n ymwthiol, ac sy'n cydsynio â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Gallai hyn olygu y byddai'r safle mwyaf priodol i ffwrdd oddi wrth anheddiad presennol. Yn ddelfrydol, gosodiad coetir neu wedi'i sgrinio a fyddai fwyaf priodol ble na fyddai datblygiad yn weladwy i'r cyhoedd. Mae tirweddu a phlannu gyda choed a phrysglwyni priodol yn gallu helpu safleoedd i gydweddu â'u hamgylchedd, rhoi strwythur a phreifatrwydd, a chynnal amwynder gweledol. Fodd bynnag, mae cau safle gyda gormod o dirweddu caled, waliau neu ffensys uchel nid yn unig yn gallu rhoi'r argraff o ynysu'r safle a'i ddeiliaid yn fwriadol rhag gweddill y gymuned ond gallai hefyd fod yn weledol amlwg - dylid osgoi'r ddwy sefyllfa. Ni fydd safleoedd agored yn agos iawn at fannau preswyl, cyflogaeth neu fanwerthu presennol yn dderbyniol. Ni fydd safleoedd yn dderbyniol chwaith os ydynt yn niweidio ardaloedd sydd wedi'u diogelu oherwydd eu diddordeb cadwraeth. Bydd safleoedd addas hefyd angen mynediad rhesymol at ysgolion lleol a chyfleusterau cymunedol, Meddygon Teulu a gwasanaethau iechyd eraill, cysylltiad â thrydan, dŵr a chyfleusterau gwaredu carthffosiaeth. Rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i fynediad moduro o'r briffordd gyhoeddus, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer parcio, troi, a gwasanaethau'r safle, a diogelwch ffordd i ddeiliaid ac ymwelwyr.

**Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (13)**

O fewn y Parc Cenedlaethol bydd caniatâd cynllunio am safleoedd sipsi yn cael ei gymeradwyo ar yr amod y bodlonir y meini prawf canlynol:

i. Nid oes lleiniau addas ar gael o fewn y safleoedd presennol yn ardal Awdurdodau Lleol Gwynedd neu Gonwy.

ii. Ni fydd defnydd y safle yn achosi niwed sylweddol i amwynder preswyl na chyhoeddus.

iii. Fod y safle ar raddfa gyfartal gyda'r gymuned sefydlog agosaf.

iv. Fod gan y safle ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau hanfodol gan gynnwys gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu a gwasanaethau prif ffrwd gyflenwad, ac nid yw'n gosod unrhyw faich ychwanegol ar isadeiledd lleol.

v. Fod gan y safle fynediad uniongyrchol i brif ffordd ac mae ar lwybr taith bws sydd yn rhoi mynediad at wasanaethau lleol.

vi. Nid yw'r cynnig yn ymddangos yn sylweddol ymwthiol, mae'n cydweddu a'r dirwedd ac mae wedi'i dirlunio'n foddhaol.

### Llety Rhandy

5.36 Mae trawsnewid adeiladau cyfagos i ffurfio rhandai (annecs) yn aml yn gallu cwrdd ag anghenion llety cyfnewidiol teuluoedd. Dylai dyluniad y cynllun sicrhau bod y llety yn ategol at y prif adeilad, yn briodol i'r anghenion llety ac yn cadw digon o ofod amwynder. Bydd unrhyw ganiatâd yn destun i amod sy'n atal gwerthu'r rhandy ar wahân i'r prif annedd. Cynhwysir mwy o wybodaeth am y math hwn o ddatblygiad yng Nghanllaw Cynllunio Atodol (11) Llety Rhandy.

**Polisi Datblygu 14: Llety Rhandy (14)**

Bydd llety rhandy'n cael ei ganiatáu os yw'n atodol at y prif annedd yn nhermau ei raddfa, defnydd a'i ddyluniad.

Yn achos adeilad newydd, ei fod yn rhan ffisegol o'r prif annedd.

Ym mhob achos, bydd y caniatâd yn destun i amod er mwyn sicrhau bod y rhandy'n parhau'n ategol i'r prif annedd.

### Estyniadau

5.37 Mae ymestyn annedd yn ffordd poblogaidd o wella hyblygrwydd a gwerth cartref. Mae hefyd yn ffurf o ddatblygiad cynaliadwy gan ei fod yn ymestyn oes ddefnyddiol tai hŷn. Mae'r maint y gellir ymestyn annedd cyn bod angen caniatâd cynllunio fodd bynnag yn fater cymhleth ac yn amrywio yn ôl y math o eiddo, ei faint a'i leoliad. Mae estyniadau o faint anghymesur neu ddyluniad amhriodol, yn enwedig ar adeiladau Rhestredig neu Draddodiadol neu o fewn Ardaloedd Cadwraeth yn gallu niweidio golwg allanol y eiddo gwreiddiol a chymeriad anheddiad, a bydd yn cael ei wrthwynebu.

5.38 Wrth benderfynu ar geisiadau am estyniadau tai (yn cynnwys ystafelloedd haul), bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth arbennig i effaith y datblygiad ar amwynder lleol, yn enwedig os yw'n achosi colled sylweddol o oleuni neu breifatrwydd i eiddo cyfagos. Mae Cyfarwyddyd Dyluniad yr Awdurdod ar estyniadau'n darparu cyngor defnyddiol ar raddfa ac edrychiad priodol ar gyfer estyniadau. Yn gyffredinol, ni fydd yr Awdurdod yn caniatáu estyniadau oni bai eu bod yn llai o ran maint na'r annedd gwreiddiol.

**Polisi Datblygu 15: Estyniadau (15)**

Bydd estyniad i annedd presennol yn cael ei ganiatáu os yw:

i. Yr ôl troed yn llai a'r uchder yn is na'r anedd gwreiddiol.
ii. Yn cydymffurfio gyda chyfarwyddyd dylunio'r Awdurdod ar estyniadau.
iii. Nid yw'n niweidiol i'r annedd na chymeriad yr amgylchoedd ble mae wedi'i leoli.

### Adleoli Anheddau Presennol

5.39 Caniateir adleoli annedd presennol cyn belled ag y gellir dangos bod y dyluniad a lleoliad yr annedd newydd yn well na'r un gwreiddiol. Ni fydd adeiladau newydd o ddyluniad gwael yn cael eu caniatáu. Gallai adleoliad tŷ presennol gydag un o faint a graddfa sylweddol wahanol gael effaith niweidiol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Er nad yw'n ofynnol i'r un newydd ddyblygu ffurf yr annedd presennol mae'r Awdurdod yn mynnu nad yw ôl troed yr annedd newydd yn rhagor na 50 y cant yn fwy na'r gwreiddiol. Bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu dileu pan fo unrhyw anneddo'r fath yn cael ei ganiatáu, er mwyn rheoli'r modd y bydd yr un  newydd yn cael ei ymestyn yn y dyfodol.

**Polisi Datblygu 16: Adleoli Aneddiadau Presennol (16)**

Bydd adleoli annedd presennol sy'n is-safonol neu wedi'i ddylunio'n wael y tu allan i brif ardal adeiledig anheddiad sydd wedi'i restru yn yr hierarchaeth anheddiad yn cael ei ganiatáu ble fo'r annedd newydd â gwell dyluniad, yn cyd-fynd â gosodiad tirwedd yr ardal ac nid yw ei ôl troed ddim rhagor na 50 y cant yn fwy na'r un gwreiddiol.

Dylai unrhyw annedd newydd fod ar yr un safle â'r gwreiddiol, oni bai fod rhesymau tirwedd amlwg neu fuddion amgylcheddol dros ei osod yn rhywle arall.

Ni fydd dymchwel ac adleoli dilynol 'annedd traddodiadol' y gellir ei atgyweirio, ymestyn neu'i wella mewn modd priodol fel arfer yn cael ei ganiatáu.

### Tynnu Ymaith Amod Daliadaeth Amaethyddol a Llety Gwyliau

5.40 Oherwydd newidiadau mewn arferion ffermio a natur fregus y sector amaethyddol mae'n bosib y bydd digwyddiadau ble nad oes angen bellach am aneddiadau a adeiladwyd ar gyfer gweithwyr amaethyddol. Bydd yr Awdurdod yn gwrthwynebu cael gwared ag unrhyw amod daliadaeth a roddwyd ar dŷ gweithiwr amaethyddol, oni bai fod asesiad yn dangos yn glir bod yr amod yn ei hanfod wedi mynd tu draw i'w ddefnyddioldeb ac nad oes unrhyw angen tymor hir yn bodoli i'r llety ar y daliad yn yr ardal leol. Rhaid i dystiolaeth o'r fath ddangos bod yr eiddo wedi bod ar werth ac wedi'i farchnata'n weithredol ar bris disgownt priodol am gyfnod o ddeuddeg mis di-dor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac nad oes unrhyw alw'n bodoli amdano fel llety rhent gan unigolyn cymwys tebyg. Os yw asesiad yn dangos yn glir nad oes angen daliadaeth wedi'i reoli bellach, bydd yr amod yn cael ei gyfnewid am amod tai fforddiadwy ar gyfer daliadaeth anghenion lleol.

5.41 Yn achos y cyfyngiad daliadaeth llety gwyliau, bydd yr Awdurdod yn gwrthwynebu cael gwared ag unrhyw amod daliadaeth a roddwyd oni bai bod asesiad yn dangos yn glir bod yr amod yn ei hanfod wedi mynd tu draw i'w ddefnyddioldeb, ac nad oes unrhyw angen tymor hir yn bodoli ar gyfer y llety yn yr ardal leol a pan ystyrir fod y llety gwyliau yn addas ar gyfer ei feddiannu'n barhaol.

**Polisi Datblygu 17: Tynnu Ymaith Amod Daliadaeth Amaethyddol a Llety Gwyliau (17)**

O fewn y Parc Cenedlaethol ni fydd cais am dynnu ymaith amod daliadaeth amaethyddol neu amod daliadaeth llety gwyliau yn cael ei ganiatáu oni bai y gellir dangos nad oes unrhyw angen tymor hir yn bodoli ar gyfer y dibenion hynny yn yr ardal leol, a pan fo llety gwyliau dan sylw, bod yr adeilad yn addas i'w feddiannu yn barhaol.

Pan fo caniatâd yn cael ei roi i dynnu ymaith amod daliadaeth amaethyddol bydd amod annedd menter wledig yn cael ei roi yn ei le fel y nodir ym mharagraff 4.13.1 o TAN 6 neu ar gyfer tynnu amod daliadaeth llety gwyliau bydd yn cael ei gyfnewid am un sy'n cyfyngu'r ddaliadaeth i dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 5.26 a 5.27.

Os yw asesiad wedi dangos yn glir nad oes bellach angen meddiannaeth dan reolaeth, caiff yr amod ei amnewid am amod tai fforddiadwy ar gyfer meddiannaeth anghenion lleol.

### Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol

5.42 Mae mynediad at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn elfen hanfodol o gymunedau cynaliadwy a chynhwysol. Mae cyfleusterau cymunedol megis ysgolion, swyddfeydd post, neuaddau pentref a chapeli yn aml yn gwasanaethu rhwydwaith o aneddiadau bach ac yn hanfodol i ostwng y cyfanswm teithio i gyrraedd cyfleusterau cymunedol eraill. Bydd colli gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gostwng cynaliadwyedd cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi ac yn annog cadw a gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sy'n darparu cyfleuster hanfodol i gefnogi cynaliadwyedd cymunedau'r Parc Cenedlaethol.

5.43 Mae mentrau adfywio cymunedol sydd yn cwrdd ag anghenion economaidd a chymunedol lleol megis neuadd bentref newydd, caffi a Swyddfa Bost yn Abergynolwyn, adferiad yr hen Felin yn Abergwyngregyn, Llys Ednowain yn Nhrawsfynydd, yr Hen Ysgol yng Nghapel Curig a Chaffi Gwynant yn Nant Gwynant, i gyd yn enghreifftiau o ddatblygiad cynaliadwy yn cefnogi amrywiaeth o fusnesau o fewn aneddiadau ac ymgysylltu gweithredol cymunedau wrth gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

5.44 Mae darpariaeth o gyfleusterau iechyd a hamdden yn bwysig i iechyd a lles preswylwyr y Parc Cenedlaethol a bydd yr Awdurdod yn eu hannog i gefnogi Strategaethau Cymunedol Strategaethau Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles Lleol. Mae tair canolfan hamdden o fewn y Parc Cenedlaethol yn Nolgellau, Y Bala a Harlech. O fewn y cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan Ganolfan Wasanaeth Leol, bydd ceisiadau am ddefnydd ar y cyd o gyfleusterau cymunedol yn cael eu hystyried yn ffafriol.

**Polisi Strategol Ng: Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol (Ng)**

Bydd darpariaeth cyfleusterau iechyd, chwaraeon, addysg a chymunedol eraill yn cael eu cefnogi:

i. Ble maent wedi'u lleoli o fewn prif ardal adeiledig canolfan wasanaeth leol, Aneddiadau Gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd.

ii. Mewn lleoliadau eraill ble nad oes unrhyw safleoedd addas yn y ganolfan wasanaeth leol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd a ble fydd y datblygiad yn darparu cyfleuster hanfodol i gefnogi'r gymuned leol.

Bydd newid defnydd o wasanaeth neu gyfleuster cymunedol yn cael ei wrthod oni bai y gellir dangos nad yw'r potensial am ddefnydd parhaus o'r cyfleuster yn hyfyw neu addas.



Llyn Tegid

**Yr Iaith Gymraeg a Ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau**

5.45 Mae'r iaith Gymraeg yn sylfaenol i gyfoeth diwylliannol Eryri. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol yr holl gymunedau yn Eryri. Mae cynnal a sicrhau ffyniant yr iaith yn y dyfodol yn ffurfio rhan amlwg o'r gwaith amddiffyn treftadaeth o fewn y Parc, a thrwy hynny'n cyflawni un o brif amcanion y Parciau Cenedlaethol a'u dyletswydd cysylltiedig i 'feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol'.

5.46 Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan 58.6% o'r cyfanswm poblogaeth ac mewn rhai cymunedau mae'r iaith yn cael ei siarad gan dros 75% o'r preswylwyr. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel mater cynllunio. Dylai'r system gynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a thrwy hynny gyfrannu at ei lles. Mae'r iaith Gymraeg wedi ei hystyried wrth ffurfio polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys cynhwysedd gwahanol ardaloedd a chymunedau i letya datblygiad heb niweidio safle'r iaith Gymraeg. I sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol, wrth feddwl am newid, ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa ac a yw'r datblygiad newydd sy'n cael ei gynllunio'n addas a pherthnasol.

5.47 Er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch ceisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg mewn cymunedau, mae'r Awdurdod wedi paratoi Canllaw Cynllunio Atodol (3) Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Mae'r canllaw yn ceisio delio gyda'r mater drwy edrych ar gymunedau mewn modd holistig, yn rhoi digon o ystyriaeth i iaith fel elfen sy'n rhan integrol o weithgaredd a bywyd cymunedol. Mae'r canllaw hefyd yn nodi'r gofynion gwybodaeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg sydd eu hangen i gyd-fynd a cheisiadau cynllunio nad ydynt ar safleoedd wedi'u neilltuo neu o fewn ffiniau datblygu tai. Ar gyfer datblygiadau llai, gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda'u ceisiadau cynllunio. Ystyrir bod datblygiadau llai yn yr achos hwn yn gynigion ar gyfer 5 neu fwy o unedau preswyl ar safle/tir nad yw wedi'i neilltuo yn y cynllun datblygu at ddefnydd preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m² neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau. Ni fwriedir i'r ddarpariaeth o ddatganiad fod yn feichus ar y datblygwr. Ymdrinnir â nifer o agweddau o'r datganiad yn y Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) a byddai ychwanegiad pellach at y DDM i gynnwys gofynion am Ddatganiad Ieithyddol fel yr eglurir yn y Canllaw Cynllunio Atodol yn dderbyniol. Ar gyfer datblygiadau graddfa fwy, bydd yn ofyniad gan yr awdurdod cynllunio dderbyn dadansoddiad manylach o effeithiau posib, a fydd yn cael ei gyflwyno ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol'. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na trothwyon datblygiadau llai ac maent yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu neilltuo, meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol ac o bosib yn peidio â pherthyn i bolisïau penodol yn y Cynllun. Ni fydd eu heffaith ddichonol ar gymunedau wedi'i ystyried fel rhan o broses paratoi'r Cynllun, ac felly bydd angen asesiad ieithyddol manylach i sicrhau gwerthusiad priodol. Pan fyddai yna effeithiau ieithyddol difrifol a fyddai'n effeithio yn niweidiol ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y Gymuned yn debygol, bydd yr Awdurdod yn ystyried gwrthod y cynnig am y rheswm hwn yn unig.

5.48 Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, yn gweithio gyda'i bartneriaid, hefyd yn ymrwymedig i annog cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yn lleol sy'n cyfrannu at fywiogrwydd y gymuned, lles yr iaith ac i gefnogi mentrau sy'n cryfhau cydlynu a grymuso cymunedol.

5.49 Gall arwyddion gael effaith weledol fawr ar gymeriad Eryri, gan gynnwys y cymeriad ieithyddol. Mae arwyddion yn ddull o hyrwyddo diwylliant nodedig Eryri, ac yn gallu cyfrannu'n fawr at y Synnwyr o Le, sydd o bwysigrwydd i hunaniaeth cymunedau unigol yn ogystal â'r diwydiant twristiaeth.



Sesiwn Fawr Dolgellau ©Croeso Cymru

**Polisi Datblygu 18: Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau (18)**

Wrth bennu'r holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

i. Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integredd yr iaith Gymraeg.

ii. Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:

   a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda cais cynllunio am safleoedd ar hap annisgwyl ar gyfer 5 neu fwy o unedau preswyl; datblygiad masnachol, diwydiannol neu dwristaidd sy'n ymestyn dros 1000m$^2$ neu fwy; datblygiad sy'n debygol o arwain at golli cyfleusterau cymunedol neu gyfleoedd cyflogaeth a datblygiad twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.

   b) Asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol' i fynd gyda'r cais cynllunio ble fo datblygiadau ar raddfa fwy. Yn yr achos hwn, ystyrir bod datblygiadau mwy yn gynigion sy'n llawer iawn uwch na'r trothwyon a amlinellwyd ym maen prawf (a) ac maent yn debygol o gael eu lleoli ar safleoedd heb eu neilltuo, meddu ar ryw arwyddocâd y tu hwnt i ffin y Parc Cenedlaethol a sydd ddim yn perthyn i bolisïau penodol yn y Cynllun.

iii. Lliniaru rhag effaith andwyol trwy ei gwneud yn ofynnol dan yr amgylchiadau priodol am gyfraniad ariannol trwy gyfrwng cytundeb Adran 106.

iv. Annog yr holl arwyddion gan gyrff cyhoeddus a gan gwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg yn unig i amddiffyn a hyrwyddo amwynder diwylliannol nodedig y Parc Cenedlaethol.

v. Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd ac enwau tai a strydoedd.


SHEARINS
CONTRACTORS
TEL

# Pennod 6

# Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy

Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H) .......... 93
Polisi Datblygu 19: Gwaith newydd a datblygu hyffforddiant (19) .......... 95
Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27) .......... 98
Polisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol (20) .......... 100
Polisi Strategol I: Twristiaeth (I) .......... 102
Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena (21) .......... 103
Polisi Datblygu 28 Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd (28) .......... 103
Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog (22) .......... 104
Polisi Datblygu 23: Safleoedd Carafanau Teithiol a Gwersylla (23) .......... 105
Polisi Datblygu 29 Llety Gwyliau Amgen (29) .......... 108
Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24) .......... 109

# 6. Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy

6.1 Mae'r rhan hon yn rhoi ymateb i'r amcanion canlynol:

> Annog twf economaidd cynaliadwy drwy gefnogi economi wledig sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a chynnal cymunedau bywiog.
>
> Cefnogi twristiaeth a hamdden awyr agored sy'n uchafu buddiannau economaidd lleol, lleihau effaith amgylcheddol i'r eithaf, a sy'n cydymdeimlo â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

6.2 Mae cadw'r ddarpariaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn ffactor allweddol wrth annog pobl leol i aros yn yr ardal a thrwy hynny gynnal demograffeg gytbwys. Mae angen i bolisïau'r Cynllun hwn roi sylw i nifer o heriau sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu cyfleoedd cyflogaeth lleol newydd a datblygu economi sy'n seiliedig ar sgil a gwybodaeth sy'n optimeiddio gwerth adnoddau naturiol, amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Yn ddelfrydol dylai mentrau cyflogaeth o'r fath ddarparu gyrfaoedd parhaol a fydd yn denu a chadw pobl ifanc yn yr ardal, neu'n annog menter leol.

6.3 Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol yn annog cyflogaeth graddfa fach y tu allan i'r prif aneddiadau fel y gall menter wledig ddatblygu a chyfrannu at ddatblygiad economaidd lleol. Fodd bynnag, rhaid i fentrau o'r fath beidio â chael effaith negyddol ar dirwedd yr ardal neu gael eu lleoli mewn mannau a fydd yn achosi cynnydd mawr mewn traffig ar ffyrdd anaddas. Mae hefyd yn bwysig i wella ansawdd a hygyrchedd yr isadeiledd Gwybodaeth cyflymder uchel, a Cyfathrebiadau a Thechnoleg (TGCh) i hwyluso gwell cyfleoedd i weithio o'r cartref mewn ardaloedd gwledig. Mae gweithio o'r cartref yn cynnig cyfleoedd nodedig, nid yn unig ar gyfer gweithredu egwyddorion datblygiad cynaliadwy, ond hefyd ar gyfer creu cyflogaeth newydd, ailddefnyddio adeiladau gwag a gostwng yr angen am deithiau ceir i'r gwaith. Gall gweithio o'r cartref hefyd helpu atal ymfudiad pobl leol o'r ardal a chryfhau'r bywyd cymunedol drwy ganiatáu pobl i fyw a gweithio yn eu pentref eu hunain, neu ddychwelyd iddynt. Bydd yr Awdurdod felly'n cefnogi cynigion i addasu aneddiadau i hwyluso gweithio o'r cartref, cyn belled â bod addasiad yr eiddo yn cydymffurfio â pholisïau eraill y Cynllun hwn.

6.4 Wrth gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol mae gan yr Awdurdod ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, a chydweithio ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol i'r perwyl hwnnw. Felly bydd yn annog a hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a menter newydd yn y Parc yn ogystal â chefnogi hyfywedd parhaus y sector amaethyddiaeth, twristiaeth a'r sector greadigol a diwylliannol. Mae'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y rhan hon yn anelu at gyflenwi economi wledig gynaliadwy o fewn cyfyngiadau tirwedd ddynodedig, yn wir maent yn ceisio sbarduno lles economaidd yn seiliedig ar y dynodiad Parc Cenedlaethol.

6.5 Gan fod nifer cyfyngedig o safleoedd cyflogaeth a busnesau yn y Parc, ac yng Nghanolfannau Gwasanaeth Lleol Dolgellau a'r Bala yn enwedig, mae'n bwysig bod yr safleoedd cyflogaeth allweddol presennol (Dolgellau, Bala a Harlech) yn cael eu diogelu. Gyda chynigion ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth presennol (heblaw safleoedd cyflogaeth allweddol), bydd angen tystiolaeth bod potensial cyflogaeth y safle ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth wedi'i hysbysebu ar y farchnad am o leiaf un flwyddyn, cyn ystyried defnydd amgen. I bwrpas y polisi hwn mae adeiladau cyflogaeth yn cynnwys gwestai, hostelau a thai llety ymwelwyr.

6.6 Fe ddynododd Llywodraeth Cymru safle'r orsaf ynni niwclear yn Nhrawsfynydd a chyn faes awyr yr Asiantaeth Ymchwil Gwerthuso Amddiffyn yn Llanbedr fel Parth Menter Eryri yn 2012. Mae'r orsaf bŵer Magnox yn cael ei datgomisiynu ar hyn o bryd, fodd bynnag ceisir cael defnyddiau newydd ar gyfer y safle ac fe ymgymerwyd ag amrywiol astudiaethau. Mae Maes Awyr Llanbedr yn elwa o'r ffaith fod cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer systemau erial treialu o bell (ACP'au) ar gyfer profi a gwerthuso wedi cael ei chaniatau. Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei sicrhau hefyd ar gyfer cynnal a chadw, trwsio ac atgyweirio awyrennau ar y safle.

**Polisi Strategol H: Economi Wledig Gynaliadwy (H)**

Er mwyn creu a chadw economi wledig gynaliadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn:

i. Diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol yn y Bala, Dolgellau a Harlech.

ii. Cefnogi datblygiad cyflogaeth a busnes newydd a chadw'r ddarpariaeth cyflogaeth presennol yn y canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd. Rhaid i faint a graddfa'r datblygiad fod yn gymesur â maint a swyddogaeth yr anheddiad.

iii. Hyrwyddo ailddefnyddio tir neu adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio neu ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion economaidd neu gyflogaeth.

iv. Cefnogi'r sector amaethyddol a chyfleoedd am arallgyfeirio gwledig nad yw'n cael effaith negyddol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

v. Cefnogi twristiaeth a gweithgaredd hamdden sy'n sicrhau'r buddiannau economaidd lleol uchaf, yn lleihau i'r eithaf yr effaith amgylcheddol, a diogelu 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

vi. Cefnogi cynigion a fyddai'n darparu isadeiledd cefnogol addas i gynnal a hyrwyddo'r economi leol.

vii. Cefnogi unedau byw-gweithio a gweithio o'r cartref.

Caniateir ceisiadau ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth presennol (heblaw safleoedd cyflogaeth allweddol) ar gyfer pwrpasau eraill pan fo:

viii. Y defnydd newydd yn achosi gwelliant sylweddol i'r amgylchedd sy'n gorbwyso'r golled o dir cyflogaeth, neu

ix. Nad yw cadw'r cyflogaeth neu fusnes bellach yn ddichonadwy ac ni ellir ei ailddefnyddio ar gyfer pwrpasau cyflogaeth tebyg neu amgen a hysbysebwyd y potensial cyflogaeth ar y farchnad am o leiaf blwyddyn.



Zip Fforest, Betws-y-Coed

**Gwaith Newydd a Datblygu Hyfforddiant**

6.7 Cyfyngedig yw'r ffordd y gall y Cynllun hwn hwyluso gwelliant yn statws economaidd y Parc yn uniongyrchol. Ei rôl yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dir neu leoedd gweithio addas ar gael er mwyn galluogi i ystod ehangach o gyfleoedd gwaith gael eu hannog heb beryglu ansawdd amgylcheddol na hyfywedd diwylliannol y Parc.

6.8 Ni ellir rhoi ystyriaeth i gyflogaeth yn Eryri heb ystyried yr ardaloedd amgylchynol, oherwydd y pellteroedd y mae pobl yn fodlon eu teithio i'r gweithle. Mae teithiau canolig-pell, yn enwedig mewn car preifat, yn annymunol yn amgylcheddol oherwydd yr allyriadau carbon deuocsid a natur gyfyngedig y cyflenwad olew, ac fe ddaw'n gynyddol annymunol i bobl wrth i brisiau tanwydd godi. Fodd bynnag, mae nifer o ganolfannau cyflogaeth sylweddol yn agos iawn at y Parc Cenedlaethol [41] a rhaid rhoi ystyriaeth iddynt wrth benderfynu faint o dir sydd ei angen at ddibenion cyflogaeth yn Eryri yn y dyfodol.

6.9 Mae astudiaethau i mewn i argaeledd, a gofynion tir cyflogaeth o fewn y Parc yn dangos bod yna ddigon o dir yn gyffredinol unai ar unedau diwydiannol sy'n bodoli'n barod neu ar dir a ddyrannwyd ar gyfer dibenion cyflogaeth yn agos at y Parc Cenedlaethol er mwyn diwallu y rhan fwyaf o anghenion cyfredol y Parc[42]. Mae cyfyngiadau llifogydd sy'n gwahardd dyrannu safleoedd yn Nolgellau a'r Bala. Yn achos y Bala, mae estyniad i Barc Menter y Bala yn y dyfodol i gyfeiriad de orllewinol wedi'i gyfyngu oherwydd peryglon llifogydd. Os deallir effeithiau'r llifogydd posibl, ac y gellid eu datrys, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi estyniad cynaliadwy pellach o'r parc yn yr ardal hon.

6.10 Er bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau diwydiannol newydd yn debygol o gael eu lleoli yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol neu y tu allan i'r Parc, mae yna sgôp i gefnogi busnesau ar raddfa fach sy'n galluogi cymunedau lleol i ffynnu a helpu i leihau'r angen i bobl deithio yn bell i'w gwaith. Bydd yr Awdurdod yn edrych yn ffafriol ar gynigion cyflogaeth ar raddfa fach, yn enwedig y rhai sy'n cryfhau, neu sy'n ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwasanaethau lleol yn enwedig os ydynt yn defnyddio cynnyrch o'r ardal leol a / neu os ydynt yn hyrwyddo sgiliau'r gweithlu lleol. Hefyd, dylai'r cynigion geisio gwarchod a gwella 'Rhinweddau Arbennig' y Parc.

6.11 Felly mae hi'n flaenoriaeth i'r Awdurdod ganolbwyntio cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fach mewn canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac mewn aneddiadau eilaidd lle mae gwasanaethau a chyfleusterau busnes yn bodoli'n barod. Er mwyn i dir fod yn addas ar gyfer dibenion cyflogaeth newydd, dylai fod o fewn neu gerllaw prif ardal adeiledig canolfan wasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd ac fel rhan o'r datblygiad dylid ystyried o ddifrif beth yw'r prif amgylchiadau amgylcheddol ac fe ddylid osgoi niweidio mwynder yr ardal yn enwedig lle bwriedir i'r datblygiad ddigwydd. Yn eithriadol, yng nghefn gwlad agored bydd datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant raddfa fach yn briodol os ydynt yn bodloni'r meini prawf manwl ym Mholisi Datblygu 19.

6.12 Gellir lleoli nifer o fusnesau mewn adeiladau sy'n bodoli'n barod neu ar dir gwag, neu yn agos at ardaloedd preswyl. Bydd ail-ddefnyddio tir diffaith a defnyddio adeiladau nas defnyddir i'w llawn botensial yn cael ei annog yn benodol cyn belled a bod y darpar ddefnydd newydd yn gallu digwydd ar y safle, neu o fewn yr adeilad, ac nad yw ei faint na'i natur yn debygol o effeithio ar gymeriad yr ardal yn niweidiol ac nad yw'n difrodi mwynder preswyl yr hyn sydd o'i gwmpas. Cefnogir busnesau o fewn yr ardaloedd hyn cyn belled nad yw natur a maint y cynnig yn niweidio mwynder yr hyn sydd o'u cwmpas yn ddifrifol. Dylai gweithgaredd gwaith sydd â photensial i fod yn niweidiol, ym marn yr Awdurdod, gael eu lleoli mewn gweithdai addas ar gyfer y pwrpas neu ar ystadau diwydiannol presennol o fewn neu y tu allan i'r Parc.

41 Safleoedd cyflogaeth wedi eu dyrannu tu allan i'r Parc Cenedlaethol ym Mangor, Llanrwst, Dolgarrog, Porthmadog, Machynlleth, Tywyn, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Cyffordd Llandudno, Llandygai a Chaernarfon.

42 Papur Cefndir 4 Asesiad o Dir Cyflogaeth (2016)

6.13 O fewn y Parc mae adeiladau traddodiadol ac an-nhraddodiadol nad oes mo'u hangen bellach ar gyfer eu pwrpas gwreiddiol. Efallai bod nifer o'r adeiladau hyn yn addas i'w hail-ddefnyddio ar gyfer dibenion gwaith fel gweithdai, swyddfeydd a'r diwydiant Technoleg Gwybodaeth, sy'n gallu gweithredu heb effeithio'n andwyol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd datblygiad cyflogaeth newydd ar raddfa fach yn cael ei ganiatau yng nghefn gwlad agored. Dim ond pan fo tystiolaeth gadarn wedi'i darparu i ddangos nad oes unrhyw safleoedd addas eraill ar gael fydd datblygiad cyflogaeth a hyfforddiant ar raddfa fach yn briodol. Yn ogystal bydd graddfa a dyluniad y datblygiad gan gynnwys ei leoliad yn parchu ac yn gwarchod cymeriad y dirwedd.

**Polisi Datblygu 19: Gwaith newydd a datblygu hyfforddiant (19)**

O fewn neu gerllaw i brif ardal adeiledig canolfan wasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd bydd y mathau a ganlyn o ddatblygiadau ar gyfer dibenion gwaith a hyfforddiant ar raddfa fach yn briodol:

i. Ail-ddefnyddio adeiladau presennol lle mae gan yr adeilad ddigon o dir a lle storio ynghlwm iddo ar gyfer anghenion swyddogaethol y defnydd arfaethedig.

ii. Ymestyniad o gyfleuster neu fusnes sy'n bodoli'n barod.

iii. Adeiladau newydd pan nad oes unrhyw le addas ar gael yn y cyffiniau.

Fel eithriad, yng nghefn gwlad, bydd datblygiadau newydd ar gyfer dibenion gwaith a hyfforddiant ar raddfa fach yn briodol pan:

iv. Mae graddfa a dyluniad y datblygiad gan gynnwys ei osodiad yn parchu ac yn gwarchod cymeriad y dirwedd ac nid yw'n cael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol.

v. Rhoddwyd tystiolaeth gadarn i ddangos nad oes unrhyw safleoedd eraill addas ar gael.

vi. Mae'r lleoliad yn gynaliadwy o ran gweithlu lleol.

vii. Mae'n defnyddio'r gweithlu lleol.

Bydd trosi adeilad presennol ar gyfer gwaith ar raddfa fach ac ar gyfer dibenion hyfforddi er mwyn diwallu anghenion lleol yn addas pan:

viii. Fo adeiladwaith adeilad yn gadarn ac mae'n bosibl ei drosi heb orfod cyflawni gwaith ail adeiladu sylweddol neu heb orfod ail adeiladu'r adeilad gwreiddiol yn gyfan gwbl.

ix. Nad yw trosi a defnyddio'r adeilad neu ddefnyddio'r tir sydd o'i gwmpas ar gyfer darparu mynediad, cyfleusterau parcio, strwythurau atodol, cyfleusterau ar-safle neu fannau storio yn effeithio yn andwyol o gwbl ar gymeriad yr ardal.

x. Mae digon o dir a lle storio ar gyfer anghenion swyddogaethol y defnydd arfaethedig gan gynnwys parcio.

xi. Mae'n cyd-fynd gyda Pholisi Datblygu 9: Trosi a newid defnydd adeiladau gwledig.

**Parth Menter Eryri**

6.14 Fe sefydlwyd Parth Menter Eryri (PME) gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn 2012. Ar y dechrau roedd yn canolbwyntio ar safle hen orsaf bŵer niwclear Magnox yn Nhrawsfynydd, sy’n cael ei ddatgomisiynu ar hyn o bryd. Ehangwyd y Parth yn ddiweddarach i gynnwys Maes Awyr Llanbedr, (Felly mae’r Ardal Fenter yn seiliedig ar 2 safle yn ddaearyddol ar wahân). Mae’r safleoedd wedi cael eu dynodi gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar ddatblygiad yn y sectorau ynni carbon-isel, TGCh neu fusnes sy’n gysylltiedig ag awyrofod. Mae’r Awdurdod yn gefnogol tuag at ddatblygiad PME yn unol â Pholisi 27.

6.15 Mae tair blaenoriaeth tymor byr wedi cael eu hamlinellu ar gyfer PME ac maent fel a ganlyn:

(i) datblygu’r gadwyn gyflenwi leol a rhanbarthol i gefnogi dyfodol y safle a gwella’r rhagolygon economaidd ym Meirionnydd.

(ii) cytuno ar opsiwn (au) a ffefrir ar gyfer datblygiad y safleoedd, gan amlinellu gofynion a’r opsiynau isadeiledd angenrheidiol ar gyfer creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy.

(iii) dylanwadu ar y rhaglen ddatgomisiynu a’r amserlen i gynnal cyflogaeth ar safle Trawsfynydd.

6.16 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi gweithio mewn cydweithrediad agos â Bwrdd Menter Eryri wrth nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer PME a byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda nhw, ochr yn ochr gyda’r sawl sydd â diddordebau tir ym MhME.

6.17 Mae dynodiad y PME yn rhoi cyfle unigryw i’r Awdurdod gefnogi’r ddarpariaeth o gyflogaeth newydd yn y Parc Cenedlaethol. Mae’r Awdurdod o’r farn y gall PME helpu i gyflawni un o amcanion y CDLIE, sef darparu cyfleoedd cyflogaeth i gefnogi cymunedau lleol cynaliadwy. Dylai PME anelu at ddarparu cyfleoedd gyrfaol parhaus a fydd yn denu ac yn cadw pobl ifanc tra’n datblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth. Dylai unrhyw ddatblygiad cyflogaeth fod yn gynaliadwy er budd tymor hir y gymuned. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i ddatblygiadau a fydd yn cynnal a gwella set sgiliau’r boblogaeth leol. Mae PME wedi ei leoli yng nghanol y Parc Cenedlaethol sy’n darparu cysylltiadau da i drigolion y Parc Cenedlaethol gael mynediad at unrhyw gyfleoedd gwaith sydd yn codi.

6.18 Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr yn cynrychioli cyfleoedd sylweddol ar gyfer cyflogaeth newydd mewn gwahanol sectorau busnes, eu bod yn ddarostyngedig i’w cyfyngiadau, nodweddion a defnyddiau presennol penodol eu hunain, ac mae ganddynt wahanol amserlenni ar gyfer datblygu. Mae hyn yn cael ei gydnabod drwy’r polisi a’r dyraniad map cynigion cyfatebol sy’n cynnwys darpariaeth benodol ar gyfer pob safle ochr yn ochr â chyfres o egwyddorion datblygu trosfwaol.

6.19 Mae’r Awdurdod angen i brif gynllun amlinellol fod yn ei le cyn i unrhyw waith datblygu sylweddol newydd ddechrau ar yr un safle. Bydd cael fframwaith strategaeth glir ar gyfer datblygu’r safleoedd yn bwysig er mwyn atal unrhyw ddatblygiad tameidiog amhriodol a sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn gydlynol o ran dyluniad a gosodiad ac yn parchu ei leoliad o fewn y Parc Cenedlaethol. Fe ddylai hefyd alluogi mwy o sicrwydd i unrhyw ddatblygwr, a galluogi penderfynu ar geisiadau cynllunio yn gyflymach pan fyddant yn dod i law. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi ac yn cynghori perchnogion y safle a hyrwyddwyr i ddatblygu’r prif gynlluniau wedi i GDLIE gael ei fabwysiadu. Byddai’r Prif Gynllun yn cael ei baratoi gan berchnogion y safleoedd a hyrwyddwyr gyda chymorth gan yr Awdurdod. Bydd yn rhaid i’r Awdurdod gytuno ar y Prif Gynllun. O gofio lleoliad sensitif Parth Menter yn y Parc Cenedlaethol, ystyrir ei bod yn hanfodol bod unrhyw brif gynllun yn cael ei arwain gan y dirwedd a’i gefnogi gan asesiad tirwedd ac effaith weledol gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i effeithiau posibl unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar y dirwedd.

6.20 Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i adeiladau newydd arddangos dyluniad o safon uchel sy’n rhesymegol. Ni ddylai graddfa a natur unrhyw ddatblygiad newydd gael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal.

6.21 Oherwydd natur agored y dirwedd leol, fe ddylai graddfa unrhyw adeiladau newydd ar safle Llanbedr berthyn a bod yn gymesur â'r adeiladau presennol, i wella eu heffaith weledol, oni bai fod amgylchiadau eithriadol neu weithredol, ac os felly bydd angen cyfiawnhad â thystiolaeth glir. Bydd ystyriaeth fanwl o ddyluniad, uchder, graddfa a lleoliad datblygiad yn cael ei arwain gan y prif gynllun ar gyfer y safle a chael ei lywio gan asesiad technegol cadarn o ran effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol. Bydd angen ystyried ac asesu opsiynau lleoli o fewn Parth Menter Llanbedr petai datblygiad yn cael ei gynnig y tu allan i'r ardal ffocws ddangosol. Bydd yn rhaid i'r opsiwn safle a ffefrir ddangos yr effaith leiaf ar y dirwedd, amwynderau gweledol, treftadaeth amgylcheddol a diwylliannol.

6.22 Mae'r Awdurdod yn ystyried y dylai darpariaeth cyflogaeth yn PME fod yn arloesol a manteisio ar fuddion amgylcheddol unigryw bod mewn Parc Cenedlaethol, y defnydd hanesyddol a sefydledig a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni ddylai unrhyw ddefnyddiau cyflogaeth a datblygiadau newydd fod yn groes i bwrpasau statudol a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.

**Parth Menter Eryri - Trawsfynydd**

6.23 Mae dynodiad Llywodraeth Cymru yn safle 793 hectar (1960 erw) o amgylch hen orsaf ynni niwclear Trawsfynydd, gan gynnwys Llyn Trawsfynydd. Mae'r safle i'w weld yn y map cynigion. Mae'r safle yn elwa ar etifeddiaeth ei ddefnydd blaenorol sef y ffaith bod yna ffynhonnell oeri dŵr o'r llyn mwyaf a wnaed gan ddyn yng Nghymru ac is-orsaf grid cenedlaethol sy'n darparu cyflenwad trydan mawr a dibynadwy. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd datblygiad y safle yn gwbl ddibynnol ar y cynnydd gyda rhaglen ddatgomisiynu'r safle. Mae dynodiad PME Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y llyn fel rhan annatod o'r cyfle a gyflwynwyd ar y safle, yn enwedig ar gyfer cynhyrchu ynni. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn rhagweld y bydd y llyn yn dod ymlaen ar gyfer datblygu ac mae ardal ddatblygu eang wedi'i diffinio sy'n darparu hyblygrwydd a chwmpas i gynigion datblygu arloesol ddod ymlaen na fydd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr ardal. Rhagwelir y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny a nodwyd yn nyraniad y cynllun, sy'n ymestyn i oddeutu 58 hectar (143 erw) yn unol â Pholisi Datblygu 27 (hefyd wedi'i nodi ar y Map Cynigion).

6.24 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl gweithio'n agos gyda pherchnogion a hyrwyddwyr y safle i baratoi prif gynllun defnydd tir amlinellol i lywio datblygiad ar y safle - byddai'r prif gynllun yn strategol o ran natur ac yn adnabod defnydd tir a pharseli datblygu, ac amserlenni dangosol i dir fod ar gael ar gyfer defnydd arall. Fodd bynnag, o ystyried bod datblygiad yn dibynnu ar gynnydd y datgomisiynu, ni ragwelir y bydd y gwaith o baratoi'r prif gynllun a chyflwyniad y dyraniad amlinellol yn digwydd hyd diwedd cyfnod y cynllun. Bydd y sefyllfa yn cael ei monitro fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun yn rheolaidd.

6.25 Mae'r polisi yn cefnogi'r broses datgomisiynu ac adfer barhaus yn Nhrawsfynydd - proses a lywodraethir gan strategaethau cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i adolygiadau ac ymgynghoriadau rheolaidd, ac maent yn cael eu hadnabod fel ystyriaeth bwysig mewn penderfyniadau cynllunio. Bydd unrhyw waith sy'n gysylltiedig â datgomisiynu a rheoli gwastraff ymbelydrol ar y safle yn cael ei gefnogi gan yr Awdurdod ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â pholisïau CDLIE. Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu â Magnox yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir gyda'r datgomisiynu.

### Parth Menter Eryri - Maes Awyr Llanbedr

6.26 Mae dynodiad Llywodraeth Cymru ym Maes Awyr Llanbedr yn ymestyn i 227.8 hectar (562 erw). Mae bellach wedi cael ei ail-frandio fel Canolfan Awyrofod Eryri, roedd y safle yn safle dan berchnogaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r blaen. Mae tri llwybr glanio o 2.3km, 1.4km a 1.3km yn y maes awyr sy'n darparu mynediad i 7,100 $km^2$ o ofod awyr ar wahân dros Fae Ceredigion. Mae'r fynedfa ar yr un pryd o du systemau sifil a milwrol ill dau i'r ardal arwyddocaol hon o ofod awyr ar wahânedig yn unigryw i unrhyw faes awyr yn y DU a dyma'r cyntaf o'i fath yn Ewrop.

6.27 Er mwyn eglurder a chysondeb, mae dyraniad CDLl ar gyfer Llanbedr yn dangos ardal ffocws ddangosol lle dylid cyfeirio datblygiadau, mae'r ardal yn oddeutu 12.7 hectar (31 erw) ac mae'r ardal hon y tu allan i'r ardal perygl llifogydd. Mae ardal ehangach wedi ei nodi ar y mapiau sydd yn cyfateb gyda dynodiad Parth Menter Eryri Llywodraeth Cymru, yma bydd datblygiad sydd yn gysylltiedig a'r defnyddiau a gynigir ar gyfer y safle yn cael eu hystyried fesul achos yn unol â gofynion y polisi. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen am ddatblygiad newydd ar raddfa fach o fewn y safle ehangach am resymau gweithredol a diogelwch, ond dylid cyfeirio datblygiadau yn y lle cyntaf tuag at yr ardal ffocws ddangosol o fewn y Dynodiad Parth Menter fel y dangoswyd ar y map cynigion. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl gweithio'n agos gyda pherchnogion y safle i ddatblygu prif gynllun amlinellol i lywio'r datblygiad newydd ar y safle, cyn i unrhyw ddatblygiad arwyddocaol ddigwydd ar y safle. Bydd cynigion datblygu newydd yn ddarostyngedig i feini prawf a ddarperir ym Mholisi Datblygu 27. Rhagwelir y cyflawni'r y defnyddiau newydd ar y safle yn ystod 10 mlynedd cyntaf o gyfnod y cynllun - bydd hyn yn cael ei fonitro fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun yn rheolaidd.

6.28 Byddai'r Awdurdod yn cefnogi unrhyw ddatblygiad priodol ar y naill safle neu'r llall sy'n arwain at gyfleoedd cyflogaeth a chynnal a gwella cymysgedd o sgiliau yn y gweithlu lleol. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw gyfleoedd cyflogaeth posibl ar y safle yn cael eu harchwilio'n llawn ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r prif gynllun ar gyfer y safleoedd a gofynion y polisïau yn CDLlE.

**Polisi Datblygu 27: Parth Menter Eryri (27)**

Bydd angen cynhyrchu prif gynllun amlinellol a arweinir gan dirwedd ar gyfer safleoedd Llanbedr a Thrawsfynydd a chytuno arnynt gyda'r Awdurdod. Bydd y prif gynllun yn cynnwys briff datblygu, datganiad dylunio, ac atodlen sy'n nodi'r broses o ddatblygu a gwella'r seilwaith cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer pob cam, cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau.

Bydd angen i'r prif gynllun amlinellol gael ei gefnogi gan asesiad tirwedd ac effaith weledol a dangos sut y bydd lleoliad, graddfa, dyluniad a chymeriad y datblygiad yn lleihau'r effeithiau andwyol ar gymeriad tirwedd, amwynderau gweledol, amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

**A. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n unol â rhannau B a C o'r polisi hwn yn cael eu cefnogi o fewn Parth Menter Eryri cyn belled â bod y meini prawf a ganlyn yn cael eu diwallu -**

i. Mae'r dyluniad yn gydlynol ac o safon uchel ac yn ymateb yn bositif i'r lleoliad tirwedd a gweledol sensitif a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol.

ii. Bod gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r deunyddiau a'r defnydd o liw o fewn y datblygiad yn ei helpu i ymdoddi i'r dirwedd ac yn lleihau'r effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd ac amwynderau gweledol.

iii. Mae cynigion datblygu wedi cael eu hystyried gan ystyried gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd a chanfuwyd eu bod yn cydymffurfio.

iv. Mae'r datblygiad ar y naill safle a’r llall yn unol ag amlinelliad o brif gynllun ar gyfer y safle hwnnw.

v. Mae'r datblygiad cyflogaeth yn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu lleol presennol.

vi. Nid yw’r datblygiad ar y naill safle a'r llall yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar y warchodfa awyr dywyll.

**B. Llanbedr**

O fewn y Dynodiad Parth Menter yn Llanbedr a nodwyd ar y mapiau cynigion, bydd y defnyddiau canlynol yn cael eu derbyn:

- gweithrediadau a defnyddiau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant awyrennau a awyrofod, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â seilwaith a gwasanaethau maes awyr a rheoli gofod awyr;
- defnydd newydd gan gynnwys defnydd cyflogaeth (B1, B2, B8) a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil a datblygu (yn cynnwys diwydiannau awyrennau ac awyrofod),
- dibenion hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;
- defnyddiau ategol eraill i'r defnydd a nodir uchod gan gynnwys llety, arlwyo a hamdden.

Dylid cyfeirio cynigion datblygu tuag at yr ardal ffocws ddangosol. Pan fydd datblygiad yn cael ei gynnig y tu allan i'r ardal hon, dylid bodloni’r meini prawf canlynol:

- bydd yn rhaid i gynigion manwl ddangos bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys mesurau lliniaru perygl llifogydd cymeradwy a derbyniol y cytunwyd arno gyda CNC;
- nid oes effeithiau sylweddol annerbyniol ar y dirwedd nac amwynderau gweledol;
- cyflwynwyd digon o dystiolaeth bod y safle'n dangos yr effaith leiaf ar y dirwedd, amwynderau gweledol, treftadaeth amgylcheddol a diwylliannol;
- nid yw'r datblygiad wedi'i leoli mewn ardal a fydd yn atal defnyddio'r brif redfa;
- ni ddylai'r datblygiad effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig Ewropeaidd;
- cyflwynwyd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam na ellir lleoli’r datblygiad yn yr ardal ffocws ddangosol.

**C. Trawsfynydd**

O fewn neu yn union cyfagos at ddyraniad Parth Menter Eryri yn Nhrawsfynydd, bydd y defnyddiau canlynol yn cael eu derbyn:

- gwaith a defnyddiau sy'n gysylltiedig â gwaith datgomisiynu niwclear;
- defnyddiau newydd gan gynnwys B1, B2, B8 a defnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â busnesau digidol / TGCh;
- busnesau ynni carbon isel a thechnolegau cynhyrchu ynni;
- Ymchwil a Datblygu (sy'n gysylltiedig â sectorau amgylcheddol, TGCh, Ynni) a;
- dibenion hyfforddiant ac addysg sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Petai’r datblygiad arfaethedig yn dod o dan ddiffiniad o ddatblygiad mawr, bydd yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi Strategol B: Datblygiadau Mawr gan yr Awdurdod.

### Amaethyddiaeth

6.29 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r gymuned ffermio i sicrhau bod datblygiad ar dir amaethyddol yn cynnal neu'n gwella hyfywedd daliad y fferm wrth gyfrannu ar yr un pryd at statws tymor hir amgylchedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol a'i 'Rhinweddau Arbennig'.

### Arallgyfeirio amaethyddol

6.30 Cyfrifir bod ehangu sylfaen economaidd gweithgareddau amaethyddol yn ffordd o gryfhau economi amaethyddol yr ardal. Felly mae'r Awdurdod yn cefnogi'r cynigion hynny sydd a wnelo arallgyfeirio sy'n ychwanegol at ffermio da byw ac yn gydnaws ag ef, yn hytrach nag yn ei ddisodli fel y prif weithgaredd ffermio hirdymor ar fferm. Mae'n bwysig bod unrhyw gynllun arallgyfeirio yn digwydd ar fferm weithiol gwirionedd sydd wedi'i chofrestru fel daliad amaethyddol ac yn cydymffurfio â'r diffiniad o 'Amaethyddiaeth' fel sy'n ymddangos yn Adran 336 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Wrth ystyried unrhyw gynigion arallgyfeirio, bydd yr Awdurdod yn talu sylw i effeithiau tebygol y cynlluniau hynny ar fwynderau trigolion cyfagos ac a yw'r ffyrdd presennol yn ddigonol i ymdopi ag unrhyw newidiadau yn llif y traffig o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd cynigion ar gyfer arallgyfeirio sy'n ailddefnyddio adeiladau traddodiadol yn cael eu hystyried yn fwy ffafriol na rhai lle byddai'n rhaid codi adeiladau newydd. Byddai hefyd yn gynorthwyol petai Cynlluniau Fferm cadarn yn cael eu cyflwyno gyda chynigion fydd yn rhoi i'r Awdurdod fwy o wybodaeth am hyfywedd ffermydd a'r achos dros arallgyfeirio. Bydd angen i gynigion gydymffurfio â Polisi Cenedlaethol Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

6.31 Yn gyffredinol, ni chaniateir newid defnydd adeilad amaethyddol presennol i ddefnydd nad yw'n amaethyddol os bydd hynny'n golygu bod angen codi adeilad newydd ar gyfer y deunydd amaethyddol gwreiddiol. Fodd bynnag, os dangosir bod adeilad newydd yn hanfodol er mwyn arallgyfeirio ar y fenter fferm ac nad oes adeiladau addas ar gael i newid eu defnydd, bydd yr Awdurdod fel rheol yn caniatáu datblygu adeilad newydd cyn belled a'i fod yn cydymffurfio gyda pholisïau eraill yn y Cynllun.

**Polisi Datblygu 20: Arallgyfeirio Amaethyddol (20)**

O fewn y Parc Cenedlaethol rhoddir cefnogaeth i gynigion arallgyfeirio amaethyddol, sy'n helpu i gadw'r fferm yn hyfyw ac yn hyrwyddo pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, pan:

i. Fo'r datblygiad yn ffurfio rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol.

ii. Fo'r cynnig yn eilradd i'r defnydd a wneir o weddill y tir ar y fferm i gynhyrchu da byw neu gnydau.

iii. Fo'r cynllun yn cael ei gynnal ar ddaliad sydd wedi'i gofrestru'n fusnes amaethyddol.

iv. Fo'r datblygiad yn cydymffurfio gyda Pholisi Datblygu 9.

Pan fo angen adeilad newydd er mwyn cynnal y cynllun arallgyfeirio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mynnu bod yr ymgeisydd yn dangos nad yw'n ymarferol ailddefnyddio'r adeilad presennol. Pan nad yw'n ymarferol ailddefnyddio adeilad presennol, bydd raid i unrhyw adeilad newydd:

v. Fod yn hanfodol yn unswydd er mwyn gweithredu'r cynnig cynllun arallgyfeirio arfaethedig.

vi. Fod o fath ac o faint sy'n adlewyrchu natur y cynnig arallgyfeirio.

Os bodlonir y gofynion hyn, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio amodau ar y caniatâd cynllunio neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol i sicrhau bod yr adeilad newydd yn cael ei glymu am byth wrth y daliad amaethyddol.

### Twristiaeth a Hamddena

6.32 Mae twristiaeth wedi bod yn ddiwydiant traddodiadol yn Eryri a'r cyrchfannau gwyliau am gyfnod o ddwy ganrif o leiaf. Mae pobl wedi bod yn dod i'r ardal i fwynhau cymeriad dilychwin y dirwedd a'r golygfeydd a hunaniaeth Gymreig yr ardal. Er bod mynyddoedd Eryri wedi bod yn boblogaidd ar gyfer dringo a cherdded mynyddoedd mae ystod o weithgareddau eraill wedi cynyddu o ran poblogrwydd hefyd. Mae coedwigoedd, arfordiroedd a dyfroedd mewndirol Eryri hefyd yn denu niferoedd sylweddol o bobl i gymryd rhan yn y gweithgareddau hamdden, sy'n cynnwys chwaraeon padlo, canŵio, rafftio dŵr gwyn, hwylio, chwarae golf, beicio, pysgota a digwyddiadau hamddena eraill. Mae twristiaeth antur yn farchnad sy'n tyfu sy'n arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal trwy ddarparu cynnyrch gwahanol i'r gweithgareddau mwy traddodiadol sy'n cael eu cynnal o fewn y Parciau Cenedlaethol. Er bod yr Awdurdod yn cydnabod y potensial i ddefnydd cynyddol gael ei wneud o adnoddau naturiol yr ardal ar gyfer dibenion hamddena nid yw'n credu y dylai natur gynhenid yr adnoddau hyn na 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol gael eu peryglu o ganlyniad i ddatblygiad cyfleusterau hamddena, a fyddai o ran ei natur a'i faint yn amhriodol. Mae bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol hefyd yn denu ymwelwyr a phobl leol sydd yn arwain at fudd economaidd.

6.33 Trwy gyfrwng twristiaeth mae hi'n bosibl i gyflawni un o bwrpasau statudol y Parc Cenedlaethol; hynny ydi i hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Mae'r Awdurdod yn anelu at annog twristiaeth gynaliadwy ac ecodwristiaeth, gwneud y gorau o'r buddion economaidd a gwaith wrth warchod yr amgylchedd yn ogystal â buddiannau'r cymunedau lleol ar yr un pryd. Twristiaeth Gynaliadwy yw unrhyw ffurf o ddatblygiad, rheolaeth neu weithgaredd twristiaid sy'n sicrhau amddiffyn a chadw adnoddau naturiol, diwylliannol a chymdeithasol yn y tymor hir ac sy'n cyfrannu mewn modd positif a chyfiawn at ddatblygu economaidd a lles unigolion sy'n byw, gweithio neu'n aros yn yr ardaloedd gwarchodedig[43] . Diffinnir ecodwristiaeth fel "teithio cyfrifol i ardaloedd naturiol sy'n gwarchod yr amgylchedd, yn cynnal lles y bobl leol, ac yn cynnwys dehongliad ac addysg"[44]. Mae ecodwristiaeth a thwristiaeth gynaliadwy yn cefnogi nodau ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.

6.34 Mae twristiaeth yn Eryri yn dibynnu llawer ar yr amgylchedd naturiol; ei dirweddau a'i arfordir yw sylfaen twristiaeth. Mae'n rhaid gwarchod yr amgylchedd naturiol i sicrhau ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio i ddenu twristiaeth am flynyddoedd i ddod. Felly ni ddylai datblygu twristiaeth ddifrodi natur gynhenid yr amgylchedd naturiol na chael effaith negyddol ar fwynhad tawel o'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn hefyd yn cynnwys datblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar unrhyw safleoedd cadwraeth a ddynodwyd yn statudol. Oherwydd bod cynnigion ar gyfer datblygiadau twristiaeth a hamdden wedi eu lleoli yn aml yng nghefn gwlad agored, tu allan i aneddiadau, mae angen i capasiti'r dirwedd ar gyfer darparu ar gyfer mathau penodol o ddatblygiad gael ei archwilio'n ofalus. Felly bydd angen ystyried priodoldeb y datblygiad a'i effeithiau tirwedd a gweledol posibl ar Ardal Cymeriad Tirwedd arbennig mewn perthynas â'r canllawiau datblygu yn y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol Tirweddau Eryri a'r Asesiad Capasiti a Sensitifrwydd Tirwedd.

43 Siarter Ewropeaidd dros Dwristiaeth Gynaliadwy
44 Cymdeithas Rhyngwladol Ecotwristiaeth


Canolfan Tryweryn © Croeso Cymru

**Polisi Strategol I: Twristiaeth (I)**

Er mwyn creu a chynnal twristiaeth gynaliadwy neu eco o fewn y Parc Cenedlaethol ac ymestyn y cyfnod pan fo twristiaid yn ymweld tra'n gwarchod a gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig bydd yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi datblygiad hamddena a thwristiaeth sy'n seiliedig ar egwyddorion twristiaeth gynaliadwy.

ii. Adnabod a hyrwyddo ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol ar gyfer denu ymwelwyr tra'n sicrhau nad yw 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn cael eu heffeithio.

iii. Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gludiant ar gyfer ymwelwyr i ac o'r Parc Cenedlaethol.

iv. Cefnogi'r diwydiant llety a trwy annog gwelliant yng nghynaliadwyedd ac ansawdd y lletai presennol ar gyfer ymwelwyr.

v. Annog cynigion sy'n hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cynigion a fydd yn cynorthwyo pobl anabl.

**Cyfleusterau Twristiaid**

6.35 Yr unig adeg y bydd datblygiadau newydd yn cael eu cefnogi yw pan ellir dangos nad yw'n effeithio'n niweidiol ar gymeriad 'Rhinweddau Arbennig' Eryri; bydd rhaid i'r datblygiadau gael eu lleoli yn agos at brif ffordd fel nad yw'n rhoi rhagor o bwysau ar ffyrdd bach gwledig a all fod yn anaddas, ac ni ddylent achosi cynnydd sylweddol mewn trafnidiaeth geir. Ystyrir bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau hamdden, rhwydweithiau hamdden, a chefn gwlad agored yn gyfleusterau twristiaeth pwysig, yn ogystal ag ateb anghenion y cymunedau lleol.

6.36 Fe ddylai'r cyfleusterau, lle bo hynny'n ymarferol, wasanaethu anghenion preswylwyr ac ymwelwyr ochr yn ochr, canolfannau hamdden er enghraifft, sy'n cael eu defnyddio gydol y flwyddyn gan breswylwyr a thwristiaeth ill dau – mae hyn yn gwella hyfywedd economaidd a'r ffordd y maent yn cael eu derbyn. Ni ddylid cyflwyno gwasanaethau sy'n seiliedig ar ymwelwyr ar draul gwasanaethau newydd gydol y flwyddyn sy'n gwasanaethu anghenion lleol. Gellid dosbarthu rhai cynigion twristiaeth mawr fel datblygiadau mawr, felly byddai angen ystyried cynnig o'r fath yng nghyd-destun Polisi Strategol B ac fe ddylai'r holl gynigion ystyried Polisi Datblygu 1.



Lôn Gwyrfai

**Polisi Datblygu 21: Twristiaeth a Hamddena (21)**

O fewn y Parc Cenedlaethol diogelir atyniadau twristiaeth presennol ac fe fyddant yn cael eu gwella trwy fabwysiadu egwyddorion twristiaeth gynaliadwy neu eco. Bydd atyniadau twristiaeth newydd a gwella atyniadau presennol yn cael eu cefnogi pan:

i. Ellir cael mynediad atynt trwy gyfrwng amrywiol ddulliau o deithio, yn enwedig rhai cynaliadwy fel cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

ii. Y'i lleolir yn agos at y brif rwydwaith o ffyrdd a pan nad yw'n achosi cynnydd annerbyniol yn y traffig yn y cyffiniau.

iii. Na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar 'Rinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

iv. Maent yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol, heb niweidio mwynhad tawel, profiad ymwelwyr ac ansawdd bywyd y trigolion lleol.

v. Mae'r cyfleuster wedi cael ei ddylunio neu ei newid i wella hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.

vi. Nid yw'n cael effaith andwyol ar y golygfeydd tuag at neu o'r Parc Cenedlaethol ac nid yw'n creu cynnydd sylweddol mewn llygredd sŵn na golau a allai effeithio yn andwyol ar uniondeb Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri.

vii. Fydd y cyfleusterau presennol yn cael eu gwella neu pan fo trosi adeilad gwag neu un a dan-ddefnyddir yn cael ei gynnig.

**Llety Twristiaid**

6.37 Bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu cynigion i wella llety gwasanaeth presennol, yn hytrach na datblygu llety newydd i dwristiaid. Bydd y dull gweithredu hwn nid yn unig yn osgoi i'r tir cyfyngedig sydd yna ar gael o fewn aneddiadau rhag cael ei ddatblygu ar gyfer dibenion twristiaeth, ond bydd hefyd yn galluogi i gymeriad adeiladau traddodiadol gael eu gwarchod. Bydd adeiladu lletai newydd wedi'u gwasanaethu yn cael eu caniatáu o fewn ac yn agos at brif ardal adeiledig yr aneddiadau, fodd bynnag o fewn ffiniau datblygu tai os adnabuwyd angen am dai fforddiadwy yna rhoddir y flaenoriaeth i dai. Bydd yr Awdurdod yn annog y ddarpariaeth o letai a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr anabl.

6.38 Mae angen i'r Parc Cenedlaethol gynnal ystod dda o letai o safon ar gyfer ymwelwyr. Mewn rhai aneddiadau - yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol mae'r economi leol yn ddibynnol iawn ar argaeledd sector lletai. Ymwrthodir â throsi lletai gwasanaeth i rai hunan arlwyo neu ar gyfer dibenion sydd a wnelo dim byd â thwristiaeth sy'n ei eithrio rhag cael ei ail-ddefnyddio yn y dyfodol fel llety gwasanaeth. Ystyrir newid defnydd yn fwy ffafriol, fodd bynnag i ddiwallu angen lleol cydnabyddedig am dai fforddiadwy

**Polisi Datblygu 28: Lletai wedi'u Gwasanaethu Wedi eu Hadeiladu o'r Newydd (28)**

Bydd adeiladu lletai newydd wedi'u gwasanaethu yn cael ei ganiatáu o fewn neu gyfagos i brif ardal adeiledig canolfannau gwasanaeth lleol, aneddiadau gwasanaeth, ac aneddiadau eilaidd cyn belled â bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

i. Nid yw'r cynnig ar safle sydd ei angen ar gyfer angen tai fforddiadwy lleol

ii. Mae graddfa a dyluniad y datblygiad yn gydnaws a'i leoliad.

Ni chaniateir newid defnydd llety wedi'i wasanaethu i'r sector di-wasanaeth, neu ei drosi ar gyfer defnydd arall nad yw a wnelo twristiaeth a fyddai'n atal ei drosi yn ôl i lety twristiaid a wasanaethir yn y Parc Cenedlaethol oni bai ei fod yn bodloni angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy.

### Carafanau Sefydlog a Chabanau Gwyliau

6.39 Cydnabyddir fod meysydd carafannau a chabanau gwyliau yn ychwanegiad pwysig i'r ystod o letai sydd ar gael er mwyn diwallu anghenion amrywiol ymwelwyr y Parc. Mae nifer fawr o feysydd carafannau sefydlog wedi eu lleoli yn y Parc Cenedlaethol, ac fe leolir y rhan fwyaf ohonynt ar hyd yr arfordir gorllewinol. Heddiw, byddai nifer o'r safleoedd hyn yn cael eu hystyried fel rhai anaddas oherwydd eu bod mewn mannau agored ac oherwydd nad ydynt wedi cael eu sgrinio. O ystyried nifer presennol y carafannau sefydlog a chabanau yn y Parc Cenedlaethol, nid yw'r Awdurdod yn credu bod cyfiawnhad digonol dros gael rhagor o safleoedd carafannau a meysydd cabanau o fewn y parc oherwydd yr effaith a gânt ar y dirwedd a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Felly ni fydd cynigion o'r fath yn cael eu caniatáu. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cyhoeddi dwy o Ddogfennau Cynllunio Atodol, Tirweddau a Morluniau Eryri, sy'n nodi 25 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd arwahanol (ACT) a'r Asesiad o Sensitifrwydd a Gallu (capasiti) y Dirwedd. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar hyn ac yn edrych ar effeithiau posibl datblygiadau tyrbinau gwynt, mastiau telathrebu a safleoedd carafannau sefydlog a chabannau (siales) ar yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd. Bydd y ddwy ddogfen yn ystyriaethau cynllunio perthnasol a byddant yn cael eu defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau ar geisiadau Cynllunio.

6.40 Yn gyffredinol, cefnogir ceisiadau i uwchraddio cyfleusterau ar safleoedd, fel gwella blociau toiledau, tirlunio mewnol a gosodiad, os ydynt yn gwella'r amgylchedd cyffredinol a golwg y safle a'i effaith weledol gyffredinol ar y tirlun. Mewn rhai achosion, bydd yr Awdurdod yn ystyried ymestyn safle, ond heb gynnydd mewn niferoedd statig na niferoedd cabanau, os gellir dangos y byddai budd clir mewn lleihau'r effaith ar y tirlun o amgylch. Gellid cyflawni hyn drwy leihau dwysedd cyffredinol, symud llecynnau i leoliadau llai amlwg, a mwy a gwell tirlunio ar ffiniau'r safle. Ni fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn edrych yn ffafriol ar ymestyn ffiniau'r safle os yw hyn o ganlyniad i ddisodli unedau gyda charafanau neu gabanau mwy o faint sy'n arwain at golli gofod amwynder. Dylid cadw maint unrhyw estyniad ffisegol i'r safle i gyn lleied â phosib, a dylai berthnasu'n glir â'r gwelliannau amgylcheddol cyffredinol a gynigwyd. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi disodli carafannau sefydlog â chabanau (siales) wedi eu cynllunio'n briodol os oes gwelliant cyffredinol i'r safle a does dim effaith annerbyniol ar y dirwedd. Hefyd, mae gan yr Awdurdod GCA ar letai ymwelwyr sy'n rhoi gwybodaeth ategol ychwanegol ar gyfer y polisïau hyn.

### Polisi Datblygu 22: Safleoedd Cabanau a Charafanau Sefydlog (22)

O fewn y Parc Cenedlaethol ni roddir caniatâd i safleoedd carafanau statig neu gaban nac estyniadau i safleoedd presennol sy'n cynnwys cynnydd yn y nifer o unedau statig.

Cefnogir ailddatblygu safleoedd a all gynnwys gwella neu ymestyn cyfleusterau o fewn ffiniau safle presennol, gostwng dwysedd, neu welliannau amgylcheddol buddiol, os oes gwelliant cyffredinol i'r safle a'i osodiad yn y tirlun.

Yn eithriadol, gellir ymestyn ardaloedd safle statig a chabanau, ond heb gynyddu llecynnau, ble byddai hyn yn cyflenwi gwelliant amgylcheddol cyffredinol clir, i'r safle a'i osodiad yn y tirlun o amgylch.

Caniateir gosod cabanau neu unedau llety amgen yn lle unedau statig lle bydd gwelliant cyffredinol i'r safle a lle nad oes effaith annerbyniol amgylcheddol neu dirweddol.

Ni chaniateir cynigion i newid defnydd carafannau neu gabanau gwyliau sefydlog o ddefnydd twristiaeth i ddefnydd preswyl.

### Carafanau Teithiol a Meysydd Gwersylla

6.41 O ystyried niferoedd presennol safleoedd carafannau teithiol a meysydd gwersylla yn y Parc, nid yw'r Awdurdod yn ystyried bod yna ddigon o gyfiawnhad dros unrhyw safleoedd pellach o fewn y Parc oherwydd eu heffaith ar y dirwedd a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Felly ni chaniateir cynigion o'r fath. Gall yr Awdurdod gefnogi ceisiadau i ymestyn neu uwchraddio safleoedd carafannau teithiol a gwersylla sy'n bodoli'n barod gan gynnwys cynnydd yn nifer y lleiniau ond dim ond pan fyddant wedi eu sgrinio yn dda a lle mae gwelliant tirwedd yn gyffredinol. Bydd angen iddynt fod ar raddfa a maint sy'n cydweddu gyda'r gosodiad.

6.42 Ni fydd disodli lleiniau gwersylla gyda lleiniau teithiol neu lleiniau sefydlog yn cael ei ganiatáu, er mwyn cynnal ystod o ddarpariaeth llety o fewn y Parc Cenedlaethol ac i leihau effaith amgylcheddol.

### Polisi Datblygu 23: Safleoedd Carafanau Teithiol a Gwersylla (23)

O fewn y Parc Cenedlaethol, ni chaniateir meysydd carafannau teithiol a gwersylla newydd.

Caniateir ehangu neu uwchraddio meysydd carafannau teithiol a gwersylla presennol os bodlonir y meini prawf a ganlyn:

i. Mae'r safle wedi ei sgrinio'n dda o olygfannau cyhoeddus, a/neu byddai gostyngiad yn yr effaith ar y dirwedd o gwmpas.

ii. Mae graddfa a gosodiad yr ehangiad neu'r uwchraddio yn briodol yn y dirwedd.

iii. Mae'r cais yn diogelu a ble'n briodol yn gwella diddordebau treftadaeth naturiol.

iv. Bydd y cynnig yn gwella tirluniad mewnol y safle yn sylweddol ac fe fydd yn gwella ansawdd y cyfleusterau presennol, neu yn datblygu cyfleusterau newydd o ansawdd uchel.

v. Mae'r cais yn gymesur â maint y safle presennol.

Ni fydd disodli lleiniau gwersylla gyda lleiniau eraill nad ydynt yn rai gwersylla yn cael eu caniatáu.

### Llety Gwyliau Amgen Effaith Isel

6.43 Yn y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd yn yr ystod o letai hunan-arlwyo dros dro / symudol ar y farchnad. Mae'r rhain yn cynnwys, pods, pebyll crwyn, tipis, cytiau bugail a phebyll pren. Maent wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac mae 'gwersylla crand neu glampio' bellach yn fath arall o brofiad gwyliau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyfraniad y gall y mathau newydd o lety hunanddarpar hyn ei wneud o ran darparu ystod ehangach o lety yn y Parc Cenedlaethol yn ogystal â chynnig buddion ehangach i'r economi leol. Mae'r mathau hyn o lety effaith isel fel arfer yn llai ymwthiol yn y dirwedd na'r carafanau sefydlog a theithiol mwy traddodiadol.

6.44 Oherwydd sensitifrwydd tirwedd y Parc Cenedlaethol, ac er mwyn osgoi amlder safleoedd, dim ond cynigion sy'n rhan o gynllun arallgyfeirio ar fferm neu sy'n ategol i atyniad newydd neu bresennol i dwristiaid fydd yn dderbyniol. Bydd y mathau o atyniadau twristaidd yn cael eu hamlinellu yn y CCA Llety Ymwelwyr.

6.45 Bydd angen rhoi prif ystyriaeth i'r dirwedd ac felly bydd angen i unrhyw safleoedd newydd fod ar raddfa fach ac mewn lleoliad anymwthiol. Lleoliad anymwthiol yw un sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd a / neu lle gellir sicrhau bod yr unedau'n ymdoddi'n hawdd i'r dirwedd heb yr angen am nodweddion dynol diangen fel llawr caled a ffensys. Bydd golygfeydd o'r safle, o olygfeydd cyhoeddus, yn allweddol ar gyfer asesu addasrwydd unrhyw safle penodol.

6.46 At hynny, bydd angen i'r strwythurau llety fod yn rhai dros dro y gellir eu symud ymaith pan nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. Er mwyn sicrhau'r effaith leiaf bosibl ar y dirwedd, dylai ond defnyddio lloriau caled os yn angenrheidiol. Mae canllawiau pellach ar faint safle derbyniol i'w gweld yn CCA Llety Ymwelwyr yr Awdurdod.

6.47 Er mwyn sicrhau bod y strwythurau dros dro hyn yn cael eu defnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad ydynt yn dod yn anheddau parhaol llawn amser fe ddylai'r strwythurau ddarparu llety gwyliau sylfaenol. Ni ddylent ond ddarparu cyfleusterau sylfaenol ar gyfer cysgu, eistedd a bwyta heb osod gwasanaethau dŵr na darparu cyfleusterau draenio ar gyfer toiledau, cawodydd a golchi. Mae hyn yn sicrhau nad yw strwythurau o'r fath yn cynhyrchu lefel o sefydlogrwydd a allai gynyddu lefel yr effaith ar y dirwedd, ac adfer y safle petai angen clirio'r strwythurau, er enghraifft, petai'r defnydd yn dod i ben. Bydd yr Awdurdod yn gofyn am strategaeth fanwl sy'n amlinellu sut y bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr a'i ddefnydd gwreiddiol petai'r defnydd arfaethedig yn peidio, a bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n angenrheidiol yn cael ei chynnwys yn y CCA Llety Ymwelwyr.

6.48 Fe ddylai cyfleusterau ychwanegol, megis cawodydd neu doiledau (os nad ydynt yn bresennol yn barod) gael eu darparu ar wahân i'r llety drwy drosi neu ymestyn yr adeilad(au) presennol. Os nad oes adeiladau addas ar gael, bydd angen i'r ymgeisydd brofi'r angen am gyfleusterau ychwanegol yn glir ac yn gymesur â graddfa'r datblygiad

6.49 Bydd yr Awdurdod yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi unrhyw gynnig sy'n rhan o gynllun arallgyfeirio ar fferm i gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 6 a Pholisi Datblygu 20. Mae rhagor o wybodaeth hefyd yn cael ei hamlinellu yn CCA Arallgyfeirio ar Fferm yr Awdurdod.

6.50 Os yw'r cynnig i gefnogi atyniad presennol i ymwelwyr, yna bydd angen darparu cynllun busnes ar gyfer y fenter i ddangos na fydd yr atyniad yn gwbl ddibynnol ar y llety amgen ac y bydd yr atyniad twristaidd yn dal yn hyfyw ac yn gallu parhau i weithredu gan sicrhau nad yw'r safle yn dod yn safle llety amgen yn unig.

6.51 Bydd amod ynghlwm wrth y caniatâd a fydd yn datgan petai'r atyniad presennol i ymwelwyr yn dod i ben yna bydd angen cael gwared ar yr unedau llety amgen.

6.52 Bydd cynigion ond yn cael eu caniatáu ar gyfer llety gwyliau hunanddarpar tymor byr a bydd hyn yn cael ei sicrhau drwy amod. Bydd yr amod yn cyfyngu ar y meddiannydd i ddim mwy na 28 diwrnod mewn blwyddyn galendr a bydd angen cadw rhestr o breswylwyr a'u cyflwyno i'r Awdurdod ar gais. Bydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu dileu fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio i sicrhau nad yw petheuach ychwanegol yn cael eu hychwanegu a allai fod yn groes i nodau'r polisi.

# 6 Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy



Cader Idris

**Polisi Datblygu 29 Llety Gwyliau Amgen (29)**

Bydd datblygiadau bach am lety amgen yn cael eu caniatáu ar yr amod bod pob un o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

i. Mae'r safle yn rhan o gynllun arallgyfeirio ar fferm neu'n ategol i atyniad newydd neu bresennol i dwristiaid ac nid yw'n dod yn brif atyniad.

ii. Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn peri niwed sylweddol i gymeriad y dirwedd, mae'n cyd-fynd yn anymwthiol yn y dirwedd ac wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd.

iii. Nid yw'r cynnig yn arwain at greu mynediad i gerbydau neu le parcio newydd a fyddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad y dirwedd.

iv. Dylai unrhyw gyfleusterau ategol gael eu lleoli o fewn adeilad presennol neu fel estyniad i'r cyfleusterau presennol.

v. Mae'r safle ar gyfer llety gwyliau tymor byr yn unig.

Ni fydd safleoedd newydd nad ydynt yn gysylltiedig â chynllun arallgyfeirio ar fferm neu atyniad ymwelwyr presennol yn cael eu caniatáu.

**Manwerthu**

6.53 Mae datblygiad manwerthu yn bwysig i fwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr sy'n dod i'r Parc. Wrth lywio datblygiad manwerthu mae'n bwysig bod cydbwysedd yn cael ei daro rhwng anghenion lleol ac ymwelwyr.

6.54 Yn y Parc Cenedlaethol, Y Bala a Dolgellau sydd gan yr ardaloedd manwerthu mwyaf eang, gyda chraidd mân werthiant llai yn seiliedig fwy ar dwristiaeth yn Aberdyfi, Betws y Coed a Harlech.

6.55 Dylai datblygiadau e.e. archfarchnadoedd gael eu lleoli o fewn aneddiadau mwy Y Bala a Dolgellau oherwydd maent yn fwy addas a chynaliadwy fel lleoliadau ac maent yn hygyrch trwy gyfrwng y rhan fwyaf o ffyrdd o deithio. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad o'r fath gael ei leoli o fewn yr ardal manwerthu dynodedig neu o fewn pellter cerdded rhesymol o ganol y dref (300m), gyda mynediad da i gerddwyr a'r holl ddulliau cludiant. Mae radiws o 300m yn darparu cyfleon i ddatblygwyr o fewn yr anheddau yma.

6.56 Mae'r prif rannau manwerthu yn Y Bala, Dolgellau, Aberdyfi, Betws y Coed & Harlech wedi cael eu dangos ar y mapiau manwl ar gyfer y trefi hyn, - mae'n bwysig fod datblygiadau manwerthu yn cael eu cyfyngu i'r mannau hyn oherwydd rhain yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau manwerthu oherwydd gellir cael mynediad atynt trwy gyfrwng y rhan fwyaf o ddulliau o deithio, ac maent o fewn cyrraedd gwasanaethau eraill a ddarperir yng nghanol y dref.

6.57 Yng nghanol rhai trefydd collwyd rhai unedau manwerthu i ddefnydd arall[45]. Gall hyn niweidio bywiogrwydd economaidd a hyfywedd ardaloedd manwerthu. Er mwyn mynd i'r ymrafael â'r tueddiad hwn bydd yr Awdurdod yn ymwrthod â chynigion ar gyfer newid defnydd A1 (siop) ar gyfer defnydd preswyl neu lety gwyliau. Bydd newid defnydd uned manwerthu llawr gwaelod A1 i ddefnydd A2 (banciau/asiantwyr tai/yswiriant/gwasanaethau proffesiynol ac ati) neu ddefnydd A3 (bwytai/caffi/tafarndai/bwyd ac ati) o bosib yn cael ei ystyried os gellir profi nad yw'n hyfyw i ddatblygu uned A1 a/neu os yw'r uned A1 wedi bod yn wag neu ar werth/ei hysbysebu (gyda asiant tai neu ddim), heb ddiddordeb, am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy. Yn yr achos hwn fe fyddai angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'r dyddiad hysbysebu cyntaf gyda asiant tai. Yn ychwanegol i hyn, fe fyddai angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ynglŷn â os oes angen cymunedol ac anheddol ar gyfer y datblygiad A2/A3.

6.58 Mewn trefi a phentrefi eraill o fewn y Parc Cenedlaethol caniateir datblygiad manwerthu ar raddfa fach cyn belled a'i fod wedi cael ei leoli o fewn y prif leoedd adeiledig.

45 Astudiaeth Manwerthu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2016)

**Polisi Datblygu 24: Manwerthu (24)**

Bydd ceisiadau ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael eu cefnogi os yw:

i. Unrhyw ddatblygiad manwerthu hwylustod (gan gynnwys archfarchnadoedd bwyd) sydd yn gwasanaethu dalgylch ehangach na'r anheddiad mae wedi ei leoli ynddo yn gyfyngedig i'r Bala a Dolgellau. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad gael ei leoli o fewn yr ardal fanwerthu dynodedig neu o fewn pellter cerdded rhesymol o ganol y dref (300m), gyda mynediad da i gerddwyr a'r holl ddulliau cludiant.

ii. Mae'r datblygiad yn cryfhau economi manwerthu'r anheddiad ac yn cyfrannu at ei fywiogrwydd a'i hyfywedd.

iii. Y datblygiad wedi'i leoli o fewn prif fannau adeiledig aneddiadau gwasanaeth ac aneddiadau eilaidd eraill, dylai'r raddfa fod yn briodol i'w osodiad a bod y cais yn bennaf ar gyfer ac er budd y gymuned leol.

O fewn y mannau manwerthu a ddynodwyd yn Aberdyfi, Bala, Betws y Coed, Dolgellau a Harlech, gwrthwynebir newid defnydd o adeilad manwerthu llawr gwaelod (siopau A1) ddefnydd preswyl neu lety gwyliau. Bydd newid defnydd uned manwerthu llawr gwaelod A1 i ddefnydd A2 neu ddefnydd A3 o bosib yn cael ei ystyried os gellir profi nad yw'n hyfyw i ddatblygu uned A1 a/neu os yw'r uned A1 wedi bod yn wag neu ar werth/ei hysbysebu (gyda asiant tai neu ddim), heb ddiddordeb, am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy. Yn yr achos hwn fe fyddai angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'r dyddiad hysbysebu cyntaf gyda asiant tai. Yn ychwanegol i hyn, fe fyddai angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ynglŷn â os oes angen cymunedol ac anheddol ar gyfer y datblygiad A2/A3.



Aberdyfi ©Croeso Cymru


Llynnau Mymbyr ©Croeso Cymru

# Pennod 7

# Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysedd

Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant (L) .......... 114

Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr (25) .......... 115

Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26) .......... 115

# 7. Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysedd

7.1 Mae'r rhan hon yn darparu ymateb i'r amcanion a ganlyn:

> Annog datblygiad newydd mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio gyda mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol a dulliau cynaliadwy o deithio.
>
> Cefnogi mentrau sydd wedi eu hanelu at annog y defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.

**Hygyrchedd a Thrafnidiaeth**

7.2 Mae cludiant yn chwarae rhan integrol mewn nifer o agweddau o fywyd dydd i ddydd. Mae'n creu cyfleoedd i bobl gael mynediad at swyddi, gwasanaethau, addysg iechyd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol ac mae'n cysylltu busnesau a marchnadoedd cynnyrch. Mae gwella'r ddarpariaeth cludiant drafnidiaeth yn ffordd bwysig o gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a gwella ffordd ansawdd bywyd. Mae'r Awdurdod yn annog patrwm teithio sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio pellteroedd byr neu deithiau byr, y bws neu'r trên ar gyfer teithiau pellach, gyda theithio mewn car yr opsiwn a ffefrir leiaf; yn yr achosion hynny pan mae defnyddio'r car yn anochel, mae'r Awdurdod yn cefnogi rhannu ceir er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd fel ei fod cyn lleied â phosib. Er mwyn llwyddo i gyflawni'r nod o hyrwyddo teithio yn gynaliadwy, mae'r cynllun hwn yn annog datblygiad mewn mannau sy'n hawdd cael mynediad atynt trwy gyfrwng dulliau o deithio sy'n gynaliadwy, a thrwy hynny alluogi pobl i ddod allan o'u ceir a cherdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus wrth iddynt fyw eu bywydau.

7.3 Mae'r gollyngiadau sy'n cael eu creu wrth i bobl deithio yn breifat yn golygu mai dyma sy'n achosi cyfran sylweddol o'r gollyngiadau cenedlaethol sy'n cael eu creu sy'n achosi newid yn yr hinsawdd. I'r perwyl hwn mae Cynllun Gofodol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn trwy leihau'r angen i deithio; a pan fo hynny'n briodol mae'r Awdurdod yn bwriadu cefnogi'r amcanion hyn; yn enwedig yn nhermau cerdded a beicio sy'n llesol i iechyd ac sy'n gadarnhaol i'r amgylchedd. Mae cydleoli swyddi, tai a gwasanaethau hefyd yn hanfodol wrth leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, nid yw'n bosib i'r Awdurdod gyflawni'r amcanion hyn ar ei ben ei hun; bydd yn gweithio gydag asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau lleol yn ogystal ag awdurdodau'r priffyrdd.

7.4 Mae diwallu anghenion teithio a chludiant pobl leol a'r gymuned fusnes yn Eryri yn her sylweddol. Mae aneddiadau a chymunedau o fewn Eryri yn wasgaredig ac mae'r boblogaeth yn fach. Mae daearyddiaeth a thopograffi Eryri ynghyd ag argaeledd gwasgaredig gwaith yn golygu bod yna ddibyniaeth fawr ar ddulliau preifat o gludiant wedi bodoli dros y blynyddoedd. Gall hyrwyddo cludiant cyhoeddus wella hygyrchedd at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig ymysg bobl nad ydynt yn berchen ar gar. Fodd bynnag oherwydd y dirwedd hon sy'n wledig yn bennaf, ni fydd hi'n hawdd newid y ddibyniaeth ar geir dros y tymor byr, ond fe all cynllunio defnydd tir helpu i leihau'r angen i or-ddefnyddio ceir preifat trwy leoli datblygiad newydd mewn lleoliadau cynaliadwy. Bydd rhwydwaith cludiant cyhoeddus effeithiol yn cefnogi dyhead economaidd y rhanbarth ehangach trwy hwyluso teithiau gweithwyr a lleihau effaith costau cynyddol tanwydd ar y gweithlu. Mae asesiadau cludiant yn fecanwaith pwysig ar gyfer gosod y raddfa ac effaith ragweledig teithio o ddatblygiadau newydd. Maent eu hangen fel rheol ar gyfer cynigion mawr a ghrybwyllir yn Polisi Cynllunio Cymru nad ydynt yn debygol o ddigwydd yn y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd yr Awdurdod yn ystyried gofyn am asesiad cludiant mewn ardaloedd sensitif lleol ar gyfer cynigion llai sy'n debygol o gael goblygiadau teithio sylweddol ar lefel leol.

7.5 Yn yr un modd â meysydd eraill, mae diogelwch y ffordd yn ystyriaeth bwysig i'r Awdurdod, a bydd atal traffig dros dro o ganol trefi megis Dolgellau yn cael ei annog, yn enwedig pan fydd diogelwch cerddwyr yn cael ei wella ochr yn ochr gyda gwelliannau yn symudiad cerbydau a chyfleusterau parcio. Gallai mesurau o'r fath wella cymeriad a mwynder aneddiadau fel lleoedd i fyw, gweithio, siopa ac ymweld â hwy. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio ei bwerau i wneud Gorchmynion Rheoliad Traffig (GRhT) yn y mannau hynny lle sefydlwyd fod hynny'n angenrheidiol a bod lonydd gwyrdd neu ffyrdd eraill yn cael eu defnyddio mewn ffordd amhriodol. Pan fydd cynnig gerbron i wneud gwelliannau i ffyrdd dylid rhoi blaenoriaeth i effeithiau esthetig priffyrdd, wrth wella unioniad ac ymddangosiad. Dylai unrhyw welliannau gael eu cyflawni trwy ddull nad yw'n effeithio'n andwyol ar 'Rinweddau Arbennig' Eryri. Mae gwelliannau i briffyrdd a gyflawnwyd yn ddiweddar yn y Parc Cenedlaethol wedi darparu enghreifftiau arweiniol o arfer gorau ar gyfer ardaloedd eraill ac fe'i canmolwyd yn genedlaethol am hynny. Bydd yr Awdurdod yn annog awdurdodau priffyrdd perthnasol i fabwysiadu canllawiau sy'n cydnabod pwysigrwydd safonau amgylcheddol uchel. Mae nifer o'r ffyrdd gwledig yn y Parc Cenedlaethol yn gul ac fe'u defnyddir gan gerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth ceffylau, yn ogystal â cherbydau. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn gweithio â'r awdurdod priffyrdd i geisio datrys gwrthdaro, ac fe all addasu terfynau cyflymder ar y ffordd lle bo'n bosibl a phriodol fod yn un ystyriaeth.

7.6 Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau priffyrdd lleol sy'n rheoli rheolaeth strategol a datblygiad materion sydd a wnelo cludiant / trafnidiaeth. Ar lefel leol mae'r rhain yn cael eu cyd-lynu gan bartneriaethau o'r holl awdurdodau. Mae'r Parc Cenedlaethol yn rhychwantu ardal a gwmpesir gan ddau Gynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd (CTLI Canolbarth Cymru a CTLI Gogledd Cymru). Pan fo hynny'n briodol, bydd yr Awdurdod yn cefnogi nod ac amcanion y ddau Gynllun Cludiant.

7.7 Mae defnyddio rheilffyrdd na defnyddir mwyach a llwybrffyrdd llinellol eraill, yn darparu cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a marchogaeth fel dulliau amgen o deithio, ar gyfer teithio i'r gwaith a hamddena, a hynny mewn ffordd ddiogel oddi wrth drafnidiaeth y briffordd. Mae lleoliadau llwybrffyrdd hamddena fel y rhain wedi cael eu hamlinellu ar y mapiau cynigion.

7.8 Mae Menter Goriad Gwyrdd yn canolbwyntio ar rwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy a materion capasiti traffig o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae'n anelu at wella amlrwydd ac ansawdd y gwasanaeth, yn ogystal â helpu i gyflawni'r nod strategol o annog pobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Mae gwasanaeth bws sydd wedi ei wella yn sylweddol o fudd i bobl leol hefyd, sydd â mynediad at safon drefol o ran amlrwydd a dibynadwyedd. Mae gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa yn rhan o'r fenter hon ac mae'n darparu cludiant o nifer o wahanol leoliadau o du mewn a thu allan i'r Parc. Mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau gyda'i ymglymiad i'r fenter hon. Mae'n rhaid i ymdrechion yn y dyfodol sicrhau gwell integreiddiad gyda rhwydweithiau cludiant cyhoeddus yn y rhanbarth er mwyn darparu opsiwn hyfyw, cyfleus ac integredig o drafnidiaeth.

7.9 Bydd y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r defnydd o reilffyrdd prif lif sy'n rhedeg drwy'r parc ar gyfer cludo nwyddau oherwydd fe all hyn leihau'r nifer o gerbydau nwyddau sydd yna ar y briffordd. Bydd hefyd yn cefnogi'r defnydd cynyddol o reilffyrdd ar gyfer cludo'r cyhoedd.

### Polisi Strategol L: Hygyrchedd a Chludiant (L)

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymroddedig i wella mynediad at gyfleusterau lleol a lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn ceir preifat. O fewn y Parc Cenedlaethol bydd cerdded a beicio yn cael ei annog pa bryd bynnag fo hynny bosibl a bydd mynediad at gludiant cyhoeddus a'r ddarpariaeth o gyfleusterau yn cael ei ddarparu.

Cefnogir datblygiad pan:

i. Leolir y ddarpariaeth o wasanaethau er mwyn lleihau'r angen i deithio.

ii. Fo mynediad cyfleus trwy gyfrwng llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio a chludiant cyhoeddus, a bod hynny felly yn annog y defnydd o'r dulliau hyn o deithio ar gyfer teithiau lleol ac yn lleihau'r angen i deithio gyda char preifat a gwella mynediad at wasanaethau i'r rhai hynny lle mae cael mynediad i gludiant yn anodd.

iii. Mae yna welliant o ran yr hygyrchedd i bawb, yn enwedig pobl anabl.

iv. Nad yw'r newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn niweidio neu'n achosi effeithiau andwyol i HTC adeiladau rhestredig neu henebion hanesyddol, nac yn effeithio yn andwyol ar ddynodiadau amgylcheddol. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i warchod a gwella bioamrywiaeth nodweddiadol Eryri, yn enwedig cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodwyd o dan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd. Pan fo hynny'n bosibl, bydd y gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer defnydd ar wahân ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

v. Fydd yn lleihau neu yn cael gwared â thraffig cerbydol o ganol trefi a lle bo'n bosibl o ardaloedd gwledig.

vi. Nad yw amgylchedd naturiol y parc yn cael ei effeithio yn andwyol.

vii. Ddarperir cyfleusterau parcio beiciau diogel lle bo hynny'n briodol.

Bydd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gefnogi mentrau cludiant a thrafnidiaeth gynaliadwy priodol.

Bydd y llwybrau hamdden a ddynodir ar y mapiau cynigion yn cael eu diogelu rhag datblygiadau eraill a fyddai'n rhwystro eu defnydd fel llwybrau hamdden.

Bydd gwely trac Rheilffordd Corris o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag ffurfiau eraill o ddatblygiad fel ei fod yn gallu cael ei ailsefydlu fel rheilffordd.

Bydd y rhan segur hwnnw o'r rheilffordd sy'n rhedeg o Drawsfynydd i Flaenau Ffestiniog sydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw ddatblygiad amhriodol a fyddai'n rhwystro defnydd o'r llinell reilffordd fel coridor cludiant yn y dyfodol.

**Parcio i Ymwelwyr**

7.10 Ystyria'r Awdurdod bod y ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir o fewn y Parc Cenedlaethol yn ddigonol i gwrdd ag anghenion y cyhoedd. Darperir meysydd parcio gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol eraill mewn lleoliadau arfordirol, trefol a mynyddig, gan hwyluso'r ffordd i'r cyhoedd gael mynediad at y mannau hyn trwy gyfrwng cludiant preifat. Nid yw cynyddu lleoedd parcio ceir yn wyneb galw cynyddol tymhorol ac ar benwythnosau yn ddefnydd ymarferol nac ychwaith yn ddefnydd cynaliadwy o dir ac nid yw'n ateb effeithiol i reoli ymwelwyr, yn enwedig wrth ystyried nod yr Awdurdod i leihau'r ddibyniaeth ar y defnydd a wneir o gerbydau modur preifat. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod teithio mewn bysiau yn ddull amgylcheddol glên ac yn ddull mwy effeithiol a rhatach o deithio nac ydi cerbydau modur preifat.

7.11 Caniateir creu neu ymestyn meysydd parcio ymwelwyr parhaol ar safleoedd priodol yn Nolgellau a'r Bala gan yr Awdurdod pan ellir dangos bod angen rhagor o leoedd parcio. Caniateir gwneud defnydd dros dro o dir ar gyfer meysydd parcio i ymwelwyr tymhorol o fewn neu ar ymyl pentrefi poblogaidd cyn belled nad yw'n niweidiol i fwynder preswyl neu fynediad at ffordd. Dim ond pan mae'r meysydd parcio newydd neu'r rhai estynedig yn ffurfio rhan integrol o fenter rheoli traffig sydd wedi cael ei gynllunio i leihau effaith ceir a meysydd parcio ar yr amgylchedd y bydd yr Awdurdod yn eu caniatáu. Ni ddylid y creu neu ymestyn o faes parcio fod yn niweidiol i fwynderau preswyl na mynediad ffyrdd, a dylid cydymffurfio â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

**Polisi Datblygu 25: Parcio Cerbydau Ymwelwyr (25)**

O fewn y Parc Cenedlaethol ni fydd meysydd parcio newydd i ymwelwyr yn cael eu caniatáu tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Lleol oni bai eu bod yn rhan annatod o gynllun rheoli traffig arfaethedig neu'n rhan integrol o atyniad ymwelwyr newydd neu estynedig sy'n rhoi blaenoriaeth i gludiant cynaliadwy.

Rhaid i feysydd parcio parhaol newydd sy'n dderbyniol mewn perthynas â'r polisi hwn:

i. Fod wedi eu lleoli mewn man nad yw'n amlwg neu wedi eu dylunio[46]a'u tirweddu a lle bo hynny'n bosibl i wella eu hamgylchoedd a pheidio effeithio'n andwyol ar y dirwedd.

ii. Fod gydag arwynebedd athraidd.

iii. Beidio gwrthdaro gyda defnyddwyr eraill ar y ffyrdd.

iv. Beidio cyfaddawdu diogelwch ffordd.

v. Gael cysylltiad uniongyrchol, oddi ar y ffordd at gyrchfan dewisol defnyddwyr y maes parcio.

**Telathrebu**

7.12 Mae'r Awdurdod yn gwbl ymwybodol o'r angen sydd yna am ddulliau cyfathrebu cyfoes er mwyn manteisio'n llawn ar botensial yr ardal i gyflawni datblygiadau cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag ni fydd yr Awdurdod yn cefnogi'r ddarpariaeth o isadeiledd telathrebu os peryglir tirwedd neu 'Rinweddau Arbennig' y Parc o ganlyniad i ddylunio anaddas neu leoliad anaddas gosodiadau, neu pan fo effaith sylweddol andwyol ar fwynder y rhai sy'n byw gerllaw. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i weithredwyr ddilyn y cod ymarfer gorau ac yn disgwyl iddynt ymgynghori gyda chymunedau cyn iddynt gyflwyno ceisiadau o'r fath.

7.13 Aseswyd sensitifrwydd a chapasiti pob un o'r 25 Ardal Cymeriad Tirwedd yn Eryri i fastiau ffonau symudol ac maent wedi'u nodi yng Nghanllaw Cynllunio Atodol 13: Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd. Bydd canlyniadau'r asesiad yn helpu i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Felly, bydd angen i ddatblygwyr sy'n ceisio codi mastiau ffonau symudol yn y Parc Cenedlaethol dalu sylw i'r CCA hwn.

**Polisi Datblygu 26: Telathrebu (26)**

Bydd datblygiadau telathrebu'n cael eu caniatáu os nad ydynt yn gwneud niwed mawr i amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal, neu effeithio'n andwyol ar amwynder y bobl sy'n byw'n agos at y safle.

Dylai ceisiadau felly fodloni'r holl feini prawf canlynol:

i. Y gellir dangos na ellir darparu lefel dderbyniol o ddarpariaeth trwy:
   a) ddefnydd o safle sy'n fwy derbyniol yn amgylcheddol un ai o fewn neu du allan i'r Parc,
   b) rannu safle presennol, mast, tŵr neu strwythurau eraill.
   c) rhannu sianel danddaearol bresennol neu arfaethedig â gwasanaeth arall.

ii. Nid yw effaith cronnus y datblygiad ar y cyd gyda gosodiadau tebyg eraill, yn gwneud niwed mawr i gymeriad gweledol neu gymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol.

iii. Disgwylir i'r mast, yr antenau ac unrhyw strwythurau ategol gael eu dylunio yn dda a chynrychioli'r opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau.

iv. Mae'r allyriadau amledd radio o orsafoedd sylfaen ac aparatws symudol yn cydymffurfio ag egwyddorion ataliol y cytunir arnynt yn genedlaethol.

v. Pan fo risg o ymyrraeth radio, y gellir dangos bod yn bosib goresgyn hyn drwy fesurau priodol.

Bydd yn rhaid i'r offer ac adeiladau diangen neu ddarfodedig gael eu clirio a'r safle gael ei adfer o fewn chwe mis o ddiwedd gweithrediad y cyfleuster.

[46] Gan gynnwys rhoi ystyriaeth i anghenion goleuo.




Yr Wyddfa ©Croeso Cymru

# Atodiadau


Atodiad 1: Rhestr Termau ..... 118

Atodiad 2: Gweithredu a Monitro ..... 122

Atodiad 3: Sut all y Cynllun Datblygu Lleol ddarparu'r weledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri 139

Atodiad 4: Parthau Dylanwad ..... 143

Atodiad 5: Cyswllt Aneddiadau i Ganolfannau Gwasanaeth Lleol ..... 144

Atodiad 6: Strategaeth Aneddiadau ..... 145

Atodiad 7: Diagram Allweddol – Y Strategaeth Ofodol ..... 148

Atodiad 8: Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 149

Atodiad 9: CDLl Eryri Cyflenwad Tir ar gyfer Tai ..... 150

Atodiad 10: Dyraniadau ..... 152

# Atodiad 1: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Adroddiad Ymgynghori** | Adroddiad o ymgynghoriad o dan Reoliad Cynllun Datblygu leol 22 pan gyflwynir y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer archwiliad annibynnol. Mae'n ofynnol paratoi adroddiad ymgynghori cychwynnol yn trafod y cam cyn paratoi cynllun cyn adneuo o dan Reoliad Cynllun Datblygu Lleol 17(c). |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol** | Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae polisïau yn y cynllun datblygu lleol yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. |
| **Asedau Treftadaeth** | Mae'r term "Asedau Treftadaeth" yn ymwneud â strwythurau a mannau agored yr ystyrir bod iddynt werth hanesyddol, archeolegol, pensaernïol neu artistig arbennig (Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol a Henebion Cofrestredig) ynghyd â Safleoedd Treftadaeth y Byd, ac yn yr amgylchedd morol, llongddrylliadau hanesyddol. |
| **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol** | Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cydweithio gydag awdurdodau cynllunio a thai Gogledd Orllewin Cymru ar Asesiad Marchnad Dai Lleol. Mae'r asesiad yn anelu at ddarparu gwybodaeth ynghylch natur a lefel yr angen a'r galw am dai yn eu marchnadoedd tai lleol. Dylid cynnal yr asesiadau hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Local Housing Market Assessment Guide' 2006. |
| **Adroddiad Amgylcheddol** | Dogfen ofynnol o dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol sy'n nodi, yn disgrifio ac yn arfarnu effeithiau sylweddol tebygol gweithredu'r cynllun yn yr amgylchedd. |
| **Adroddiad Cwmpasu** | Y broses o benderfynu cwmpas a lefel o fanylder o'r Arfarniad Cynaladwyedd, Adroddiad Cwmpasu (AC) gan gynnwys effeithiau cynaladwyedd ac opsiynau sydd angen ei hystyried, y dull asesu i'w ddefnyddio, strwythur a chynnwys yr Adroddiad Cwmpasu. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardaloedd Cadwraeth yw 'ardaloedd sy'n dangos diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, gyda chymeriad neu edrychiad sydd yn ddelfrydol i'w diogelu neu wella'. Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu pennu gan awdurdodau cynllunio lleol drwy'r ddeddf Rhestru Adeiladau ac Ardaloedd Cadwraeth, 1990. |
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol** | Term cyffredinol a ddefnyddir fel y'i cymhwysir at bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol** | Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol; h.y. Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| **Cwrtil** | Darn bach o dir sy'n union o amgylch adeilad neu dŷ. |
| **Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai** | Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu bydd digon o dir ar gael, ar gyfer cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai, gan ffurfio barn ar hynny yn unol â'r strategaeth cynllun datblygu.<br>Diben yr astudiaeth yw:<br>monitro'r ddarpariaeth ar gyfer tai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy;<br>darparu datganiad y cytunwyd arno o'r tir preswyl sydd ar gael at ddibenion cynllunio a rheoli datblygu<br>nodi'r angen i weithredu mewn sefyllfaoedd lle gwelir nad oes cyflenwad digonol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol** | Gwybodaeth atodol mewn perthynas ar bolisïau mewn cynllun datblygu Lleol. Nid ydynt yn rhan o'r cynllun datblygu a ni chant eu harchwilio'n annibynnol ond mae'n rhaid iddynt fod yn gyson ac ef a chyda pholisi cynllunio cenedlaethol. |
| **Cynllun Cynnwys Cymunedau** | Mae hwn yn egluro sut y bydd datblygwyr, y cyhoedd a grwpiau gyda diddordeb yn medru cyfrannu i baratoadau'r cynllun. Mae hefyd, yn egluro beth sydd yn digwydd i'r ymatebion, a sut ymateb geir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer ardal pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 - Cynllun defnydd tir sy'n ddarostyngedig i archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ar draws yr ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a lle bo angen polisïau a chynigion ar gyfer ardaloedd newid neu warchodaeth allweddol. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau'n ddaearyddol ar y map o'r Cynigion sy'n rhan o'r cynllun. |
| **Cynllun Gofodol Cymru** | Cynllun sydd wedi'i baratoi ac wedi'i gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan A60 y Ddeddf, sy'n nodi fframwaith strategol i lywio datblygiad polisiau ac ymyriadau mewn polisiau yn y dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwenud â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol ai peidio. |
| **Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth** | Cynllun sy'n pennu amcanion a chamau gweithredu ar gyfer sicrhau bioamrywiaeth, gyda thargedau mesuradwy, sy'n anelu at warchod a gwella byd natur ar draws cymunedau drwy ddwyn pob buddiant ynghyd drwy gynnwys sectorau megis amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Caiff camau gweithredu eu datblygu a'u cymryd mewn partneriaeth ac wrth wneud hynny adlewyrchir blaenoriaethau lleol yn ogystal â'r anghenion o ran bioamrywiaeth. |
| **Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol** | Dogfen strategol a throsfwaol, ac sydd yn cydlynu ac integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol -lle mae'r rhain yn effeithio ar bwrpasau a dyletswyddau'r Parc. |
| **Cytundeb Cyflawni** | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, i'w chyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn iddi gytuno arni. |
| **Dangosydd** | Mesur o amrywiadau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur p'un a gyflawnwyd amcanion ai peidio. |
| **Datblygiad** | Fe'i diffinnir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel '…cynnal gwaith adeiladu, peirianyddol, cloddio neu waith arall mewn tir, ar dir, dros dir neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid defnydd perthnasol yn nefnydd unrhyw adeilad neu dir arall.' |
| **Datblygiad cynaladwy** | Term a'i defnyddir yn aml a luniwyd gan y Comisiwn ar yr Amgylchedd a Datblygiad yn 1987: Datblygiad sydd yn cwrdd â gofynion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'i gofynion a dyheadau hwy. |
| **Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy** | Polisïau interim cynllunio i gyflawni tai fforddiadwy a hynny trwy gyfrwng yr holl ffurfiau o gyfleoedd datblygu - ar safleoedd a ddyrannwyd, safleoedd ar hap a safleoedd eithriedig gwledig, gan gynnwys y rhai a adeiledir o'r newydd a'r rhai sy'n cynnwys<br>newid defnydd adeiladau gwledig traddodiadol o fewn y Parc Cenedlaethol, hyd nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei fabwysiadu. |

| | |
|---|---|
| **Effaith sylweddol** | Effeithiau sy'n sylweddol yng nghyd-destun y cynllun (gweler atodiad II o Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol feini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd amgylcheddol tebygol effeithiau). |
| **Ffin Datblygu Tai** | Llinell wedi'i thynnu o amgylch tref neu bentref sy'n gwahaniaethu cefn gwlad o'r ardaloedd adeiledig a lle mae tai pellach yn debygol o gael eu cefnogi mewn egwyddor gan y parc cenedlaethol. |
| **Fforwm Eryri** | Sefydlwyd Fforwm Eryri er mwyn cynorthwyo ym mhroses paratoi y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Rheolaeth, a mae'n gwasanaethu fel dull ar gyfer hwyluso trafodaethau rhwng rhanddeiliaid ar faterion allweddol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys staff ac Aelodau Awdurdod y Parc, Croeso Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Conwy, Un Llais Cymru, CADW, Iechyd Cyhoeddus Cymru, CNC, Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru, Cymdeithas Eryri, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, UAC, NFU, Ffederasiwn Busnesau Bach, Grid Cenedlaethol ac Yr Urdd.<br>Rôl y fforwm yw cynnal trafodaethau agored rhwng budd-ddeiliaid ar faterion polisi allweddol. |
| **Grŵp Llywio** | Grŵp sydd yn cynnwys aelodau a swyddogion yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a phartneriaid allweddol i lywio'r broses, sicrhau integreiddiad rhwng gwahanol agweddau o'r gwaith ac i yrru'r prosesau cyfochrog ymlaen gan ddefnyddio camau sydd wedi eu diffinio'n glir. |
| **Gwerthusiad Cynaliadwyedd** | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol o dan A62(6) y Ddeddf gynnal arfarniad o gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o arfarniad cynaliadwyedd yn ymgorffori'n llawn gofynion y gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. |
| **Hunaniaeth Ddiwylliannol** | Hunaniaeth ddiwylliannol yw (yr ymdeimlad o) hunaniaeth grŵp neu ddiwylliant, neu unigolyn cyn belled ag y bo ef neu hi yn cael ei dylanwadu trwy berthyn i grŵp neu ddiwylliant. |
| **Hwylusydd Tai Gweledig** | Rôl yr Hwyluswyr Tai Gwledig yw: - gweithredu fel broceriaid annibynnol, diduedd ar ran y cymunedau lleol - helpu cymunedau i gynnal arolygon o anghenion tai; - cynorthwyo cymunedau i ddod o hyd i atebion sy'n gweddu'n berffaith wrth geisio diwallu'r angen tai lleol a bennwyd. |
| **Landmap** | System wybodaeth ddaearyddol i gofnodi a rheoli priodweddau a chymeriad y dirwedd. |
| **Lliniaru** | Mesurau i osgoi, lleihau neu leddfu effeithiau niweidiol sylweddol. |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | Mae Newid yn yr Hinsawdd yn golygu unrhyw newid sylweddol dros yr hirdymor yn "nhywydd arferol" ardal neu'r ddaear yn ei chyfanrwydd. Fe all tywydd arferol gynnwys tymheredd, dyddodiad a phatrymau gwynt ar gyfartaledd. Mae'n cynnwys newidiadau yn amrywioldeb neu gyflwr cyfartalog yr atmosffer dros gyfnod sy'n amrywio o ddegawdau i filiynau o flynyddoedd. Gall y newidiadau hyn gael eu hachosi gan brosesau dynamig ar y Ddaear, grymoedd allanol gan gynnwys amrywiadau yn nhanbeidrwydd golau'r haul, ac yn fwy diweddar, gan weithgareddau dyn. |
| **Nodyn Cyngor Technegol** | Mae'r Nodiadau Cyngor Technegol yn cynnwys canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru |
| **Rhanddeiliaid** | Buddiannau y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol (a/neu Asesiad Amgylcheddol Strategol) cânt eu cynnwys fel arfer drwy gyrff cynrychioliadol. |
| **Safleoedd eithriedig gweledig** | Safleoedd ar raddfa fach ar gyfer tai mewn setliadau gweledig sy'n bodoli eisoes, neu am y ffin â hwy, ar gyfer darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, na fyddent, fel arall, yn cael ei neilltuo yn y cynllun datblygu. |

| | |
|---|---|
| **Safle Treftadaeth y Byd** | Mae Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn safle (megis coedwig, mynydd, llyn, anialwch, heneb, adeilad, grŵp o adeiladau, neu ddinas) sy’n ymddangos ar y rhestr a gynhelir gan Raglen Treftadaeth y Byd rhyngwladol a weinyddir gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO, sydd wedi’i wneuthur o 21 parti’r wladwriaeth sy’n cael eu hethol gan eu Cynulliad Cyffredinol am gyfnod o bedair blynedd. Mae’r rhaglen yn rhestru, enwi ac yn diogelu safleoedd o bwysigrwydd diwylliannol neu naturiol eithriadol i dreftadaeth ddynol gyffredin. |
| **Safleoedd ar Hap** | Safle nad yw wedi’i neilltuo’n benodol ar gyfer datblygu mewn cynllun datblygu, ond sy’n dod ar gael yn annisgwyl yn ystod oes y cynllun. |
| **Safleoedd Tir Glas** | Tir, amaethyddol yn aml, sydd heb unrhyw gyfyngiadau daearyddol mawr i rwystro eu datblygu. |
| **Tai Fforddiadwy** | Tai a ddarperir i'r rheiny nad yw eu gofynion yn cael eu bodloni gan y farchnad agored. Mae'r term hwn yn rhannu i ddau is-gategori:<br>Tai rhent cymdeithasol - darperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae rhenti'n ystyried rhenti canllaw a rhenti meincnod Llywodraeth y Cynulliad.<br>Tai canolradd - lle mae prisiau neu'r rhenti'n uwch na rhenti tai cymdeithasol ond yn is na phrisiau nei renti ar y farchnad agored. |
| **Ty Gwreiddiol** | Mae'r term “tŷ gwreiddiol” yn golygu'r tŷ fel y'i hadeiladwyd gyntaf neu fel y safai ar 1 Gorffennaf 1948 (os cafodd ei adeiladu cyn y dyddiad hwnnw). |
| **Tir wedi ei ddatblygu o’r blaen (Tir Llwyd)** | Tir a ddatblygwyd o’r blaen sydd, neu oedd, ag adeiledd parhaol arno, gan gynnwys cwrtil y tir a ddatblygwyd ac unrhyw isadeiledd wyneb sefydlog cysylltiedig. Caiff adeiladau sydd a wnelo ag amaethyddiaeth neu goedwigaeth eu heithrio fel y mae safleoedd o werth cadwraeth natur, safleoedd lle mae’r strwythurau wedi ymdoddi i mewn i’r dirwedd neu fod y tir hwnnw wedi’i neilltuo at ddefnydd amwynder. |
| **Tystiolaeth** | Deholiad o wybodaeth/data sylfaenol neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi cynllun. |
| **Ymrwymo** | Proses sydd yn annog ystyriaeth sylweddol mewn cymuned. Ymgais blaenweithgar i ymrwymo unrhyw grŵp o bobl/rhan o gymuned. |
| **Ynni adnewyddol** | Ynni sy’n deillio o ffynhonnell sydd ddim yn cael ei ddisbyddu drwy ei ddefnydd. Mae esiamplau yn cynnwys ynni sy’n deillio o wynt, dŵr, pŵer llanw a thrai neu hylosgiad neu ddadelfennu gwastraff. |
| **(Yr) angen am dai** | Mae'n cyfeirio at aelwydydd nad oes ganddynt eu tai eu hunain neu sy'n byw mewn tai y bernir eu bod yn annigonol neu'n anaddas ar eu cyfer, ac nad ydynt yn debygol o fedru diwallu'u hanghenion ar y farchnad dai heb gymorth. |

# Atodiad 2: Gweithredu a Monitro

Caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro'n flynyddol, a bydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyhoeddi er mwyn dangos i ba raddau y mae strategaethau a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni, p'un a yw'r polisïau'n llwyddo i gwrdd â'u hamcanion bwriadedig neu p'un a oes unrhyw dueddiadau neu newidiadau sylweddol annisgwyl a all beri bod angen cynnal adolygiad buan neu rannol adolygiad. Rhoddwyd ystyriaeth i'r dangosyddion craidd perthnasol a bennwyd yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Mehefin 2006). Mae rhai o'r rhain wedi eu cynnwys, rhai wedi eu haddasu fel dangosyddion lleol i gyd-fynd ac amgylchiadau lleol, ac eraill wedi eu hepgor gan eu bod yn amherthnasol. Bydd yr ysbardunau a gynhwysir yn y drefn fonitro'n arwydd buan ynghylch perfformiad y Cynllun ac o bosibl pa mor helaeth y gall fod angen i adolygiad o'r Cynllun fod. Bydd yn bwysig gwahaniaethu rhwng perfformiad y Cynllun a dylanwad posibl ffactorau allanol nad ydynt yn ymwneud â pholisïau'r cynllun. Ystyrir bod y mecanweithiau a roddir mewn lle ar gyfer monitro'n gadarn ac yn adlewyrchu'n briodol yr hyn y mae'r Cynllun yn ceisio'i gyflawni. Bydd Fforwm Eryri'n rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau cynnydd ac fe gytunir arnynt gan yr Awdurdod, cyn eu cyflwyno ger bron Llywodraeth Cymru. Caiff yr adroddiadau monitro hyn eu cyfathrebu'n gyhoeddus trwy Fforwm Eryri a thrwy eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r fframwaith monitro'n cynnwys cyfeiriadau at sefydliadau eraill ynghyd â chynlluniau a strategaethau eraill a all gael dylanwad proactif ar weithrediad y polisïau. Mae dangosyddion o newid ychwanegol ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc sy'n cael ei adolygu yn rheolaidd.

## GWEITHREDU

### Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol

| Polisi | Prosiect / Cynllun | Awdurdodau Arweiniol | Beth mae hynny'n ei olygu a beth fydd y canlyniadau? |
|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd Naturiol** | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | Awdurdod y Parc Cenedlaethol, CNC, RSPB, Ymddiriedolaethau Natur | Gwarchod, cynnal a gwella safleoedd Natura 2000<br><br>Gwarchod a gwella bioamrywiaeth. |
| | Cynllun Rheoli Traethlin | Awdurdod Lleol, CNC, Railtrack, Datblygwyr Preifat | Strategaeth amddiffyn yr arfordir. Pennu opsiynau cynaliadwy ar gyfer amddiffyn yr arfordir |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd gan Llywodraeth Cymru (wrthi'n cael ei pharatoi) | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol Sectorau preifat a gwirfoddol | Rheoli, addasu ar gyfer, a lliniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd. |
| | Gwaith i sefydlu ôl-troed ecolegol Eryri. | Llywodraeth Cymru Awdurdodau Lleol | Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'i bartneriaid i sefydlu ôl-troed ecolegol Eryri gyda golwg ar ddefnyddio hynny i fonitro ei gynnydd tuag at ddyfodol carbon isel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mwynau** | Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau | Awdurdodau Cynllunio Mwynau yng Ngogledd Cymru, Gweithredwyr chwareli | Cyflenwad rhanbarthol cynaliadwy o agregau |
| **Gwastraff** | Adolygiad cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (TAN21 Diwygiedig wedi cymryd ei le) | Awdurdodau Rheoli Gwastraff, Awdurdodau Cynllunio Gwastraff, Cwmnïau Rheoli Gwastraff Preifat | Rhwydwaith rhanbarthol integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff<br>Rhoddwyd gorau i dirlenwi yn Ffridd Rasus yn 2014. Mae'r safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer safle compostio caeedig a throsglwyddo gwastraff erbyn hyn. Mae gwaith treulio anaerobig Prosiect Gwyriad yn Llwyn Isaf yn derbyn gwastraff cegin a bwyd o Eryri. Bydd gwaith troi gwastraff yn ynni y Parc Adfer sydd wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn ymdrin â 200,000 o wastraff gweddilliol y flwyddyn o 5 ALl yng ngogledd Cymru. |
| **Ynni** | Trywydd Ynni Adnewyddadwy Cymru gan Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Sectorau Preifat a Gwirfoddol | Bodloni anghenion ynni Cymru o ffynonellau ynni carbon isel |
| **Tir Agored a Lletem Las** | D/B | D/B | Peidio â cholli Tir Agored na Lletem Las |

**Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol**

| **Polisi** | **Prosiect / Cynllun** | **Awdurdodau Arweiniol** | **Beth mae hynny'n ei olygu a beth fydd y canlyniadau?** |
|---|---|---|---|
| **Yr Amgylchedd Hanesyddol** | Cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 ym mhob un o'r Ardaloedd Cadwraeth perthnasol yn y Parc Cenedlaethol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Dylai'r canlyniadau sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir ar flaen y tai yn gydnaws â chymeriad arbennig yr ardal. |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Hanesyddol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Bydd y dogfennau'n cynnwys 'Rhinweddau Arbennig' yr ardaloedd ac yn nodi cynigion ar gyfer eu rheoli yn y dyfodol. |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Hanesyddol (Adran ar Ardaloedd Cadwraeth) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Canllawiau sy'n amlinellu datblygiadau fydd yn dderbyniol mewn ardaloedd cadwraeth yn ogystal â'r hyn nad yw'n dderbyniol. Caiff y ddogfen hon ei defnyddio tra bo'r gwaith yn cael ei wneud i gyflwyno cyfarwyddiadau erthygl 4 a Chynlluniau Rheoli Ardal Gadwraeth. |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Hanesyddol (Adran ar Parciau a gerddi hanesyddol) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Canllawiau, i roi gwybod i'r darllenydd am y mathau o ddatblygiad nad ydynt yn briodol mewn parciau a gerddi hanesyddol a'u cyffiniau; amlinellu pam ei fod yn bwysig fod y parciau a'r gerddi hanesyddol yn cael eu diogelu; dangos lleoliad pob un o'r parciau a'r gerddi hanesyddol yn y Parc a'u lleoliad hanfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Hanesyddol (Adran ar Safle Treftadaeth y Byd) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Canllawiau fydd yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r math o ddatblygiad sy'n briodol o fewn, a chyfagos at, Safle Treftadaeth y Byd; hyrwyddo dealltwriaeth o gysyniad a graddau 'Lleoliad Hanfodol' y safle a'r golygfeydd arwyddocaol o, ac i, y safleoedd a pham fod angen eu diogelu. |
| **Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy** | Arweiniad Dylunio Cynaliadwy | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Canllawiau ar gyfer y math o ddatblygiad sy'n addas ar gyfer natur sensitif yr ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol |
| **Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol** | Cofrestr Adeiladau Mewn Perygl | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cyflwyno gwybodaeth i berchnogion adeiladau mewn perygl parthed ffynonellau cymorth grant ar gyfer gwaith atgyweirio ac adfer. Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestr o adeiladau mewn perygl, a rhoddir cyngor i berchnogion yr adeiladau parthed technegau priodol ar gyfer eu diogelu |
| **Diogelu Asedau Treftadaeth Cenedlaethol Bwysig** | D/B | D/B | Diogelu asedau treftadaeth cenedlaethol bwysig yn y fan a'r lle |
| **Trosi Adeiladau Gwledig** | D/B | D/B | D/B |
| **Hysbysebion ac Arwyddion** | D/B | D/B | D/B |

**Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy**

| **Polisi** | **Prosiect / Cynllun** | **Awdurdodau Arweiniol** | **Beth mae hynny'n ei olygu a beth fydd y canlyniadau?** |
|---|---|---|---|
| **Tai** | Partneriaeth Tai Gwynedd gan gynnwys is-grŵp cyflenwad tai Gwynedd | Cyngor Gwynedd | Cyfarwyddyd clir ar gyfer darparu tai. Pennu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a chydlynu'r blaenoriaethau. Bydd is-grŵp cyflenwad tai Gwynedd yn cyflwyno arweiniad strategol i Brosiect Tai Fforddiadwy Cyngor Gwynedd, prosiect Hwylysydd Tai Gwledig Gwynedd a grŵp eiddo Gwag Cyngor Gwynedd. |
| | Fforwm Tai Lleol Conwy | Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy | Cyfarwyddyd clir ar gyfer darparu tai. Pennu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a chydlynu'r blaenoriaethau. |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Canllawiau manwl ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r system gynllunio ynglŷn â sut y cymhwysir y polisïau cyfredol ar dai fforddiadwy. Rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau ynglŷn â'r gofynion ar dai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau preswyl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Strategaethau Tai Lleol | Awdurdodau Tai Gwynedd a Chonwy | Nodi gweledigaeth a chyfeiriad sydd a wnelo â thai, ynghyd ag amcanion a chanlyniadau targed i'w cyflawni. |
| | Strategaeth Eiddo Gwag ar gyfer Gwynedd a Chonwy. | Awdurdodau Tai Gwynedd a Chonwy, datblygwyr preifat | Mae'n disgrifio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gydag eraill er mwyn ailddechrau defnyddio eiddo gwag |
| | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Datblygu dealltwriaeth ynglŷn â natur a lefel yr angen tai mewn marchnadoedd tai lleol. |
| **Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig** | Prosiect Hwylysydd Tai Gwledig | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Tai Gwynedd a Chonwy, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned Tref a Phentref, tirfeddianwyr preifat. | Darparu unedau tai fforddiadwy mewn cymunedau lle pennwyd bod angen lleol yn bodoli.<br>Hynod ddibynnol ar dir sydd ym meddiant y cyhoedd e.e. tir yr awdurdod lleol a'r comisiwn coedwigaeth i ddarparu safleoedd eithriedig.<br>Mae'n ddibynnol ar gael arian gan Gymdeithasau Tai i sicrhau y gellid darparu'r gofyniad uchel o dai fforddiadwy. |
| | Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdodau Tai Gwynedd a Chonwy, Cynghorau Cymuned Tref a Phentref, tirfeddianwyr preifat | Darparu unedau tai fforddiadwy mewn cymunedau lle pennwyd bod yna angen yn bodoli. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol – Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | Amrywiol – aelodau o grŵp llywio Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | Nid oes galw wedi'i bennu o fewn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd. Bydd y polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau petai galw'n cael ei bennu yn y dyfodol, er enghraifft trwy'r astudiaeth ar Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. |
| **Tai Gofal Ychwanegol** | Adeiladu i'r Dyfodol – Gwasanaethau Preswyl i Bobl Hŷn yng Ngwynedd | Awdurdodau Tai Lleol, Cymdeithasau Tai | Darparu unedau tai gofal ychwanegol mewn cymunedau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anecs** | D/B | D/B | D/B |
| **Estyniadau** | D/B | D/B | D/B |
| **Tai yn lle'r rhai presennol** | D/B | D/B | D/B |
| **Diddymu Amodau Meddiannaeth Amaethyddol** | D/B | D/B | D/B |
| **Gwasanaethau a Chyfleusterau Cymunedol** | Cronfa Eryri | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Mae'r Awdurdod yn cynorthwyo â chynnal cyfleusterau cymunedol trwy'r Gronfa Eryri. Y prosiectau sy'n gymwys ar gyfer y gronfa yw prosiectau datblygu cynaliadwy sy'n cyraedd yr amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlathol . |
| | Cronfa Prosiectau Cymunedol Bach | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Mae'r Gronfa Prosiectau Cymunedol bach wedi'i anelu at helpu pobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol i gychwyn prosiectau fydd yn fuddiol i'w cymunedau a'r amgylchedd lleol. |
| | Cysylltu ag asiantaethau eraill | Amrywiol – asiantaethau gweithredol yn bennaf | Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod cyfleusterau cymunedol yn cael eu diogelu trwy ymateb i ymgynghoriadau gan asiantaethau eraill sy'n darparu cyfleusterau hanfodol e.e. ymgynghori ynghylch cau Swyddfeydd y Post, bocsys ffôn, cau ysgolion ayb |
| **Yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau** | Arolwg Iaith Gwynedd | (Grŵp Hyrwyddo Iaith Gwynedd) Bwrdd yr Iaith, Cyngor Gwynedd | Hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd ar sail Arolwg Iaith Gwynedd |
| | Cynllun Integreiddio Mewnfudwyr | (Grŵp Hyrwyddo Iaith Gwynedd) Cyngor Gwynedd | Cynllun Integreiddio Mewnfudwyr – ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n codi yn sgil mewnfudiad. I'w weithredu erbyn 2009/10 –bydd y cynllun yn cynnwys ffyrdd o gefnogi integreiddiad llawn y mewnfudwyr yn eu cymunedau newydd. |
| | Menter Iaith Conwy | Menter Iaith Conwy | Cefnogi cymunedau i gynyddu a datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Cyngor a chymorth i unigolion, sefydliadau a busnesau. |
| | Arweiniad i ddyluniad dwyieithog | Bwrdd yr Iaith | Cyngor ymarferol clir ar bob agwedd ar ddyluniad dwyieithog gan gynnwys arwyddion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Taflen: Defnyddio'r iaith Gymraeg yn eich Datblygiad newydd neu Fusnes yng Ngogledd Orllewin Cymru. | Bwrdd yr Iaith | Annog dulliau gwell o ymgorffori'r iaith Gymraeg i mewn i fusnesau. |

**Cynnal Economi Wledig**

| Polisi | Prosiect / Cynllun | Awdurdodau Arweiniol | Beth mae hynny'n ei olygu a beth fydd y canlyniadau? |
|---|---|---|---|
| **Economi Wledig Gynaliadwy** | Cynllun Gofodol Cymru – ardal cynllun gofodol Canolbarth Cymru ac ardal cynllun gofodol Gogledd Orllewin Cymru. | Llywodraeth Cymru, Partneriaethau ardaloedd y Cynllun Gofodol | Mae'n ymwneud â'r elfennau angenrheidiol i gyflawni datblygiadau cynaliadwy: gwasanaethau, defnydd tir a buddsoddiad. Mae'n helpu i lunio polisïau, rhoi gwybod i gynlluniau, unioni buddsoddiadau, sicrhau ymglymiad a llywodraethu gwell. |
| | Strategaeth Datblygu Gogledd Orllewin Cymru | Awdurdodau Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gweithredu egwyddorion a nodau eang Cynllun Gofodol Cymru yn rhanbarthol. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion, ymyraethau, dangosyddion a thargedau |
| | Menter Treftadaeth Tref | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Bydd ymyrraeth y Menter Treftadaeth Tref yn creu cyfleoedd gwaith newydd, yn gwella sgiliau ac yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o natur gynhenid unigryw'r ardal. Sicrhau bod buddsoddiad mewnol yn fwy deniadol. |
| | Menter a Busnes | Menter a Busnes | Gwell cyfleoedd am ddatblygiadau busnes i groesawu'r defnydd o Gymraeg i gyfrannu at ddatblygu'r economi. |
| | Llygad Busnes | Llywodraeth Cymru | Darparu gwybodaeth am gefnogaeth busnes a gwybodaeth benodol am reoli busnes, gan gynnwys opsiynau ariannu a chyfleoedd am hyfforddiant mewn busnes i fusnesau sydd eisoes yn bodoli yn ogystal ag unigolion sy'n bwriadu cychwyn busnes |
| | Partneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG) | Awdurdodau Lleol | Partneriaeth leol yng Ngwynedd sy'n gyfrifol am ddatblygu ceisiadau Amcan 1 yn y Sir ac ar gyfer hyrwyddo datblygiadau economaidd yn gyffredinol. |
| | Cynllun Datblygu Gwledig | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol | Y Cynllun Datblygu Gwledig yw'r mecanwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i gyflawni gweithgareddau sy'n cefnogi cefn gwlad a chymunedau gwledig. Trwy hynny bydd yn annog rheolaeth gynaliadwy o amaethyddiaeth a'r amgylchedd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol | Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cefnogi'r gymuned amaethyddol i ddiogelu treftadaeth gyfoethog Cymru wledig. Mae'n adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ffermio cynaliadwy. |
| **Datblygiadau Cyflogaeth Newydd** | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| **Arallgyfeirio Amaethyddol** | Fel uchod | Fel uchod | Fel uchod |
| **Twristiaeth** | Strategaethau Twristiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru | Partneriaethau Gogledd a Chanolbarth Cymru. | Cyfrifoldeb dros ddatblygiad a hyrwyddiad strategol o'r sector twristiaeth. |
| | Yn dilyn gwaith ymchwil i'r hyfywedd – sefydlu cynlluniau ad-dalu ymwelwyr. | Parc Cenedlaethol Eryri a Chymdeithas Eryri | Bydd yn annog busnesau i godi arian trwy osod lefi gwirfoddol ar gynnyrch allweddol neu drwy ofyn am gyfraniad bach yn lle llety, bwyd, diod ayb. Gallai'r arian a godir gefnogi nifer o gynlluniau yn y Parc, megis Goriad Gwyrdd ayb. |
| **Carafanau a Chabanau** | D/B | D/B | D/B |
| **Manwerthu** | D/B | D/B | D/B |

**Hyrwyddo Hygyrchedd a Chynhwysiad**

| Polisi | Prosiect / Cynllun | Awdurdodau Arweiniol | Beth mae hynny'n ei olygu a beth fydd y canlyniadau? |
|---|---|---|---|
| **Cludiant** | Cynllun Cludiant Rhanbarthol Canolbarth Cymru | Taith Consortia | Mae Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol wrthi'n cael eu cynhyrchu fel ymateb i Strategaeth Cludiant Cymru, er mwyn darparu cludiant cynaliadwy ar lefel sy'n fwy lleol. |
| | Cynllun Cludiant Rhanbarthol Canolbarth Cymru | TraCC | Mae Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol wrthi'n cael eu cynhyrchu fel ymateb i Strategaeth Cludiant Cymru, er mwyn darparu cludiant cynaliadwy ar lefel sy'n fwy lleol. |
| | Pont Briwet, Penrhyndeudraeth | TraCC | Gwelliannau i'r bont oherwydd ei chyflwr gwael. Bydd yn arwain at gysylltiad gwell ar gyfer cludiant ar y ffordd ac i deithwyr mewn car, bws a thrên, yn ogystal â cherddwyr a beicwyr. |
| | Strategaeth Goriad Gwyrdd | CBS Conwy | Mynediad gwell a mwy cynaliadwy i ogledd Eryri a thrwy'r ardal honno |
| **Parcio i Ymwelwyr** | D/B | D/B | D/B |
| **Telathrebu** | D/B | D/B | D/B |

## Monitro

Mae'r adroddiad monitro hwn wedi ceisio dod o hyd i gymaint o ddangosyddion â phosibl. Ar gyfer nifer o ddangosyddion, nid yw'r data wedi'i ddosrannu i lawr i lefel y Parc Cenedlaethol. Wrth reswm, mae bylchau yn y data, ac felly fe fyddai gwaith monitro pellach yn y dyfodol yn fuddiol. Rhestrir bylchau yn y data ar gyfer pob amcan isod, a chaiff y data ei gasglu i'w gynnwys mewn fersiynau o'r adroddiad monitro yn y dyfodol.

| Amcanion Strategol y CDLl | Polisïau CDLl Perthnasol | Dangosyddion | Targedau Polisi | Cyraeddnodau |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchod, Gwella a Rheoli'r Amgylchedd Naturiol | A<br>D<br>2<br>Dd<br>E<br>3<br>F<br>Ff<br>1<br>4<br>5<br>Ch | Ardal o arfordir annatblygedig 3,499 ha | Dim colled sylweddol o arfordir annatblygedig | 1 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at golled sylweddol am 3 blynedd yn olynol |
| | | Ardal o AGA, ACA, SoDdGA neu safleoedd Ramsar a gollir i ddatblygiadau | Dim gwir golled sylweddol | Dim colled |
| | | Gwelliannau treftadaeth naturiol a Natura 2000 trwy A106/amodau neu ffactorau eraill | Cynnydd yn yr ardaloedd wedi'u gwella | |
| | | Sawl datblygiad (yn ôl categori NCT 15) heb ei ddyrannu yn y CDLl a ganiateir o fewn parth llifogydd C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni profion NCT 15 | Dim datblygiad wedi'i ganiatau sy'n gwrthdaro â NCT 15 (heb gynnwys y rhai a ystyrir yn eithriadau yn NCT 15) | 1 datblygiad |
| | | % y datblygiadau newydd â Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC). | 100% o'r holl ddatblygiadau o 3 neu fwy o dai | 30% neu fwy o ddatblygiadau newydd o 3 neu fwy o dai heb SDC |
| | | Ardal o dir agored (68.5 ha) a lletem las (54.7 ha) | Dim gwir golled sylweddol | 1 datblygiad yn arwain at golled sylweddol am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn arwain at golled sylweddol mewn 1 flwyddyn. |
| | | Monitro ceisiadau cynllunio a phenderfyniadau o fewn y Lletem Las | Dim datblygiad amhriodol | 1 datblygiad yn arwain at golli'r natur agored |
| | | Monitro cynnydd y Cynllun Rheoli Traethlin | Monitro cynnydd | |
| | | Monitro ceisiadau cynlluniau sy'n dod ymlaen o fewn ardaloedd craidd Awyr Dywyll ac o fewn Gwarchodfa Biosffer Dyfi | Dim effaith annerbyniol ar y dynodiadau | |

| **Amcanion Strategol y CDLl** | **Polisïau CDLl Perthnasol** | **Dangosyddion** | **Targedau Polisi** | **Cyraeddnodau** |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Diwylliannol a Hanesyddol | A<br>G<br>1<br>6<br>7<br>8<br>9<br>10 | Paratoi a mabwysiadu CCA ar Amgylchedd Hanesyddol | Erbyn 2019 | |
| | | Paratoi a mabwysiadu CCA ar Ddyluniad Cynaliadwy – penodol i'r ardal | Erbyn 2018 | |
| | | Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth ag Asesiadau Ardal cyfoes (14) | Cwblhau Asesiadau Ardal erbyn 2012 a'u hadolygu bob 5 mlynedd | |
| | | Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth â Chynlluniau Rheoli cyfoes | Cwblhau Cynlluniau Rheoli a'u hadolygu bob 5 blynedd | |
| | | Nifer yr adeiladau rhestredig mewn Risg. (305) | Lleihau nifer yr adeiladau rhestredig mewn perygl a monitro'r rheswm dros y cynnydd yn y nifer | |
| | | Monitro ceisiadau cynllunio o fewn, a chyfagos at, y Parciau a Gerddi Hanesyddol a all gael effaith | | |
| | | Nifer yr Henebion Rhestredig mewn Risg. Monitro ceisiadau cynllunio a all gael effaith ar Heneb Rhestredig. | Lleihau'r nifer mewn risg. | |
| | | Nifer y safleoedd archeolegol, Henebion Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth a gafodd eu gwarchod neu eu gwella yn sgil cynigion datblygu | Yr holl gynigion datblygu | 1 datblygiad yn methu â gwarchod neu wella am 3 blynedd yn olynol neu 3 datblygiad yn methu â gwarchod neu wella mewn 1 flwyddyn (angen cyd-gysylltu ag Asesiadau AC a Chynlluniau Rheoli fel uchod) |
| | | Monitro ceisiadau cynllunio sy'n dod ymlaen o fewn Safle Treftadaeth y Byd neu leoliad hanfodol a Safle Treftadaeth y Byd Ymgeisiol | Dim effaith annerbyniol ar y dynodiad a'r dynodiadau ymgeisiol | |

| **Amcanion Strategol y CDLI** | **Polisiau CDLI Perthnasol** | **Dangosyddion** | **Targedau Polisi** | **Lefel Sbarduno** |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy | A<br>Ng<br>1<br>11<br>12<br>13<br>14<br>15<br>16<br>17<br>H<br>18 | Cyflenwad Tir ar gyfer tai | Cynnal cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai | Cyflenwad tir ar gyfer tai yn disgyn yn is na'r gofyniad 5 mlynedd |
| | | Nifer yr anheddau a ganiateir a'u cwblhau yn flynyddol | Bodloni'r gofyniad o 770 (cyfartaledd o 51 uned y flwyddyn) uned dros gyfnod y Cynllun (2016 – 2031)<br>2017/18 – 44<br>2018/19 – 57<br>2019/20 – 62<br>2020/21 – 72<br>2021/22 – 85<br>2022/23 – 56<br>2023/24 – 51<br>2024/25 – 51<br>2025/26 – 60<br>2026/27 – 52<br>2027/28 – 46<br>2028/29 – 46<br>2029/30 – 46<br>2030/31 – 45 | Islaw'r targed tai blynyddol cyfartalog dros ddwy flynedd yn olynol h.y. yn is na 102 uned dros ddwy flynedd yn olynol. |
| | | % o anheddau a ganiatawyd ym mhob haen anheddiad | % o anheddau a ganiateir yn ôl haen anheddiad i gyd-fynd â'r dosbarthiad canlynol:<br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol - o leiaf 25% o gyfanswm twf tai<br><br>Aneddiadau Gwasanaeth – o leiaf 10% o gyfanswm twf tai<br><br>Aneddiadau Eilaidd – dim mwy na 45% o gyfanswm twf tai<br><br>Aneddiadau Llai – dim mwy na 10% o dwf tai<br><br>Cefn Gwlad Agored – dim mwy na 10% o dwf tai | Cyfran yr anheddau a ganiateir:<br><br>a) islaw'r targedau ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Lleol ac Aneddiadau Gwasanaeth<br><br>b) yn fwy na'r targedau ar gyfer Aneddiadau Eilaidd a Chefn Gwlad Agored<br><br>am ddwy flynedd yn olynol |
| | | Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio y flwyddyn | Cyrraedd y targed tai fforddiadwy o 375 (cyfartaledd o 25 uned tai fforddiadwy y flwyddyn) dros gyfnod y Cynllun (2016-2031) | Llai na 21 uned y flwyddyn yn cael caniatâd cynllunio am ddwy flynedd yn olynol |

<table>
